Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 13eg Rhagfyr, 2016 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Sion Owen<br>01286 679665<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfed Wyn Edwards | Arweinydd |
| Dyfrig L. Siencyn | Dirprwy Arweinydd |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Adnoddau |
| John Wynn Jones | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Mair Rowlands | Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb |
| Mandy Williams-Davies | Aelod Cabinet Economi a Chymuned |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 22ain O DACHWEDD 2016 | | | 4 - 11 |
| 6 | DYFODOL DARPARIAETH ADDYSG YN NALGYLCH YSGOL Y BERWYN | Cyng. Gareth Thomas | Iwan T Jones | 12 - 23 |
| 7 | MATER YN CODI O'R PWYLLGOR CRAFFU - ARBEDION EFFEITHLONRWYDD PELLACH | Cyng. Dafydd Meurig | Dafydd W Williams | 24 - 28 |
| 8 | CYD-LEOLI GWASANAETHAU | Cyng. Dafydd Meurig | Dafydd Gibbard | 29 - 47 |
| 9 | PRYDLESU CYN YSGOL BRON Y FOEL, Y FRON | Cyng. Dafydd Meurig | Dafydd Gibbard | 48 - 52 |
| 10 | BLAENORIAETHAU CYLLIDEBOL A CHYLLIDEBAU YSGOLION UWCHRADD | Cyng. Dyfed Edwards & Gareth Thomas | Dilwyn O Williams | 53 - 57 |
| 11 | ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET PLANT, POBL IFANC A HAMDDEN | Cyng. Mair Rowlands | Iwan Trefor Jones | 58 - 66 |
| 12 | ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET ADDYSG | Cyng. Gareth Thomas | Iwan Trefor Jones | 67 - 78 |
| 13 | ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET ADNODDAU | Cyng. Peredur Jenkins | Dilwyn O Williams | 79 - 99 |

# Y CABINET 22/11/16

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfed Edwards (Cadeirydd), Dyfrig L. Siencyn, Peredur Jenkins, Dafydd Meurig, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Ioan Thomas a Mandy Williams-Davies.
Cynghorydd Aeron M Jones (ar gyfer eitem 10 yn unig)

**Hefyd yn bresennol-**

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr - Refeniw a Risg), Rhion Glyn (Uwch Swyddog Gweithredol

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd John Wynn Jones a'r Cynghorydd W. Gareth Roberts; Y Cynghorydd Roy Owen a’r Cynghorydd Gethin G Williams (ar gyfer eitem 10) a’r Cyfarwyddwr Corfforaethol Iwan T Jones.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir:

- Y Cynghorydd Peredur Jenkins yn eitem 8 ar y rhaglen, oherwydd ei fod yn berchen eiddo personol ac yn rhentu eiddo busnes
- Y Cynghorydd Dyfrid Siencyn yn eitem 8 ar y rhaglen oherwydd ei fod yn berchen ar ail eiddo
- Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies yn eitem 8 ar y rhaglen oherwydd bod ei gŵr wedi etifeddu tŷ gwag ar ôl ei rieni

Roedd yr Aelodau o’r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a gadawsant y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a nodir.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

**5. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 1 TACHWEDD 2016**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar y 1af o Dachwedd, 2016, fel rhai cywir.

## 6. CYLLIDEB REFENIW 2016/17 – ADOLYGIAD AIL CHWARTER (MEDI 2016)

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Peredur Jenkins.

**PENDERFYNWYD**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2016) o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, gan ofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu harweiniad/rheolaeth.

- Trosglwyddo (£135k) o gyllideb gorfforaethol i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i gyllido'r costau ychwanegol o ganlyniad i'r newid yn ymwneud â chodi tâl am y chwe wythnos gyntaf o ofal preswyl a nyrsio.
- Caniatáu i'r Adran Rheoleiddio ddefnyddio (£200k) o'u tanwariant i gyllido cynlluniau penodol i wella cyflwr meysydd parcio.
- Trosglwyddo (£300k) o'r Adran Rheoleiddio i'r Gronfa Ddiswyddo Gorfforaethol er mwyn cynorthwyo efo'r newidiadau sydd o'n blaenau fel Cyngor.
- Cynaeafu (£300k) o'r casgliad ffafriol Treth y Cyngor, a (£290k) o danwariant Budd-daliadau, ynghyd â (£200k) o'r tanwariant a gynhwysir o dan 'Eraill', a'i drosglwyddo fel a ganlyn:

  - defnyddio (£20k) o'r tanwariant fel cyfraniad ariannol i Bwll Nofio annibynnol Harlech er mwyn gwneud taliad pontio un tro ar gyfer y cyfnod hyd at 31 o Fawrth 2017, yn unol â phenderfyniad y Cabinet ar y 4 o Hydref 2016.
  - defnyddio (£135k) i gyllido oblygiadau ariannol newid yn y Ddeddfwriaeth Gofal 2014 gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.
  - y gweddill o (£635k) i'w neilltuo i Gronfa Trawsffurfio

**TRAFODAETH**

Amlygodd yr Aelod Cabinet bod yr adroddiad yn cynnwys yr adolygiad diweddaraf ar gyllideb refeniw'r Cyngor am 2016/2017 a cyflwynwyd crynodeb fesul Adran. O gymharu â chwarter 1, adroddwyd bod y sefyllfa wedi gwella a bod hyn yn deillio o gydweithio da rhwng Aelodau'r Cabinet a Phenaethiaid Gwasanaeth sydd wedi sicrhau rheolaeth dda.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Bod cynnydd mewn incwm meysydd parcio sydd yn adlewyrchu defnydd uwch o feysydd parcio mewn blwyddyn llewyrchus o ran twristiaeth.
- Bod y sefyllfa ariannol yn dda iawn o ystyried yr heriadau sydd yn wynebu'r Cyngor. Ymddengys bod y cyfrifoldeb ariannol wedi treiddio drwy adrannau'r Cyngor a bod hyn bellach yn sylfaen dda i gynllunio cadarn.
- Rheoli gwariant effeithiol sydd yma drwy symud a throsglwyddo arian. Hyn yn galluogi buddsoddi mewn dulliau gwahanol i gynnal gwasanaethau.
- Croesawu trosglwyddo i gronfeydd corfforaethol tuag at flaenoriaethau'r Cyngor er mwyn cynllunio'n briodol ar gyfer y dyfodol.

Diolchwyd i'r gwasanaethau am eu disgyblaeth ariannol.

## 7. RHAGLEN GYFALAF 2016/17 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER (SEFYLLFA 30 MEDI 2016)

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cynghorydd Peredur Jenkins.

**PENDERFYNWYD**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2016) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- cynnydd o £1.367m mewn defnydd o fenthyca arall (gan gynnwys benthyca heb gefnogaeth)
- lleihad o £1.174m mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- cynnydd o £0.035m mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- cynnydd o £0.938m mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

**TRAFODAETH**

Nododd y Cynghorydd Peredur Jenkins bod yr adroddiad yn un technegol ac yn rhan o drefn monitro cyllideb 2016. Amlygodd y prif gasgliadau oedd yn codi o'r sefyllfa ynghyd a'r prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu.

Sylwadau yn codi:

- bod buddsoddiad sylweddol wedi ei wneud i adeiladau addysg ar draws y sir a bod y rhain yn cynnwys adnoddau gwych sydd yn cael effaith sylweddol ar addysg y plant.
- bod arian cyfalaf yn gwneud gwahaniaeth ym mhob rhan o'r Sir.
- bod dyfodol grantiau yn ansicr o ganlyniad i'r penderfyniad o ymadael a'r Undeb Ewropeaidd - rhaid paratoi a chynllunio ar gyfer y bwlch yma.

Diolchwyd i'r swyddogion am y wybodaeth

## 8. PREMIWM TRETH CYNGOR AR EIDDO GWAG HIR DYMOR AC AIL GARTREFI

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfed Edwards

**PENDERFYNWYD**

Argymell i'r Cyngor Llawn:
Ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2017/18:

1. Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar gyfer 2017/18 yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i'r ddau ddosbarth o ail gartrefi (dosbarthau A a B) fel y diffinnir yn Rheoliadau Treth Cyngor (Dosbarthau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) 1998.
2. Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt yn 2017/18 yng nghyswllt eiddo gwag (dosbarth C).

Ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2018/19:

3. Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar gyfer 2018/19 ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.
4. Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 50% ar ail gartrefi dosbarth B ar gyfer 2018/19, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.
5. Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 50% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy ar gyfer 2018/19, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

**TRAFODAETH**

Nododd Arweinydd y Cyngor bod yr adroddiad yn ganlynaid o drafodaeth eang - yn faes sydd wedi bod yn un y mae Cyngor Gwynedd wedi lobio yn galed dros y blynyddoedd i gynnyddu lefelau trethiant ychwanegol ar ail dai a thai gwag. Un canlyniad o'r cynnydd fyddai i fuddsoddi swm o arain ar gyfer cronfa ar gyfer cefnogi rhai sydd yn cael anhawster mynediad at gartref – hyn yn hawl sylfaenol. Amlygwyd bod y Cyngor wedi ymgynghori gyda'r cyhoedd a bod gwaith ychwanegol wedi ei wneud gan Grwp Ymchwiliad Craffu (Pwyllgor Craffu Corfforaethol) i edrych yn fanwl i'r argymhellion.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Wrth weithredu polisi, rhaid bod yn glir o'r effaith.
- Wrth ystyried tai gwag, rhaid bod yn ddoeth wrth weithredu. Bod elfen ddeublyg yma - yn creu effaith niweidiol ar yr amgylchedd, yn weledol ac yn dibrisio tai cyfagos ynghyd ag effaith ar gyflwr stoc tai.
- Os gweithredu, rhaid creu cronfa ddigonol i wneud gwahaniaeth i gynlluniau tai.
- Os am gydffurfio, bydd angen adnoddau yn yr Adran Cyllid i wneud gwaith arolygu, ac felly rhaid edrych yn gynhwysfawr ar y mater.
- Gall y newid gael effaith gadarnhaol ar y rhai sydd methu cael mynediad at gartref.

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid argymhellion y grŵp ymchwiliad craffu, derbyniodd y Cabinet yr argymhellion, a diolchwyd i'r craffwyr am yr ystyriaeth fanwl a roddwyd i'r mater.

**9. ETHOLAETHAU SENEDDOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Weithredwr

**PENDERFYNWYD**

a) Derbyn cynigion y Comisiwn ar gyfer etholaeth seneddol Ynys Môn ac Arfon;

b) Anghytuno gyda chynigion y Comisiwn ar gyfer etholaeth De Clwyd a Gwynedd gan gyflwyno cynigion eraill fyddai'n cadw ffiniau'r sir yn gyflawn ond gan hefyd gynnwys ardaloedd tebyg o ran diwylliant ac ieithwedd i

gael y niferoedd angenrheidiol yn yr etholaeth fel y nodir yn yr adroddiad;

c) Pwyso ar y Comisiwn i arddel enwau Cymraeg yn unig ar gyfer etholaethau yng Nghymru;

ch) Gwneud awgrymiadau ar gyfer enwau priodol i'r etholaethau yng Ngwynedd megis Gwynedd Uwch Conwy, sydd yn hen enw hanesyddol.

**TRAFODAETH**

Nododd y Prif Weithredwr bod y mater wedi bod yn destun trafod ers sawl blwyddyn a bellach bod y Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi cyhoeddi cynigion ar gyfer newid etholaethau seneddol yng Nghymru gan unioni'r nifer y bydd pob etholaeth yn ei gynrychioli. Amlygwyd bod yr adroddiad yn cynnwys dadleuon ac opsiynau posib eraill y gall y Comisiwn eu hystyried. Bydd y sylwadau yn cael eu cyflwyno i'r Comisiwn erbyn Rhagfyr y 5ed.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Bod diffyg dealltwriaeth gan y Comisiwn o 'Gymunedau Traddodiadol' sydd yn bwysig i Wynedd
- Codi pryderon am sut y bydd Cyngor Gwynedd yn gweithredu yn effeithiol
- Pryder am yr elfen cydweithio gydag Aelodau Seneddol fydd yn cynrychioli tair sir efallai
- Rhaid diogelu hunaniaeth mewn rhannau helaeth o Wynedd
- Pwysig defnyddio enwau cynhenid Cymraeg fel enwau newydd
- Bod yr ymateb yn dderbyniol a bod y cynigion yn gwneud synnwyr
- Mathemategwyr sydd yma ac nid Haneswyr rhesymegol.
- Cynnig yr enw Gwynedd Uwch Conwy yn y penderfyniad

**10. YMGYNGHORIAD AR DDYFODOL Y GWASANAETH TÂN**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins a Dyfrig Siencyn Croesawyd y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones i'r cyfarfod fel un o bum Cynghorydd sydd yn cynrychioli Cyngor Gwynedd ar yr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

**PENDERFYNWYD**

Cynnig y sylwadau a nodir yn rhan 4 o'r adroddiad mewn ymateb i ymgynghoriad y Gwasanaeth Tân

**TRAFODAETH**

Amlygwyd bod yr adroddiad yn ymateb i ymgynghoriad gan y Gwasanaeth Tân yn wyneb y wasgfa ariannol a'r bygythiad tebygol i'r gwasanaeth.

Nododd y Cyng. Aeron Maldwyn Jones ei fod wedi bod yn aelod o'r Awdurdod ers blwyddyn. Amlygodd bod gwaith y rheng flaen yn wych ond bod angen edrych ar y system reolaethol a'r trefniadau gweinyddol. Ychwanegodd bod cyflogau yn ymddangos yn uchel o ystyried y cyfrifoldebau o gymharu â chyflogau rheolaethol y Cyngor

Sylwadau yn codi o’r drafodaeth:

- Nid yw yn ymddangos bod proses drylwyr o geisio arbedion effeithlonrwydd wedi cymryd lle cyn symud ymlaen i doriadau
- Awgrymu derbyn cynnydd cyfartalog y setliad hyd nes bydd tystiolaeth nad oes arbedion effeithlonrwydd pellach yn bosib
- Pwy sydd yn craffu strategaeth ariannol y Gwasanaeth?
- Rhaid i’r Cyngor, sydd â buddiant fel un sydd yn tanysgrifio, geisio cydweithio
- Rhaid sicrhau nad oes risgiau i drigolion Gwynedd
- Amodau gwaith cadarn gan y Gwasanaeth, ond cyfleodd i edrych ar y sefyllfa
- Awgrym i ffurfio Pwyllgor Craffu ar y Cyd (ar draws y Gogledd) fyddai gyda arbeigedd annibynnol i gydlynu a chynghori. Busasai hyn yn sicrhau dealltwriaeth o’r cyllidebau ynghyd ag elfennau ehangach llai traddodiadaol.
- Rhaid edrych ar y sefyllfa genedlaethol a’r posibiliadau o weithio gyda gwasanaethau brys eraill.
- Rhaid cael darlun cyflawn o’r ystyriaeth mae’r Gwasanaeth wedi ei roi ar y toriadau

Cynigiwyd ac eiliwyd i ychwanegu'r awgrym i ffurfio Cydbwyllgor Craffu ar draws y Gogledd a bod hyn i’w ychwanegu i ymateb Cyngor Gwynedd i’r ymgynghoriad.

## 11. ADRODDIAD PERFFORMIAD: OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Dyfrig Siencyn yn absenoldeb y Cyng. W Gareth Roberts. Amlygwyd y prif bwyntiau gan Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol)

**PENDERFYNWYD**

Derbyn a nodi’r wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Wrth gyfeirio at y Cynllun Strategol G2 - *Gweithio’n Integredig ar yr hyn sydd yn cyfri i unigolion,* amlygwyd bod y gwaith yn Eifionydd yn mynd o nerth i nerth gyda’r nifer o becynnau traddodiadol yn lleihau. Nodwyd bod ychydig o oedi gyda phrosesau ymgynghori gyda staff y Bwrdd Iechyd, ond y gobaith yw cael strwythur cadarn yn ei lle erbyn Ebrill 2017.

Cynllun Strategol G3 - *Ail Strwythuro Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant* - nodwyd y bydd adroddiad ar strwythur y Tîm Diogelu Oedolion yn cael ei gyflwyno i’r Cabinet

Cynllun Strategol G5 - *Frondeg* - cadarnhawyd bod Grŵp Cynefin yn awyddus i fod yn bartner datblygol

Cynllun Strategol G7 *Capasiti a Chynaliadwyedd y gyfundrefn gofal ac Iechyd – Model Gofal Newydd* – amlygwyd bod gwaith o ddatblygu Cartref Preswyl Llys Cadfan yn parhau gyda’r dasg allweddol o ddrafftio datganiad o bwrpas yn cael ei wneud. Wedi cwblhau hyn bydd modd gwneud cais i’r Arolygaeth Gofal newid

cofrestriad y cartref. Nodwyd bod y model newydd yma yn cael sylw cenedlaethol.

Perfformiad y mesur **SCA/001** - *cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sydd yn +75 oed* - nodwyd bod pryder sylweddol yma os bydd y tuedd yn parhau. Adroddwyd bod gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael a'r broblem a bod sesiwn wedi ei hwyluso gan arbenigwyr, wedi ei drefnu ym mis Ionawr i ddeall yn well y broses o drosglwyddo cleifion.

Asesiad 'Diogelu Rhag Colli Rhyddid' (DOLS) - adroddwyd bod nifer o staff bellach wedi cymhwyso i wneud yr asesiadau, ond yn parhau mewn sefyllfa i frwydro yn erbyn y niferoedd.

Gorwariant £303k – parhau i gydweithio gyda'r Adran Cyllid i sicrhau bod arbedion yn cael eu gwireddu drwy drawsffurfio gwasanaethau.

Croesawyd cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i ddeall y broses o drosglwyddo cleifion – ystyriwyd hyn yn cam pwysig ymlaen ac yn gyfle da i ddeall y sefyllfa yn well.

**12. ADRODDIAD PERFFORMIAD: TAI, GOFAL CWSMER, LLYFRGELLOEDD, AMDDIFADEDD A CHYDRADDOLDEB**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Ioan Thomas

**PENDERFYNWYD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at y ddau brosect strategol T7 *Cydymdrechu yn erbyn tlodi* gan fynegi yr angen i gydweithio ar draws adrannau a chynnal trafodaethau gyda Phenaethiaid i fynd i'r afael a'r mater. Nodwyd, gyda chyhoeddiad Ysgrifennydd Cabinet Cymunedau a Phlant i ddod ar rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben, y bydd angen cadw llygad a'r yr effaith debygol ar drigolion mwyaf bregus Gwynedd.

Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet dros yr Economi bod angen i'r Cyngor ddadansoddi beth fydd yr effaith gan fod y Cynllun Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn sylfaen i lawer o brosiectau da. Bydd angen edrych ar y gwead a datrys pa brosiect sydd ynghlwm a pha adran.

Cynllun T9 Strategaeth Cyflenawad Tai - *Sefydlu Tai Fforddiadwy i drigolion Gwynedd mewn ardaloedd gwledig* – bod angen sefydlu brand ein hunain er mwyn sicrahu bod Cyngor Gwynedd yn cael cydnabyddiaeth. Wrth drafod y ddarpariaeth ar gyfer pobl digartref, nodwyd bod gwaith yn cael ei wneud i edrych ar y ddarpariaeth bresennol yn Corris.

Yng nghyd-destun mesur perfformiad - Uned Ddigartrefedd, amlygwyd pryder bod nifer uchel o unigolion angen eu cartrefu a bod y nifer sydd yn cysylltu gyda'r uned yn cynyddu. Nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i geisio ymateb i hyn.

Amlygywd pwysau cynyddol diweddar ar unedau Galw Gwynedd a Siop Gwynedd i ymateb i'r galwadau i newidiadau i'r drefn biniau brown

Wrth gyfeirio at y pedwar amcan i Gynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd amlygwyd bod creu amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn aelod etholedig, yn un heriol, ond bod gwaith da wedi ei wneud yn ddiweddar gyda fideo wedi ei rhyddhau ar wefan y Cyngor.

O ran y sefyllfa ariannol, amlygwyd bod 94% o'r arbedion wedi eu gwireddu a bydd y gweddill yn cael ei wireddu cyn diwedd y flwyddyn.

Gwnaed cais i edrych yn fanylach ar sefydlu brand i Cyngor Gwynedd yng nghyd-destun Tai Fforddiadwy: cyfle i ystyried yr effaith gyhoeddus a sicrhau cydnabyddiaeth i'r Cyngor.

Yng nghyd-destun Cymunedau yn Gyntaf, amlygwyd, er nad oedd efallai'r cynllun gorau, ei fod yn sylfaen gadarn i lawer. Angen edrych ar effeithiau hyn a cheisio cynnal y prosiectau sydd yn cael effaith sylweddol.
Awgrym i'r Cyngor geisio dylanwadu ar y Gweinidog. Beth yw cynllun y Llywodraeth i ymateb i dlodi? Pryder nad oes gweledigaeth hir dymor.

Diolchwyd i'r Aelod Cabinet am y wybodaeth ac am y gwaith a'r cynnydd i'r prosiectau o fewn portffolio eang iawn. Diolchodd yr Aelod Cabinet i Rhion Glyn am ei gefnogaeth a llongyfarchwyd ef ar ei secondiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.25 y.h.

**CADEIRYDD**

**ADRODDIAD I'R CABINET**
13 Rhagfyr 2016

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Gareth Thomas

**Pwnc:** Dyfodol Darpariaeth Addysg yn Nalgylch Y Berwyn

**Swyddog Cyswllt:** Iwan T Jones – Cyfarwyddwr Corfforaethol

---

**Argymhelliad**

Argymhellir ymgynghori â chyrff llywodraethu ysgolion dalgylch Y Berwyn ar yr opsiwn i dynnu'r cynnig i sefydlu Campws Dysgu 3-19 Gwirfoddol a Reolir (VC, Eglwys yng Nghymru) yn nhref Y Bala yn ei ôl, yn unol ag adran 55 (5) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 - gyda'r bwriad i ddychwelyd i'r Cabinet ym mis Ionawr 2017 i adrodd ar ganlyniad yr ymgynghoriad a chynnig argymhellion o ran y ffordd ymlaen.

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio caniatâd Cabinet y Cyngor i ail ymweld â'r cynnig i sefydlu Campws Dysgu 3-19 Gwirfoddol a Rheolir (VC, Eglwys yng Nghymru) yn nhref Y Bala yn dilyn derbyn gohebiaeth gan gyfreithwyr Esgobaeth Llanelwy sy'n datgan eu diffyg cefnogaeth i'r cynnig yn ei ffurf bresennol.

1.2 Ym mis Medi 2016, derbyniwyd llythyr gan gyfreithwyr Esgobaeth Llanelwy (**Atodiad 1**) ymhle datganwyd na all yr Esgobaeth gefnogi'r cynnig i sefydlu'r Campws Dysgu yn ei ffurf bresennol. Y prif reswm am hyn yw gan nad ydynt yn derbyn ei fod yn briodol nac yn gyfreithiol bosib i'r Cyngor, nac unrhyw awdurdod lleol arall, weithredu fel hyrwyddwr ar gyfer cynnig i sefydlu ysgol wirfoddol gyda chymeriad crefyddol.

1.3 Yng ngoleuni'r safiad hwn, dychwelir y mater i sylw'r Cabinet i ystyried y sefyllfa.

**2. CEFNDIR**

2.1 Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithredu Strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'* ers ei mabwysiadu yn Ebrill 2009. Yn ei gyfarfod ar 9 Hydref 2012, penderfynodd y Cabinet ar '*Gynllun Blaenoriaethau - Maes Trefniadaeth Darpariaeth Addysg'* gan ei sylfaenu ar y strategaeth hon. Yn unol â strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd,* cafwyd trafodaethau ynglŷn â darpariaeth addysg yn nalgylch Y Berwyn ers 2009.

2.2 Cyflwynwyd adroddiad gerbron y Cabinet ar **1 Ebrill 2014**, ble cytunwyd i:

*i. Rhoi caniatâd i ehangu'r gwaith i alluogi llunio ystod o fodelau fyddai'n cyfarch agweddau strategol, rheolaethol a/neu lywodraethol ar gyfer y dalgylch yn ei gyfanrwydd, gyda'r bwriad o gyflwyno argymhellion penodol ar gyfer ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i'r Cabinet*

*ii. Rhoi awdurdod i gynnal asesiad er adnabod a mesur yr angen yn y dalgylch ar gyfer darpariaeth addysg o gategori a dynodiad penodol ac i gyfarch anghenion y broses o adnabod yr argymhellion fel y nodir yn i. Uchod.*

*iii. Gan fod un o ysgolion y dalgylch yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru, (VA), dirprwyo'r hawl i'r Aelod Cabinet Addysg, Plant a Phobl Ifanc gynnal rhag-ymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghymru yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013. Yna, gellir cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet gyda opsiwn a ffafrir i ofyn caniatâd i gynnal cyfnod o ymgynghori statudol arno.*

2.3 Yn dilyn hyn, bu amrywiol drafodaethau rhwng Ebrill 2014 ac Ionawr 2015 i drafod gwaith cefndirol yn seiliedig ar y dalgylch cyfan. Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau ar y rhestr hir o fodelau, y ffordd ymlaen arfaethedig, (h.y. y cyfeiriad ar y pryd), ac eglurhad o'r prosesau statudol.

2.4 Cynhaliwyd asesiad cydraddoldeb ar y rhestr hir o fodelau posib gan roi sylw penodol i ffactorau megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Cyfeiriwyd at y sefyllfa bresennol a'r polisïau a threfniadau oedd eisoes mewn lle a fyddai'n sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal.

2.5 Gan fod nifer o fodelau'r rhestr hir yn cyfeirio at y posibilrwydd o gael effaith ar ddarpariaeth addysg gynradd Eglwysig, comisiynwyd ymgynghorydd annibynnol i gynnal asesiad pellach. Pwrpas yr asesiad yma oedd asesu'r galw am wahanol fathau o ysgolion yn y dalgylch fel bod modd ystyried y galw yn lleol wrth benderfynu ar yr opsiwn a ffafrir. Rhai pwyntiau allweddol ddaeth i'r amlwg o ganlyniad yr asesiad oedd y ffaith mai ansawdd yr addysg oedd y ffactor pwysicaf i rieni wrth iddynt ddewis ysgol ar gyfer eu plentyn - gan fod 79% o'r ymatebwyr wedi nodi mai hwn oedd y ffactor bwysicaf mewn ysgol. Nid oedd barn benodol o ran categori'r ysgol naill ffordd neu'r llall. Cadarnhawyd mai materion addysgol - ansawdd, perthynas dda gyda'r ysgol a safon yr adnoddau a'r amgylchedd ddysgu oedd y prif ffactorau a ystyriwyd yn bwysig mewn ysgol.

2.6 Bu trafodaethau cyson gyda chynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru ers cychwyn y broses ad-drefnu yn nalgylch Y Berwyn. Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013), cynhaliwyd cyfnod o rag-ymgynghroi hefo'r Eglwys yng Nghymru rhwng 15 Rhagfyr 2014 a 19 Ionawr 2015. Datganwyd ymateb yr Eglwys yng Nghymru mewn llythyr dyddiedig 19 Ionawr 2015. Dyma oedd barn yr Eglwys:

> "Ar ôl ystyried y dewisiadau yn ofalus, mae Esgobaeth Llanelwy yn cytuno mai dewis 3, sef sefydlu campws dysgu gydol oes 3 – 19 oed, sydd fwyaf priodol i'w ystyried a dod yn destun ymgynghori ymhellach. Fodd bynnag, am y rhesymau a roddwyd yn yr ymateb hwn, teimlir y dylai statws y campws fod yn wirfoddol a reolir neu'n wirfoddol a gynorthwyir."

2.7 Yn dilyn y rhag-ymgynghoriad, ac yn dilyn cynnal gwerthusiad llawn o'r opsiynau, ffafriwyd y model oedd yn golygu cau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Y Berwyn, a sefydlu Campws Dysgu Cyfrwng Cymraeg, Gwirfoddol a Reolir ar safle presennol Ysgol y Berwyn, i ddisgyblion 3-19 oed. Cyflwynwyd adroddiad pellach gerbron y Cabinet ar 19 Chwefror 2015 i geisio caniatâd i weithredu'r broses statudol i gwblhau'r broses ad-drefnu ysgolion yn y dalgylch. Yn y cyfarfod, penderfynwyd:

i. *I ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Y Berwyn. Y bwriad yw y bydd yr ysgolion yn cau ar 31 Awst 2018.*
ii. *I ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ar yr opsiwn a ffafrir, sef i sefydlu Campws Dysgu Gydol Oes 3-19 Cyfrwng Cymraeg Statws gwirfoddol a reolir, (VC), ar safle presennol Ysgol Y Berwyn. Y bwriad yw y bydd yr ysgol yn agor ar 1 Medi 2018.*
iii. *I ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol ar ffedereiddio tair ysgol wledig dalgylch Y Berwyn, sef Ysgolion Bro Tryweryn, Ffridd y Llyn ac OM Edwards.*

2.8 Yn unol â gofynion statudol y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013), a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, cynhaliwyd cyfnod o ymgynghori statudol ar y cynnig gydag ymgynghorai perthnasol rhwng 11 Mawrth a 28 Ebrill 2015.

2.9 Ar 2 Mehefin 2015 cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet yn cynnwys yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghorol. Fe ddatganwyd yn yr adroddiad fod yr Eglwys

> "...wedi cadarnhau eu hawydd a'u bwriad i weithio'n agos gyda'r gymuned er mwyn dangos mai'r bwriad yw cydweithio er mwyn sefydlu ysgol Cyfrwng Cymraeg Gristnogol sy'n gwasanaethu'r holl gymuned ac yn darparu addysg o ansawdd."

Yn yr un adroddiad cyhoeddwyd fod yr Eglwys yng Nghymru wedi cytuno i'r isod, mewn ymgais i leddfu'r pryderon lleol ynglŷn â gosod statws Eglwysig ar yr ysgol arfaethedig:

i. Lleihau cynrychiolaeth yr Eglwys ar y Corff Llywodraethu i ddwy sedd o bedair, a chynnig y ddwy sedd arall i enwadau eraill er mwyn adlewyrchu cymeriad a thraddodiadau'r ardal
ii. Datgan bod yr Eglwys yn hollol agored i gefnogi pe bynnag enw fydd y Corff Llywodraethu Cysgodol yn ei roi ar y Campws

iii. Cadarnhau cefnogaeth lwyr o du'r Eglwys i ddatblygu'r Campws fel sefydliad fydd yn cryfhau'r iaith Gymraeg.

2.10 Yn eu cyfarfod ar 2 Mehefin 2015, penderfynodd y Cabinet fel a ganlyn:

i. *Cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Y Berwyn ar 31 Awst 2018 a sefydlu Campws Dysgu 3-19 Cyfrwng Cymraeg statws Gwirfoddol a Reolir, (VC), ar safle presennol Ysgol Y Berwyn i agor ar 1 Medi 2018.*
ii. *Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.*
iii. *Yn dilyn ystyried sylwadau'r ymgynghoriad yn gysylltiedig â phwysigrwydd penodi pennaeth a'r angen iddo gael ei benodi o flaen amser, cymeradwyo penodi a chyllido pennaeth y Campws Dysgu 3-19 o arbedion y cynllun, am o leiaf blwyddyn cyn agor yr ysgol ym Medi 2018.*

2.11 Yn unol â phenderfyniad y Cabinet ar 2 Mehefin 2015, cyhoeddwyd rhybudd statudol ar 17 Mehefin 2015 a cynhaliwyd cyfnod o wrthwynebu statudol ar y cynnig rhwng 17 Mehefin a 15 Gorffennaf 2015. Dyma grynodeb o destun y Rhybudd Statudol:

(a) *CAU Ysgol Y Berwyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7RU, YSGOL BRO TEGID, Y Bala, Gwynedd, LL23 7BN, YSGOL BEUNO SANT, Y Bala, Gwynedd, LL23 7UU (Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir, Eglwys yng Nghymru), ar 31 Awst 2018.*

(b) *SEFYDLU YSGOL 3-19 newydd, Cyfrwng Cymraeg, (Gwirfoddol a Reolir, Eglwys yng Nghymru) newydd ar 1 Medi 2018. Bydd yr YSGOL 3-19 ar un safle, sef safle presennol Ysgol Y Berwyn, Y Bala, Gwynedd, LL23 7RU.*

2.12 Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, gofynnwyd i'r Cabinet ystyried adroddiad ffurfiol o'r gwrthwynebiadau a'r ymateb iddynt cyn gwneud penderfyniad terfynol i weithredu'r cynnig ai peidio. Yn eu cyfarfod ar 15 Medi 2015, penderfynodd y Cabinet i:

i. *(G)weithredu ar y cynnig i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Y Berwyn, yn nhref Y Bala ar 31 Awst 2018 a sefydlu Campws Dysgu 3 – 19, Cyfrwng Cymraeg, Gwirfoddol a Reolir (VC, Eglwys yng Nghymru), ("Y Campws"), ar safle presennol Ysgol Y Berwyn i agor ar 1 Medi 2018*
ii. *Bydd Cyngor Gwynedd yn cynnal adolygiad o berfformiad yr ysgol fydd yn cynnwys ansawdd yr addysg a ddarperir, cynnydd addysgol, profiadau diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion, y defnydd o adnoddau, ac unrhyw effaith y categori Gwirfoddol a Reolir, (VC, Eglwys yng Nghymru), ar yr uchod wedi dwy flynedd o ddyddiad agor y Campws. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori gyda rhieni, darpar-rieni a thrigolion yr ardal er mwyn dod i farn ar briodoldeb yr addysg a'r statws eglwysig.*

2.13 Daeth penderfyniad y Cabinet yn weithredol ar 30 Medi 2015, a llythyrwyd yr holl ymgynghorai oedd yn gysylltiedig â threfniadaeth ysgolion yn Nhref Y Bala i'w hysbysu am y penderfyniad hwnnw. Yn unol â gofynion y Cod, daeth cyfnod at-gyfeirio'r penderfyniad at weinidogion Cymru i ben ar 27 Hydref 2015 - ni chyfeiriwyd y penderfyniad.

**3. DIWEDDARIAD**

3.1 Ar 9 Medi 2016, derbyniwyd llythyr gan gyfreithiwr Esgobaeth Llanelwy ynglŷn â phrosiect Y Berwyn (**Atodiad 1**). Yn gryno, fe ddatgenir yn y llythyr na all yr Esgobaeth gefnogi'r cynnig yn ei ffurf bresennol am nad ydynt yn derbyn ei fod yn briodol nac yn gyfreithiol bosib i'r Cyngor, nac unrhyw awdurdod lleol arall, weithredu fel hyrwyddwr ar gyfer cynnig i sefydlu ysgol wirfoddol gyda chymeriad crefyddol. Roedd hyn ar gefn gohebiaeth fanwl rhwng yr Eglwys yng Nghymru a Llywodraeth Cymru, gyda'r Eglwys yn gwrthwynebu'n gryf y cysyniad a'r ddarpariaeth yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013. Noder yn y llythyr:

> *"The diocese of St Asaph will not be able to consider such a school so promoted as a Church in Wales school. Nor does your authority have the power to have it designated as such. Your notice should have made it clear that the diocese would promote the new school."*

3.2 Yn ogystal, fe ddatgenir yn y llythyr fod yr Esgobaeth o'r farn mai'r unig ddatrysiad i'r sefyllfa fyddai cyhoeddi Rhybudd diwygiedig wedi'i arwyddo ar y cyd gan Esgobaeth Llanelwy a Chyngor Gwynedd. Yn yr un llythyr, amlygwyd pryderon yr Esgobaeth ynglŷn â'r ffaith nad yw safle Ysgol Beuno Sant yn cael ei ymgorffori yng nghynlluniau'r Campws. O ganlyniad, gofynnwyd i'r Cyngor gytuno i unai:

i. ymgorfforí safle Ysgol Beuno Sant yng nghynlluniau'r Campws Dysgu newydd; neu
ii. gytuno i werthiant safle Ysgol Beuno Sant cyn i'r ysgol gau

3.3 Yn dilyn hynny, mewn e-bost dyddiedig 24 Hydref 2016 gan gyfreithiwr yr Esgobaeth, cynigiodd yr Esgobaeth datrysiad amgen, fyddai, yn eu barn nhw, yn osgoi'r angen i ail gyhoeddi'r Rhybudd:

*"What I propose is that in view of the timetable for this project we at LBMW draft a short agreement between the diocese and the LA to the effect that despite the fact that the LA has itself purported to promote this project and has alone signed the Statutory Notice, the LA will now proceed as though the diocese had signed the Notice and will in every respect treat the diocese as the effective promoter of the new C in W school."*

3.4 Eto, byddai'r datrysiad hwn yn amodol ar gytundeb y Cyngor i ymgorffori safle Ysgol Beuno Sant yng nghynlluniau'r Campws arfaethedig. Yn ogystal, yn yr un e-bost, fe osodai'r Esgobaeth amod pellach ar y datrysiad amgen:

*"This proposal is conditional... on your Authority accepting that all future proposals for new Church in Wales schools in your Authority will be taken forward with the diocese being fully involved and a co-signatory with the Authority in publishing a joint Statutory Notice. If your Authority can agree to these conditions then the diocese would be prepared to move forward on this occasion as set out below"*

3.5 Llythyrwyd yr Esgobaeth a'u cyfreithwyr ar 15 Tachwedd 2016 (**Atodiad 2**), gan ddatgan y bwriad i adrodd ar a thrafod y materion a amlygwyd ganddynt mewn cyfarfod o'r Cabinet cyn diwedd y flwyddyn. Derbyniwyd e-bost pellach gan gyfreithwyr yr Esgobaeth ar 22 Tachwedd 2016 yn ategu eu safiad mai, yn unol â'u barn nhw, yr unig ffordd briodol ymlaen fyddai i'r Cyngor ail redeg yr ymgynghoriad a chyhoeddi rhybudd statudol o'r newydd, ar y cyd gan yr Esgobaeth a'r Cyngor. Nodwyd yn ogystal na fyddai'r Esgobaeth yn gwrthwynebu i'r broses bresennol barhau pe bai'r Cyngor yn sicrhau bod yr Esgobaeth yn cael eu trin fel hyrwyddwr y cynnig a'r Campws arfaethedig o hyn allan. Er hynny, cynigwyd y datrysiad yma eto ar yr amod fod y Cyngor yn cytuno fod unrhyw gynnig i'r dyfodol ar gyfer sefydlu ysgol wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru yn cael eu datblygu, cynnig a'u hyrwyddo gan yr Esgobaeth yn hytrach na'r Cyngor.

## 4. YSTYRIAETHAU

4.1 Mae diffyg cefnogaeth yr Esgobaeth i'r cynnig yn ei ffurf bresennol yn fater sy'n achosi risg sylweddol i wireddiad y cynllun yn Y Bala.

4.2 Pwysleisir fod y cynllun a'r broses ad-drefnu yn ei gyfanrwydd wedi ei ddatblygu ar sail partneriaeth a thryloywder hefo Esgobaeth Llanelwy a Bangor. Nid oes unrhyw amheuaeth fod y Cyngor wedi gweithredu'n unol â gofynion statudol y ddeddfwriaeth a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 cysylltiedig wrth ddatblygu'r cynnig. Nodir ar y pwynt hwn nad yw'r Cyngor yn cytuno â safiad yr Esgobaeth sy'n anghytuno â'r cymal yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 sy'n rhoi grym i'r Cyngor, fel awdurdod lleol, hyrwyddo Ysgolion gwirfoddol gyda chymeriad crefyddol. Yn ymarferol, gan ystyried goblygiadau strategol allweddol yn ymwneud â pharhad addysg gynradd ac uwchradd yn yr ardal, roedd hi'n hanfodol fod y Cyngor yn gweithredu fel cynigydd ar gyfer y cynllun arfaethedig.

4.3 Yn absenoldeb cydweithrediad gan yr Eglwys, rhaid cydnabod y byddai safiad yr Esgobaeth yn gwneud gweithredu ar gynnig i sefydlu Campws Dysgu, Gwirfoddol a Reolir, yr Eglwys yng Nghymru, yn afresymol o anodd. Deuir i'r casgliad yma am sawl rheswm, gan gynnwys y rhesymau a ganlyn:

i. Datgenir yng ngohebiaeth cyfreithwyr Esgobaeth Llanelwy nad yw'r Eglwys yn fodlon trin yr ysgol newydd fel Ysgol yr Eglwys yng Nghymru os yw'r cynnig a'r rhybudd statudol yn parhau yn eu ffurf bresennol. Fe nodir yn glir yn y rhybudd statudol y bydd y Campws Dysgu newydd yn Gampws Gwirfoddol Yr Eglwys yng Nghymru. Heb gydweithrediad y corff crefyddol dynodedig, mae'n anodd gweld sut gall y Cyngor gydymffurfio â rhwymedigaeth i sefydlu Campws gwirfoddol a reolir gyda chymeriad crefyddol.

ii. Mae Atodlen 3 o'r Ddeddf (2013) yn gofyn am drosglwyddo adeiladau'r ysgolion i'r Eglwys. Anodd fyddai cwblhau trafodion o'r fath heb gydsyniad a chyfranogiad yr Eglwys.

iii. Yn unol â Rheoliadau Llywodraethant Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005, mae angen apwyntio llywodraethwyr sylfaenol i gorff llywodraethol y Campws Gwirfoddol a Reolir newydd. Er y byddai'n bosib i gorff cysgodol gael cworwm heb lywodraethwyr o'r fath, mae adran 50 o'r Ddeddf Addysg 2005 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r llywodraethwyr yma ethol arolygwr i arolygu safon addysg grefyddol mewn ysgol Wirfoddol a Reolir.

iv. Mae'r datrysiad a gynigir gan yr Esgobaeth, sef eu bod yn cael eu trin o hyn allan fel cyd gynigwyr yn amodol ar y cytundeb fod safle Beuno Sant yn cael ei ymgorffori yng nghynlluniau'r Campws newydd. Gwnaethpwyd yn glir yn y ddogfennaeth a gyhoeddwyd fel rhan o'r broses statudol mai ar safle Ysgol Y Berwyn yn unig fyddai'r Campws yn cael ei leoli, yn ogystal â'r ffaith mai cynnig gan y Cyngor ydoedd. O ganlyniad felly, byddai'r Cyngor yn gweithredu'n groes i'r cynnig pe tai'n derbyn datrysiad yr Esgobaeth. Yn ogystal, byddai ymgorffori safle Beuno Sant yn anwybyddu casgliad asesiad y Cyngor o anghenion y Campws newydd ac yn debygol o effeithio ar anghenion cyllidol y prosiect adeiladu.

4.4 Dylid nodi yn ogystal, yn ystod y broses statudol, oedd yn cynnwys cyfnod ymgynghori a chyfnod gwrthwynebu, na wnaeth Esgobaeth Llanelwy wrthwynebu'r cynnig oedd yn destun yr ymgynghoriad, nac ychwaith y ffurf y cyhoeddwyd y rhybudd statudol. Amlygir yn ogystal, na wnaeth yr Esgobaeth ymarfer eu hawl o dan Adran 54 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 i gyfeirio'r penderfyniad at Weinidog Cymru o fewn 28 diwrnod i benderfyniad y Cyngor.

4.5 Yn eu llythyr dyddiedig 9 Medi 2016, awgrymai'r Esgobaeth y byddai modd datrys y sefyllfa trwy ail-gyhoeddi rhybudd statudol fyddai wedi'i arwyddo ar y cyd gan Esgobaeth a'r Cyngor a chan ymgorffori safle Ysgol Beuno Sant yng nghynlluniau'r Campws arfaethedig - ni fyddai hyn yn cyfarch gofynion y Ddeddf 2013 nac ychwaith y Cod Trefniadaeth Ysgolion cysylltiedig.

4.6 Mae adran 55 (2) o'r Ddeddf 2013 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor, fel y cynigydd, weithredu ar y cynnig yn unol â'r hyn a gymeradwywyd neu penderfynwyd arno, oni bai ei fod yn penderfynu yn unol ag adran 55 (5) y byddai gweithredu ar y cynnig yn afresymol o anodd, neu'n amhriodol o ganlyniad i newid yn yr amgylchiadau ers cymeradwyo'r cynnig. Byddai canfyddiad o'r fath, yn unol ag adran 55 (8), gyfystyr â phenderfyniad i beidio â gweithredu'r cynigion o gwbl, ac ni fyddai modd cau ysgolion Y Bala nac agor y Campws newydd, heb i broses statudol lawn, gan gynnwys ymgynghoriad statudol, gael ei ail gychwyn a chynigion newydd yn cael eu cyhoeddi yn dilyn ymgynghoriad o'r fath. Ni fyddai modd gwarantu mai'r cynnig presennol fyddai testun yr ail ymgynghoriad.

4.7 Gan ystyried safiad a chynigion amgen yr Esgobaeth yng nghyd-destun gofynion y Ddeddf 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion cysylltiedig, deuir i'r casgliad fod gan y Cabinet ddau opsiwn wrth symud y prosiect yn ei flaen, sef:

i. Naill ai mae'r cynnig i sefydlu'r Campws Dysgu ar safle Ysgol Y Berwyn yn unig, a hynny heb ymgorffori safle Ysgol Beuno Sant yn y cynlluniau, yn cael ei weithredu'n llawn gan y Cyngor, er gwaethaf y risg a'r anawsterau posib y mae safiad o ddiffyg cefnogaeth yr Esgobaeth yn ei achosi; neu,

ii. Yn ddarostyngedig i ganlyniad ymgynghoriad â'r cyrff llywodraethu y mae'r cynnig yn effeithio arnynt, gall y Cyngor ddod i'r casgliad y byddai hi'n afresymol o anodd neu'n amhriodol gweithredu'r cynnig. Os deuir i'r casgliad hwn, byddai'r cynnig presennol yn cael ei dynnu'n ôl, ac o ganlyniad, byddai'n rhaid ail gychwyn proses statudol o'r newydd i ad-drefnu'r ddarpariaeth yn nalgylch Y Berwyn.

4.8 Yn ymarferol, ac oherwydd y materion a amlinellir yn yr adran yma o'r adroddiad ac eithrio 4.7(i) uchod mae symud ymlaen i gyfeiriad amgen, boed yn cyd-fynd â dymuniadau'r Eglwys ai pheidio, yn golygu adolygiad o'r cynnig sydd wedi ei gadarnhau a dilyn proses Adran 55(5). Fodd bynnag, cyn dod i'r casgliad ar y ffordd ymlaen, mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 yn gosod gofyn fod ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda chyrff llywodraethu'r ysgolion sydd yn cael eu heffeithio gan y bwriad.

**5. FFACTORAU ERAILL**

5.1 Yn y rhan yma o'r adroddiad, nodir y ffactorau a risgiau eraill y mae angen i'r Cabinet fod yn ymwybodol ohonynt:

i. Buddsoddiad Llywodraeth Cymru: Mae'r cynllun presennol yn buddsoddi £10.27m yn ardal Y Bala, gyda £5.3m o'r swm hwn yn grant gan Lywodraeth Cymru. Noder fod grant Llywodraeth Cymru wedi'i gymeradwyo yn dilyn cyflwyno Achos Busnes llawn i'r Llywodraeth. Rhaglenwyd y prosesau statudol a'r broses ceisiadau am grant cyfalaf fel eu bod yn cael eu cwblhau a'u derbyn ymhell o flaen llaw dyddiad cychwyn y gwaith adeiladu. Er nad ydym yn rhagweld unrhyw effaith ar ein gallu i gwblhau'r prosiect adeiladu sydd bellach ar droed, yn yr adroddiad ym mis Ionawr 2017, bydd rhaid cloriannu a chyfarch unrhyw effaith bosib y gall newid yng nghyfeiriad y prosiect ei gael yng nghyd-destun amodau a thelerau'r grant.

ii. Parhad dewis darpariaeth eglwysig yn ne Meirionnydd: Roedd yr angen i bennu statws cyfreithiol y Campws yn destun ystyriaeth fanwl yn ystod y cyfnod ymgynghori, y cyfnod gwrthwynebu, a'r adroddiad Cabinet dyddiedig 15 Medi 2015. Un o'r rhesymau a'r ffactorau dros ymgynghori ar osod statws Gwirfoddol a Reolir (VC, Eglwys yng Nghymru), ar y Campws arfaethedig oedd y gyd-ddarpariaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y dalgylch, sef darpariaeth Wirfoddol a Gynorthwyir, (VA), yn Ysgol Beuno Sant, yn ogystal â'r penderfyniad strategol i sicrhau parhad dewis o ddarpariaeth o fewn ardal ehangach yn ne'r Sir. Bydd y ffactorau hyn yn parhau fel ystyriaethau wrth i'r Cyngor ystyried y ffordd ymlaen.

**6. CAMAU NESAF**

6.1 Os bydd y Cabinet yn penderfynu derbyn yr argymhelliad a gyflwynir yn adroddiad hwn, yna rhagwelir y bydd:

i. Ymgynghoriad hefo cyrff llywodraethu ysgolion dalgylch Y Berwyn, ar yr opsiwn i dynnu'r cynnig i sefydlu Campws Dysgu 3-19 Gwirfoddol a Reolir (VC, Eglwys yng Nghymru) yn nhref Y Bala yn ei ôl yn cael ei gynnal rhwng **14** a **29 Rhagfyr 2016**

ii. Adroddiad yn cael i gyflwyno i'r Cabinet ar **17 Ionawr 2017** er mwyn adrodd ar ganlyniad yr ymgynghoriad a phenderfynu os dylid tynnu'r cynnig yn ei ôl ai peidio. Yn ddarostyngedig i'r penderfyniad, ceisio caniatâd i ymgynghori'n statudol ar y model ffafredig (amgen)

**7. CRYNODEB**

7.1 Gan ystyried safiad a chynigion amgen yr Esgobaeth yng nghyd-destun gofynion y Ddeddf 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion cysylltiedig, deuir i'r casgliad fod gan y Cabinet ddau opsiwn wrth symud y prosiect yn ei flaen, sef:

i. Naill ai mae'r cynnig i sefydlu'r Campws Dysgu ar safle Ysgol Y Berwyn yn unig, a hynny heb ymgorffori safle Ysgol Beuno Sant yn y cynlluniau, yn cael ei weithredu'n llawn er gwaethaf y risg a'r anawsterau posib y mae safiad o ddiffyg cefnogaeth yr Esgobaeth yn ei achosi; neu,

ii. Yn ddarostyngedig i ganlyniad ymgynghoriad â'r cyrff llywodraethu y mae'r cynnig yn effeithio arnynt, gall y Cyngor ddod i'r casgliad y byddai hi'n afresymol o anodd neu'n amhriodol gweithredu'r cynnig. Os deuir i'r casgliad hwn, byddai'r cynnig presennol yn cael ei dynnu'n ôl, ac o ganlyniad, byddai'n rhaid ail gychwyn proses statudol o'r newydd i ad-drefnu'r ddarpariaeth yn nalgylch Y Berwyn.

7.2 Felly, wrth ofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r argymhelliad i ymgynghori â chyrff llywodraethu ysgolion dalgylch Y Berwyn, ar yr opsiwn i dynnu'r cynnig i sefydlu Campws Dysgu 3-19 Gwirfoddol a Reolir (VC, Eglwys yng Nghymru) yn nhref Y Bala yn ei ôl, amlygir y materion isod y dylid rhoi ystyriaeth iddynt;

i. Gohebiaeth gan gyfreithiwr Esgobaeth Llanelwy sy'n datgan eu diffyg cefnogaeth i'r cynnig yn ei ffurf bresennol.

ii. Ac eithrio parhau gyda'r cynnig presennol petai dymuniad i dderbyn y datrysiadau a roddir ymlaen gan yr Esgobaeth ai pheidio, ni ellir gweithredu hyn heb dynnu'r cynnig presennol yn ôl a chychwyn ar y broses o ail ymgynghori ar gynnig amgen.

**8. ARGYMHELLIAD**

Argymhellir ymgynghori â chyrff llywodraethu ysgolion dalgylch Y Berwyn, ar yr opsiwn i dynnu'r cynnig i sefydlu Campws Dysgu 3-19 Gwirfoddol a Reolir (VC, Eglwys yng Nghymru) yn nhref Y Bala yn ei ôl, yn unol ag adran 55 (5) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 - gyda'r bwriad i ddychwelyd i'r Cabinet ym mis Ionawr 2017 i adrodd ar ganlyniad yr ymgynghoriad a chynnig argymhellion o ran y ffordd ymlaen.

**Barn yr aelodau lleol**

Bydd unrhyw sylwadau gan yr Aelodau Lleol yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Prif Weithredwr:**

"Yn amlwg mae'r datblygiad diweddaraf yma gan yr Eglwys yng Nghymru yn ei gwneud hi'n eithriadol o anodd i ni barhau gyda'r cynigion presennol yn enwedig o gofio ein bod yn dibynnu ar eu cydweithrediad i wneud hynny, ac maent wedi gosod y Cyngor mewn sefyllfa anffodus.

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r dewisiadau sydd gennym ac mae'r argymhelliad i weld yn un rhesymol yn yr amgylchiadau."

**Y Swyddog Monitro:**

"Paratowyd yr adroddiad yma mewn ymgynghoriad agos a'r gwasanaeth cyfreithiol ac rwy'n fodlon fod y cynnwys a'r argymhellion yn briodol."

**Y Pennaeth Cyllid:**

"Dylid ceisio datrys y sefyllfa bresennol yn ymwneud a'r ysgol i'w sefydlu yn nalgylch Y Berwyn yn ddi-oed, trwy ddilyn trefn briodol. Dylid anelu i isafu'r risg ariannol, trwy hawlio a defnyddio'r arian grant ar amser, gan osgoi llithriad yn amserlen y prosiect cyfalaf."

Lee Bolton Monier-Williams
SOLICITORS

1 The Sanctuary
Westminster
London SW1P 3JT

DX 145940 WESTMINSTER 4

Telephone: 020 7222 5381

Fax: 020 7799 2781 (Day)
Fax: 020 7222 7502 (Night)
www.lbmw.com

OUR REF: 7145/HJD/DW/301301393

9 September 2016

Mr Arwyn Thomas,
Head of Education,
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

By Post and Email: anniesanson@gwynedd.llyw.cymru

Dear Mr Thomas,

**Proposal to close Y Berwyn, Brio Tegid and Beuno Sant Schools**

I write on behalf of our client the Diocese of St Asaph consequent on your publication of a statutory notice to close Beuno Sant School and other schools, and purporting to establish a new VC Church in Wales school on the site of Ysgol Y Berwyn, and in the light of correspondence with our client subsequent to the decision taken by your authority to move forward with these proposals. This is in part a response to the email sent on your behalf to my client on August 15th. The Diocese has attempted to address with you the issues in respect of the site of Beuno Sant on a number of occasions and has concluded that our formal intervention on its behalf is now necessary.

Our client is supportive of your policy intention to close the listed schools and to have established a new all-age VC Church in Wales school. Indeed it is eager to work with you to achieve this.

However it has consulted us in respect of your authority's Notice, its decision and the subsequent correspondence and I am consequently writing under instruction from the Diocese to alert you to serious issues that arise from the manner of your publication and from what

M J G Fletcher, B D Clarke, R Cottingham, S D C Dean, H J Dellar, N Gudka, E J C Henderson, E J Macey-Dare, J Reed, A Vlachos, K E W Wallace, C D Woodroffe
*Consultants:* P F B Beesley, M Dunn, J P G Randel, S Z Reisman, J P Sergeant, D Sills, N D Urwin

msi Global Alliance — Independent Legal & Accounting Firms

*Ecclesiastical Manager:* S J Borton *Education Advisers (not admitted):* Tricia Pritchard, D Whittington OBE

***Privy Council Agents***

This firm is authorised and regulated by the Solicitors Regulation Authority No. 473237

lb00001661

appear to be your present intentions in implementing the proposal. I also make some proposals as to a positive way forward.

As background I should say that we advised all the Church in Wales' dioceses last year on the matter of the promotion of new Church in Wales Voluntary schools under the provisions of the Schools Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and had correspondence at that point with Welsh Government officials in respect of our concerns. I attach the technical paper that I prepared at the time in order to set out for you the details. In this letter I simply summarise the position.

Officials appear to have taken the view that the SSOWA enabled local authorities to promote new voluntary schools with a religious character. The attached paper sets out the reasons why this cannot or should not be so. Mary Davies for the Assembly agreed at that point that (while reserving her position on the substantive legal issues) it should as a matter of practice be for the relevant diocese to propose any new voluntary school that was going to have a Church in Wales religious character. However in this case your Notice makes it clear that you propose to establish such a school. This is not acceptable or within your powers. The diocese of St Asaph will not be able to consider such a school so promoted as a Church in Wales school. Nor does your authority have the power to have it designated as such. Your notice should have made it clear that the diocese would promote the new school. Indeed the practice heretofore has been for such notices (which are frequent across England/Wales as a whole) to be issued and signed jointly by the Local Authority and the local diocese. The technical reasons for this are all set out in the attached paper and I therefore will not repeat them here.

I do not myself see any solution to this other than the issuing of a revised Notice correctly worded and jointly signed. However, I would be very willing to consider some other solution if you have one to propose.

In addition, I understand that you are proposing that the existing site of Beuno Sant, despite being as I understand it within the same complex as Y Berwyn and (while having its own access) being to a considerable degree embedded within it, will not form part of the new school site.

If this is so then I think I should advise you as to the consequences and propose a solution.
The consequence will be that the site of Beuno Sant will revert to the heirs of the original donors (who I believe are a local family) who will in turn be immediately free to deal with it or dispose of it as their private property. The consequence (if my information is correct) is that you could come to have private housing or some other development intermingled with your new school. This seems most undesirable. Also this course of action would mean that the value of the existing Beuno Sant site would be lost both to the trustees and to you as a local authority. The latter seems remiss: the former is unacceptable. For a local authority to force site trustees into a position where their private value is unnecessarily reverted is most improper. My clients would have to insist that your authority recompensed them for the charitable value lost through your deliberate and unnecessary action.

There are two ways forward that remove this problem. The first is that you simply take advantage of the fact that the Beuno Sant site is already contiguous to the Y Berwyn one and include it in the site of the proposed new school. The rest of the new site would then be transferred (as will be your statutory obligation) to the trustees and no reverter will be triggered. The asset remains in use for its proper charitable purpose.

The second option is that (if you are clear that the Beuno Sant site really is surplus to the needs of the new school) you agree that the trustees may sell the existing site on the open market with a sale agreed before the school moves. This defeats reverter and when you convey the new site to the trustees you will become entitled to those proceeds of sale (less costs). This will give your authority a capital receipt to set against the costs of the new school. It is also exactly in accord with statute.

The diocese would prefer the first of these options and it surely seems the most sensible given the local geography.

I note that your authority has also decided to review the new school arrangement two years after it opens. That is a matter for your authority but I feel that I should point out:

(1) that your authority will none the less have an immediate statutory duty to transfer the new site of Y Berwyn to the diocesan trustees as soon as the school opens. There can be no question of this being delayed for two years; and

(2) should any decision be taken at the 2-year review to remove the Church in Wales character of the school it would have to be closed and another new school opened.

Statute prevents any school gaining or losing a religious character. It must close and a new school be opened. If that happened, the trustees' land could not be used for a future non-church school and although it would be open to Ministers to direct that the Y Berwyn site could be used for a non-church school (since it will be publicly funded land) the existing Beuno Sant site cannot be directed since it is not publicly funded land under the statutory provisions.

I am sorry that this letter brings you problems. However my clients are very anxious to offer solutions and I have drafted above what I believe them to be. The diocese will work with you to solve the problems but it cannot allow the proposal as set out in the Notice and your apparent intentions in respect of the existing Beuno Sant land to stand.

My clients would be very willing to discuss a way forward and I should be very glad to discuss the technical issues with your legal advisers if you wish to challenge the interpretation set out in this letter and in its attachment. I understand that the provincial Church in Wales officer for

schools is taking up the issues set out here with Assembly officials. No doubt they will be in touch with you in due course.

Yours faithfully,

pp.

**DAVID WHITTINGTON**
**LEE BOLTON MONIER-WILLIAMS**
**Email: david.whittington@lbmw.com**

**Gwasanaethau Cyfreithiol**
**Legal Services**
Pennaeth Gwasanaeth/Head of Service
Iwan G. D. Evans

Gofynnwch am/Ask for: **Iwan G D Evans**
☎ **(01286) 679015**

CYNGOR
GWYNEDD
COUNCIL

Ein Cyf / Our Ref: **YGL-0110 IE1**

Eich Cyf / Your Ref: **7145/HJD/DW/301301393**

Lee Bolton Monier-Williams
DX: 145940
WESTMINSTER 4

**14/11/16**

Dear Sirs,

**RE : SCHOOL ORGANISATION BERWYN CATCHMENT AREA**

Thank you for your letter of 9th September and subsequent e-mails of 20th and 24th October which have been passed to me with instructions to reply. I understand that you have been pressing for a response but the issues you have raised have required detailed consideration.

At the outset I am clear that the Council has acted in accordance with its powers School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and the Schools Organisation Code 2013. The act and guidance clearly permit us to take forward the proposal for a VC school in Berwyn. The Act is explicitly clear on this point. We have obviously done so in close and active co-operation with the diocese who participated and supported the proposal. This approach was not challenged at the time. In our view the notice as confirmed therefore stands.

Giving consideration to your position and proposals on the Berwyn project and the context with in which this proposal was taken forward we have concluded that the response must be formally considered at member level including consideration of whether Section 55(5) of the Act applies. As you will appreciate from your understanding of the legislative and other requirements relating to school organisation the implications of your correspondence are significant. The process in Wales is governed by prescriptive statutory requirements and guidance which extend to reviews or amendment of confirmed proposals. We therefore intend to report on this matter to Cabinet in December.

Yours faithfully,

**Iwan G D Evans**
**Head of Legal Services**

Lexcel
PRACTICE MANAGEMENT STANDARD
THE LAW SOCIETY

IwanGDEvans@gwynedd.gov.uk
DX 713561 CAERNARFON 5
Ffacs / Fax 01286 679466

Swyddfa Cyngor
Caernarfon,
Gwynedd. LL55 1SH
☎ 01766 771000
www.gwynedd.gov.uk



Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

**ADRODDIAD I'R CABINET**
13 RHAGFYR 2016

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Dafydd Meurig

**Pwnc:** Mater yn codi o'r pwyllgor craffu - Arbedion Effeithlonrwydd Pellach

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd Wyn Williams – Pennaeth Adran Rheoleiddio [dros dro]

---

## Y penderfyniad a geisir

Cymeradwyaeth ar yr amserlen i weithredu ar Arbedion Effeithlonrwydd a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 12 Orffennaf 2016 fel materion yn codi o'r Pwyllgor Craffu ynglŷn ag Arbedion Effeithlonrwydd.

---

**Barn yr aelod lleol**
Ddim yn fater lleol

---

### 1. CEFNDIR

1.1 Fe gyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar 12 Orffennaf 2016 yn amlinellu'r materion a godwyd gan y Pwyllgor Craffu ynglŷn ag Arbedion Effeithlonrwydd a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Craffu am waith pellach.

1.2 Adroddwyd ar y cynnydd oedd wedi ei gyflawni ar yr Arbedion i wneud gwaith pellach arnynt. Wrth ystyried sylwadau'r Pwyllgorau Craffu yn unol â'r gofyn, fe ddaru'r Cabinet gymeradwyo i'r Adran Rheoleiddio fwrw ymlaen ar y camau canlynol:

- Ymrwymo i wneud yr Uned Difa Pla mor hunan gyllidol a phosib drwy gynyddu incwm o oddeutu £40,000 y flwyddyn, yn hytrach na diddymu'r gwasanaeth Difa Pla yn ei gyfanrwydd
- Diddymu swydd Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd ac addasu swydd gyfredol yr Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd i gynnwys cyfrifoldeb am y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn ogystal, er mwyn cwrdd â'r arbediad Cam 2 Gwarchod y Cyhoedd (£69,000).
- Bwrw ymlaen i gyfarfod arbediad o £278,440 fel y manylir yn 5.2 o'r adroddiad a gyflwynwyd, drwy weithredu ar gynllun amgen. Fe fydd y cynllun amgen yn canolbwyntio ar gynyddu incwm (yn deillio yn bennaf o'r ymdrechion i sefydlu Gorchymyn Parcio newydd), newid strwythur a lleihau risgiau sydd yn rhwystro arbedion sydd wedi eu cymeradwyo rhag cael eu gwireddu.

**2. PWRPAS YR ADRODDIAD**

2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn ydi i amlinellu'r amserlen ar gyfer gwireddu arbedion Effeithlonrwydd ym maes Difa Pla ynghyd a'r Arbediad Cam2 Gwarchod y Cyhoedd.

2.2 Mae hefyd yn ofynnol i gwrdd ar swm o £278,440 y cynllun amgen. Pan gyflwynwyd yr adroddiad i'r Cabinet ar 12 Orffennaf 2016 yr oedd yr union benawdau a ffigyrau yn eithaf amwys, felly mae'r Adran wedi paratoi rhaglen gadarn ar gyfer y cynllun amgen gyda'r bwriad o'i fabwysiadu yng nghynllun Arbedion yr Adran.

**3. RHAGLEN WEITHREDOL**

**<u>Difa Pla</u>**

3.1 Mae cryn gynnydd wedi bod yn yr uned Difa Pla wrth weithio tuag at fod yn hunangyllidol. Petai penderfyniad wedi ei wneud i ddiddymu'r Uned, byddai'r Cyngor wedi arbed £28,440, ond wrth wneud y penderfyniad i gadw'r Uned, byddai angen cyrraedd ffigwr o £56,290 er mwyn bod yn gwbl hunan gynhaliol. Gan nad oedd hyn yn realistig gosodwyd amcan o £39,620 fel ffigwr oedd yn bosib i'w gyrraedd drwy gyfuniad o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Adolygu Ffioedd Contractau Mewnol | £16,500 |
| Adolygu Ffioedd Contractau Allanol | £ 6,500 |
| Adolygu Ffioedd Gwasanaeth Ymatebol | £ 7,500 |
| Denu gwaith newydd drwy farchnata mwy effeithiol | £ 9,120 |
| **Cyfanswm** | **£39,620** |

3.2 Yr wyf yn falch o adrodd bod y ffioedd bellach wedi eu hadolygu a bod cynnydd hefyd yn marchnata'r hyn mae'r uned yn ei chynnig. Mae hefyd rywfaint o newidiadau rheolaethol gan fod yr uned wedi symud at y Gwasanaeth Eiddo yn hytrach nag eistedd yn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd. Mae trefniadau rhaglennu gwaith a darpariaeth swyddfa gefn cadarn wedi eu sefydlu o ganlyniad. Mae'r Adran yn hyderus bod posib cyrraedd y bwlch yma, a bod y ffigwr yn cael ei ddangos i'w wireddu'n llawn ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 2017-18.

**<u>Cam 2: Lleihad o 10% pellach yng nghyllideb Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd</u>**

3.3 Penderfynwyd yng nghyfarfod y Cabinet 12 Orffennaf 2016 i gwrdd â'r arbediad hwn drwy ddiddymu swydd Uwch Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd ac addasu swydd gyfredol yr Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd i gynnwys cyfrifoldeb am y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd.

3.4 Mae'r trefniadau hyn bellach yn eu lle, a'r gwaith papur newid strwythur yn cael ei baratoi, ac felly mae yn rhesymol rhaglennu'r arbediad hwn ar gyfer chwarter cyntaf flwyddyn ariannol 2017-18.

**Cynllun Amgen**

3.5 Fe gofiwch mai bwriad y cynllun amgen oedd cyfarch bwlch tebygol o arbedion wedi eu cymeradwyo oedd gyda risg o beidio â chyflawni. Mae'r cynlluniau rhain wedi eu hamlinellu yn nhabl 1 isod.

**Tabl 1**: Arbedion angen eu hystyriaeth mewn cynlluniau amgen:

| CYNLLUN | SWM |
|---|---|
| Cam 3: Lleihad o 10% pellach yng nghyllideb Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | £ 43,150 |
| Hysbysebu ceisiadau Cynllunio | £ 15,000 |
| Arbedion wedi eu cymeradwyo - lefel risg oren | £ 85,290 |
| Arbedion wedi eu cymeradwyo - lefel risg coch | £ 35,000 |
| **Deheuad** i gwrdd ag arbediad i gwrdd â'r diffyg o ddau gynllun cydweithio wedi eu hepgor . | £100,000 |
| Cyfanswm | £278,440.00 |
| Cyfanswm heb gynnwys yr arbediad **deheuad** | £178,440.00 |

3.6 Cytunwyd i gwrdd â'r bwlch drwy weithredu fel a ganlyn:

- Cynyddu incwm (yn deillio yn bennaf o'r ymdrechion i sefydlu Gorchymyn Parcio newydd).
- Lleihau'r risgiau sy'n rhwystro arbedion sydd wedi eu cymeradwyo rhag cael eu gwireddu
- Newidiadau strwythur

**Cynyddu Incwm**

3.7 **Incwm Ychwanegol Parcio [Gorchymyn Newydd]**: Bellach mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'n derfynol y Gorchymyn Parcio newydd ar gyfer y sir. Bu hon yn broses faith a chymhleth ond yn dilyn proses ymgynghori gynhwysfawr mae'r Gorchymyn bellach wedi ei gyhoeddi ac rydym yn rhoi trefniadau ymarferol mewn lle megis gosod peiriannau, arwyddion a gwneud gwaith gwella cyffredinol i'r meysydd parcio fydd yn dod yn rhan o drefn talu ac arddangos am y tro cyntaf. Canlyniad hyn oll, fel yr adroddwyd i'r Cabinet ar Dachwedd 24ain y llynedd, fydd incwm newydd oddeutu £158,000.

3.8 Mae'r Adran felly yn gyfforddus rhaglennu'r arbediad hwn ar gyfer chwarter 1 o flwyddyn ariannol 2017-18.

3.9 **Incwm Ychwanegol Parcio [Ymdrech Ychwanegol]:** Yn ogystal â chreu incwm ychwanegol drwy gyflwyno trefniadau talu ac arddangos o'r newydd, mae'r Uned Parcio hefyd wedi bod yn gwneud gwaith i gynyddu'r defnydd o feysydd parcio sydd wedi bod o dan y trefniadau hyn ers rhai blynyddoedd. Yn dilyn derbyn sylwadau gan ddefnyddwyr y meysydd parcio bu i ni adnabod fod angen gwella cyflwr rhai lleoliadau, angen marcio llecynnau parcio yn gliriach, gwella arwyddion a sicrhau fod ymddangosiad y meysydd parcio yn groesawus a diogel. Gwyddom fod sawl cwsmer wedi cyfeirio at hyn wrth i ni eu holi dros y misoedd diwethaf. Mae'r ymdrechion hyn wedi arwain at incwm uwch o'r meysydd parcio yn gyffredinol ac rydym yn

gyffyrddus y gellir cyfrannu oddeutu £35,000 tuag at y cynllun amgen hwn. Mae lle i gredu os gallwn barhau gyda'r ymdrechion hyn y gallwn weld cynnydd uwch eto yn y dyfodol.

3.10 Mae'r Adran yn ogystal wrthi'n sefydlu trefn debyg i'r un yn y Gwasanaeth Cynllunio drwy godi ffi am gynnig cyngor yn y maes Gwarchod y Cyhoedd lle mae hynny'n ymarferol. Mae hwn yn faes lle mae gwasanaethau Gwrchod y Cyhoedd mewn siroedd cyfagos (megis Sir Conwy) hefyd yn y broses o gyflwyno trefniadau ar gyfer codi ffi am gyngor, a hynny er mwyn adfer costau'r Cyngor am wasanaethau dewisol. Mae awdurdodau mewn rhannau eraill o Gymru, megis Cyngor Sir Fynyw, Cyngor Powys a'r gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ar y cyd sydd gan Cynghorau Caerdydd, Bro Morgannwg a Phenybont ar Ogwr, eisoes wedi mabwysiadu trefn ar gyfer codi ffi am gyngor, a hynny'n bennaf yn y maes diogelwch bwyd.. Y bwriad yw cael cytundeb i'r egwyddor o godi ffi yn ei le fel bod y trefniadau ar gyfer codi ffi yn weithredol o'r 1 Ebrill 2017 ar gyfer codi ffi am gynnig Cyngor ar faterion perthnasol ym meysydd gwaith Gwarchod y Cyhoedd. Disgwylir i'r trefniant yma gynhyrchu oddeutu £5,000 y flwyddyn o incwm ychwanegol.

**Lleihau Risgiau**

3.11 Mae gwaith wedi ei wneud i geisio gwireddu gymaint o'r arbedion a phosib o'r penawdau oedd dan risg. Yr oedd yr agweddau lefel risg oren a gyflwynwyd ar 12 Orffennaf 2016 sydd wedi eu hamlinellu yn nhabl 1 o'r adroddiad yn cyrraedd swm o £85,290. Bellach, mae'r Adran wedi llwyddo i leihau'r risgiau yn y category risg "*tebygol fod problem o gyrraedd yr arbediad disgwylir"**[Oren]***i ffigwr o £23,290 sydd yn rhyddhau £62,000 i'r cynllun amgen.

**Newid Strwythur**

3.12 Mae cryn dipyn o waith wedi ei wneud gan yr Adran i edrych ar y strwythur, ac yn fwy penodol edrych ar sefydlu timau/ unedau mwy ond llai ohonynt.

3.13 Wedi edrych ar yr arbedion posib o ail strwythuro mae'r Adran o'r farn y gellid arbed £18,000 drwy hyn.

3.14 Mae'r Adran o'r farn y gellir gwireddu'r arbedion rhain mewn 2 ran gan gyfarfod arbediad o £9,000 yn chwarter 1 o flwyddyn ariannol 2017-18 a £9,000 pellach yn chwarter 3.

**Crynodeb o'r rhaglen**

3.18 Mae tabl yn amlinellu'r crynodeb o raglen gweithredu'r arbedion a thrafodwyd yn yr adroddiad yma wedi eu dangos yn nhabl 2. Gwelir bod cyfanswm yr hyn sy'n cael ei gynnig yn **£387,000**

**Tabl 2:** Rhaglen gweithredu arbedion a drafodwyd ynn Nghabinet y Cyngor 12 Orffennaf 2016.

| Arbediad | Blwyddyn Ariannol 2017-18 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Chwarter 1 | Chwarter 2 | Chwarter 3 | Chwarter 4 | Cyfanswm |
| Uned Difa Pla | £40,000 | | | | £40,000 |
| Cam 2 Gwarchod y Cyhoedd | £69,000 | | | | £69,000 |
| Is-gyfanswm | **£109,000** | | | | **£109,000** |
| Cynlluniau Amgen | | | | | |
| Incwm ychwanegol parcio (gorchymyn newydd) | £158,000 | | | | £158,000 |
| Incwm ychwanegol parcio (ymdrech ychwanegol) | £35,000 | | | | £35,000 |
| Incwm ychwanegol GyC | £5,000 | | | | £ 5,000 |
| Lleihau Risg | £62,000 | | | | £62,000 |
| Newid Strwythur | £ 9,000 | | £9,000 | | £18,000 |
| Is cyfanswm cynllun amgen | **£269,000** | | **£9,000** | | **£278,000** |
| Cyfanswm terfynol | **£378,000** | | **£9,000** | | **£387,000** |

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 I dderbyn y rhaglen o wireddu'r arbedion a drafodwyd yn Cabinet y Cyngor ar 12 Gorffennaf 2016 ynghyd a monitro'r rhaglen drwy'r drefn monitro arbedion sydd wedi ei gymeradwyo.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
"Mae'r adroddiad sydd ynghlwm i'w gymeradwyo. Yn amlwg mae achos yma o wireddu rhai arbedion effeithlonrwydd mewn ffordd wahanol i'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol ond mae'r cynigion diwygiedig yn glir, yn dderbyniol a hefyd yn gyson a'r drafodaeth a gafwyd yn y Cabinet ym mis Gorffennaf diwethaf."

**Y Swyddog Monitro:**
Rhoddir unrhyw sylwadau o safbwynt priodoldeb yn y cyfarfod.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Cyflwynir unrhyw sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol ar lafar yng nghyfarfod y Cabinet

---

**Atodiadau**
Dim

**ADRODDIAD I'R CABINET**
13.12.2016

**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

**Pwnc: Cyd leoli gwasanaethau**

**Swyddog cyswllt: Dafydd Gibbard – Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol**

---

**Y penderfyniad a geisir**

Comisiynu'r Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol i asesu'r portffolio Eiddo mewn lleoliadau penodol ar draws y Sir, gyda'r nôd o geisio adnabod cyfleoedd i gyd leoli gwasanaethau er mwyn gallu gwneud defnydd mwy effeithlon o'n hadeiladau.

---

**Barn yr aelod lleol**

Ddim yn fater lleol

---

**<u>Cefndir</u>**

1. Fel rhan o'r Strategaeth Asedau Corfforaethol (2009) gosodwyd rhaglen waredu adeiladau yn dilyn proses flaenoriaethu gynhwysfawr. Yn ystod y blynyddoedd dilynol bu modd gwaredu nifer sylweddol o'r adeiladau hyn, ynghyd â sawl adeilad arall wrth i gyfleoedd godi ac i Adrannau wynebu'r angen i gyflawni arbedion effeithlonrwydd a thoriadau. Gweler yn Atodiad 1 restr o'r holl adeiladau sydd wedi eu gwaredu ers sefydlu'r Strategaeth Asedau Corfforaethol.

2. Bu modd lleihau 24% ar arwynebedd stoc adeiladau'r Cyngor yn sgil y gwaredu hwn. Roedd nifer o'r rhain mewn cyflwr gwael ac mae gwaredu'r rhain wedi bod yn un ffactor sydd wedi cyfrannu at ein gallu i wella'r ganran o adeiladau mewn cyflwr da neu dderbyniol, o 78% yn 2009, i 97% erbyn heddiw. Mae'r Strategaeth wedi bod yn llwyddiant mawr felly gan olygu fod defnyddwyr ein hysgolion, cartrefi preswyl, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd ayb mewn adeiladau llawer gwell heddiw nag yr oeddent rai blynyddoedd yn ôl.

3. Yn ogystal, yn sil y gwaredu crëwyd bron i £12M o dderbynion cyfalaf, sydd yn eu tro wedi eu dargyfeirio i wireddu blaenoriaethau gwariant cyfalaf y Cyngor.

4. Gwelir yn Atodiad 1 fod nifer o'r adeiladau sydd wedi eu gwaredu yn rhai anweithredol ac o bosib yn haws i'w gwaredu nag adeiladau gweithredol a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau.

5. Fodd bynnag, rydym wedi gallu gwaredu nifer sylweddol o adeiladau gweithredol hefyd. Oherwydd bod adeiladau swyddfa o dan reolaeth uniongyrchol y Gwasanaeth Eiddo mae hynny wedi hwyluso'n gallu i fod yn rhagweithiol o ran eu gwaredu ac erbyn heddiw mae gennym 8 adeilad swyddfa yn llai na'r hyn oedd yn cael ei ddefnyddio yn 2009. Rydym hefyd wedi gallu gwagio hanner swyddfa Penrallt a chreu incwm blynyddol newydd o bron i £150,000 yn sgil hynny.

6. Mae'r newidiadau yn y maes addysg a gofal hefyd wedi lleihau'n portffolio o adeiladau gryn dipyn ac mae'r angen i gyflawni arbedion a thoriadau bellach yn gyrru'r agenda effeithlonrwydd defnydd adeiladau fel nas gwelwyd yn y gorffennol.

**<u>Cam Nesaf</u>**

7. Pwrpas yr adroddiad hwn yw ystyried os dylem fod yn cymryd cam pellach eto yn y maes yma drwy herio effeithlonrwydd defnydd adeiladau mewn lleoliadau penodol. Er y bu i ni edrych ar yr holl bortffolio adeiladau yn unigol yn 2009, gwnaethpwyd hynny ar sail Gwasanaethau unigol yn hytrach nag ardaloedd daearyddol. Ni roddwyd ystyriaeth lawn bryd hynny i gyfleoedd allasai fodoli i gyd leoli gwasanaethau mewn llai o adeiladau mewn trefi a phentrefi unigol.

8. Cynhaliwyd rhai ymarferiadau o'r fath mewn ambell ardal yn y gorffennol e.e. Dolgellau, Pwllheli a'r Bermo a bryd hynny bu modd cydweithio'n llwyddiannus gyda chyrff cyhoeddus eraill i resymoli ein defnydd o adeiladau.

9. Wedi dweud hynny, pur siomedig fu canlyniadau sawl prosiect cydweithio ffurfiol gyda chyrff cyhoeddus eraill i edrych ar eiddo ar draws y sir. Er bod gan y Cyngor Strategaeth Asedau clir ers blynyddoedd lawer, nid yw'n ymddangos fod cyrff eraill yn yr ardal yn gwbl glir o'u hanghenion eiddo tymor canolig ac mae hyn wedi bod yn un ffactor sydd wedi cyfyngu ar allu cydweithio ar raddfa eang i resymoli asedau.

10. Mae lle i gredu y gallem fod yn fwy llwyddiannus yn hyn o beth pe bai'r Cyngor yn arwain ar waith i edrych ar resymoli adeiladu mewn cyfres o leoliadau penodol ar draws y sir. Yn dilyn asesiad cychwynnol o'r cyfleoedd tebygol, argymhellir y dylem geisio canolbwyntio ar y lleoliadau a restrir yn Atodiad 2 yn bennaf gan mai yma mae'r cyfleoedd gorau i allu gwireddu cynlluniau cyd leoli.

**<u>Ystyriaethau</u>**

11. Wrth edrych ar y cyfleoedd, mae risgiau iechyd a diogelwch yn amlygu ei hun fel rhwystr posib i wahodd defnyddwyr eraill i mewn i rai adeiladau. Gellir gwneud gwaith addasu a newid trefniadau rheolaethol i oresgyn nifer o'r rhain, ond rhaid amlygu y bydd hyn yn anoddach gyda safleoedd Ysgolion lle mae cryn ymdrech wedi bod yn ddiweddar i rwystro mynediad i'r cyhoedd yn gyffredinol.

12. Mae nifer o'n hadeiladau yn rhai ar gyfer defnydd penodol iawn e.e. canolfan hamdden neu gartref preswyl. Gall hyn olygu eu bod yn adeiladau anhyblyg ar adegau a bod angen cryn wariant cyn y gellir defnyddio'r gofod i gartrefi defnydd gwahanol.

13. Wedi dweud hynny, mae gennym nifer o esiamplau diweddar o fod wedi ail leoli gwasanaethau i adeiladau eraill yn ein meddiant e.e. llyfrgell Porthmadog bellach wedi ei ail leoli i Ganolfan Hamdden Glaslyn a Dechrau'n Deg wedi ail leoli i Ganolfan Hamdden Plas Ffrancon, Bethesda. Mae gwaith ar y gweill i ail leoli nifer o ddefnyddwyr gwahanol o Ganolfan Frondeg Pwllheli i adeiladau eraill yn y dref hefyd.

14. Mae'r Cyngor eisoes wedi gwaredu nifer sylweddol o adeiladau ac felly mae'r cyfleoedd amlwg sydd gennym i weld arbedion sylweddol eisoes wedi eu gwireddu. Er ein bod yn credu fod lle i fynd gam ymhellach, oherwydd fod ein portffolio gryn dipyn yn llai erbyn heddiw, mae'n debyg mai cyfleoedd yma ac acw sy'n debygol o godi yn hytrach na llu o gyfleoedd ym mhob ardal y byddwn yn edrych arno.

**<u>Camau nesaf ac amserlen</u>**

15. Er y byddwn angen cymorth gan Adrannau eraill i wyntyllu opsiynau ail leoli, bydd modd cyflawni camau cyntaf y gwaith yma o fewn adnoddau presennol y

Gwasanaeth Eiddo. Erbyn cychwyn yr Haf 2017 byddwn wedi asesu'r opsiynau cychwynnol yn y lleoliadau a restrir yn Atodiad 2. O bosib bydd angen gwaith dichonoldeb mwy manwl bryd hynny cyn gallu sefydlu os yw rhai o'r cyfleoedd yn ymarferol ac os oes achos busnes synhwyrol i gyd leoli. Bydd unrhyw gyfleon a adnabyddir o gymorth wrth geisio sefydlu Cynllun Rheoli Asedau newydd y Cyngor am y degawd i ddod.

16. Bydd ein gallu i symud y gwaith yn ei flaen yn amserol yn ddibynnol ar gydweithrediad a chefnogaeth gan gyrff cyhoeddus eraill yr ardal ar adegau, yn ogystal â gwahanol Adrannau'r Cyngor ei hun wrth reswm.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
"Mae'n dda bod yr adroddiad yn ein atgoffa am y cynnydd y mae'r Cyngor wedi ei wneud yn ddiweddar o ran rhesymoli ei asedau eiddo. Fodd bynnag, ar adeg o grebachu pan y mae sicrhau gwerth am arian yn ein holl waith yn allweddol, mae parhau efo'r ymdrech hyn yn allweddol. Rwy'n cymeradwyo'r gwaith hwn gan gydnabod y gall gymryd peth amser i'w wireddu ond a fydd, gobeithio, hefyd yn medru dwyn i fewn ein partneriaid eraill yn y sector gyhoeddus oherwydd y cyfrifoldeb sydd arnom i gyd o sicrhau'r gwerth gorau o'r bunt cyhoeddus."

**Y Swyddog Monitro:**
Mae'r adroddiad yn amlygu cyfleon i resymoli ystad eiddo'r cyngor a cynllun rhesymol ar gyfer symud hyn ymlaen. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Fel mae'r adroddiad yn nodi, mae rhaglen barhaus yn ei le i asesu anghenion portffolio eiddo'r Cyngor, ac mae Atodiad 1 yn dangos y rhesymoli sydd wedi digwydd dros nifer o flynyddoedd.  Gall tanddefnyddio eiddo arwain at gostau diangen i'r Cyngor ac rwyf felly'n cefnogi ymdrechion i chwilio am gyfleon pellach i wella effeithlonrwydd.  Fodd bynnag, oherwydd y camau sydd eisoes wedi eu cymryd ers sefydlu'r Strategaeth Asedau Corfforaethol cyfredol yn 2009, gyda'r rhesymoli mwyaf amlwg bellach wedi ei wireddu, bydd darganfod effeithlonrwydd pellach yn gynyddol anodd.

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Adeiladau wedi eu gwaredu
Atodiad 2- Lleoliadau posib

# Atodiad 1

## ADEILADAU WEDI EU GWAREDU ERS 2008

| EIDDO |
|---|
| Swyddfa Ardal Tywyn |
| Gweithdai Felinheli |
| Gweithdfai Glanypwll, Blaenau Ffestiniog |
| Ty Meirion, Dolgellau |
| Lawnt, Dolgellau |
| Unedau A9 - A12 Unedau Diwydiannol Penygroes |
| Hen Ysgol Tanygrisiau |
| Ysgol Gynradd Carmel |
| Ysgol y Parc, Bala |
| 41 Pool Street, Caernarfon |
| Uned 3 & 4 Aberamffra, Bermo |
| Toiledau Princess Avenue, Bermo |
| Plas Cae'r Pwsan, Clynnog |
| Hen Glwb Rygbi Caernarfon |
| Uned 3 Glan y Don, pwllheli |
| Uned 1 - 4 Gweithdai Llanystumdwy |
| Hafod y Gest, Porthmadog |
| Noddfa Madog, Porthmadog |
| Bron y Graig, Bala |
| Ysgol Bryncrug |
| Ysgol Coed Menai, Bangor |
| Tai Ysgol Coed Menai, bangor |
| Hen Ysgol Dinorwig (Canolfan Dinorwig) |
| Hen Llyfrgell Deiniolen (Clwb Snwcer) |
| Trefeddyg, Tywyn |

| |
|---|
| Adeiladau Parc & Lawnt Bowlio Aberdyfi |
| Toiledau Llanuwchllyn |
| Toiledau Llandderfel |
| Toiledau Penhelig, Aberdyfi |
| Depo Priffyrdd Llan Ffestiniog |
| UnedaU 7, 8, 9, Llandygai |
| Uned A6, Cibyn, Caernarfon |
| Unedau A1 - A4 Cibyn, Caernarfon |
| Gweithdai Llandwrog - Hen Fecws |
| Pant yr Eithin, Harlech |
| Ysgol Croesor |
| Hen Ganolfan Ieuenctid Abermaw (Llys Talbot) |
| Theatr y Ddraig, Bermo |
| Brown Horse, Dolgellau |
| Bwthyn Penybryn, Dolgellau |
| Uned 1 Aberamffra, Bermo |
| Ty Gwyn, Llwyngwril |
| Toiledau Cyhoeddus Waunfawr |
| Tolldy Friog |
| Unedau 5-8 Parc Padarn, Llanberis |
| Bryn Llewelyn, Blaenau Ffestiniog |
| Ysgol Gynradd Abergynolwyn |
| Neuadd Ogwen, Bethesda |
| 10 Heol yr Wyddfa, Porthmadog |
| Neuadd y Farchnad, Blaenau Ffestiniog |
| Toiledau Cyhoeddus Llanfachraeth |
| Toiledau Llanegryn |
| Ty Manddaliad Nantporth, Bangor |
| Toiledau Tyddyn Callod,  Abersoch |
| Unit 6 Stad Diwydiannol Llandygai, Bangor |

| |
|---|
| Uned A5, Cibyn, Caernarfon |
| Uned 2 Gweithdai Glan y Don, Pwllheli |
| Hen Ysgol Llanfair, Harlech |
| Swyddfa Ardal Abermaw |
| Hen Ysgol Rhydyclafdy |
| Hen Ysgol Llawr y Betws |
| Ty Ysgol Segontiwm, Caernarfon |
| Neuadd Pendre Tywyn |
| Canolfan Cymunedol Glasinfryn |
| Sied 1 Harbwr Abermaw |
| Depo West End, Bangor |
| Hen Doiledau Cae Hendy, Llanbedrog |
| Hen Doiled Arenig Y Bala |
| Fflat 2a Ty Ysgol Coed Menai, Bangor |
| Uned 5 Siediau Aberamffra, Abermaw |
| Uned 6 Siediau Aberamffra, Abermaw |
| Uned 2 Siediau Aberamffra, Abermaw |
| Hen Depo'r Cyngor, Penrhyndeudraeth |
| Depo Bwrdeistrefol Cae Marian, Dolgellau |
| Adeilad y Goleuad, Caernarfon |
| Gweithdai Hen Ysgol Dinas |
| Plas y Coed, Bangor |
| Bristol House, Dolgellau |
| 11 Stryd y Castell, Caernarfon |
| Hen Llyfrgell Ffordd y r Aran, Dolgellau |
| Clwb Henoed Caernarfon |
| Sied 4 Harbwr Abermaw |
| Sied 5 Harbwr Abermaw |
| Sied 6 Harbwr Abermaw |
| Sied 2 Harbwr Abermaw |

| |
|---|
| Pwll Nofio Harlech |
| Toiled Stryd Fawr Deiniolen |
| Toiledau Llanaelhaearn |
| Toiledau Manod |
| Stad Diwydiannol Felin Fawr, Bethesda |
| 2 Well Street, Llanberis |
| Ysgol Jos Bach, Caernarfon |
| Liverpool House, Pwllheli |
| Ysbyty Bron y Garth, Minffordd |
| 1 a 2 Bron y Graig, Corris |
| Neuadd Dyfi, Aberdyfi |
| Mardwdy a Thoiled Tywyn |
| Shed 3 y Cei, Bermo |
| Toiledau Talybont |
| Hen Stesion Felinheli |
| Gweithdai Trefor |
| Ddepo Maestyngelaist, Cricieth |
| Llys y Goron, Caernarfon |
| Pendref, Mynytho |
| Hen Olchdy Afonwen, Chwilog |
| Hen Weithdy Llechi, Pwllheli |
| Porth Mawr, Caernarfon |
| 23a Pool Hill, Caernarfon |
| 27A Pool Hill, Cadernarfon |

| Blwyddyn Ariannol |
| --- |
| 2016/17 |
| 2016/17 |
| 2016/17 |
| 2016/17 |
| 2016/17 |
| 2015/16 |
| 2015/16 |
| 2015/16 |
| 2015/16 |
| 2015/16 |
| 2015/16 |
| 2015/16 |
| 2015/16 |
| 2014/15 |
| 2014/15 |
| 2014/15 |
| 2014/15 |
| 2014/15 |
| 2014/15 |
| 2014/15 |
| 2014/15 |
| 2014/15 |
| 2014/15 |
| 2014/15 |
| 2014/15 |

| |
|---|
| 2014/15 |
| 2014/15 |
| 2014/15 |
| 2014/15 |
| 2014/15 |
| 2013/14 |
| 2013/14 |
| 2013/14 |
| 2013/14 |
| 2013/14 |
| 2013/14 |
| 2013/14 |
| 2013/14 |
| 2013/14 |
| 2013/14 |
| 2013/14 |
| 2013/14 |
| 2013/14 |
| 2013/14 |
| 2012/13 |
| 2012/13 |
| 2012/13 |
| 2012/13 |
| 2012/13 |
| 2012/13 |
| 2012/13 |
| 2012/13 |
| 2012/13 |
| 2012/13 |
| 2011/12 |

| |
|---|
| 2011/12 |
| 2011/12 |
| 2011/12 |
| 2011/12 |
| 2011/12 |
| 2011/12 |
| 2011/12 |
| 2011/12 |
| 2011/12 |
| 2011/12 |
| 2011/12 |
| 2011/12 |
| 2011/12 |
| 2011/12 |
| 2011/12 |
| 2011/12 |
| 2011/12 |
| 2011/12 |
| 2011/12 |
| 2010/11 |
| 2010/11 |
| 2010/11 |
| 2010/11 |
| 2010/11 |
| 2010/11 |
| 2010/11 |
| 2010/11 |
| 2010/11 |
| 2010/11 |
| 2010/11 |

| |
|---|
| 2010/11 |
| 2010/11 |
| 2010/11 |
| 2010/11 |
| 2009/10 |
| 2009/10 |
| 2009/10 |
| 2009/10 |
| 2009/10 |
| 2009/10 |
| 2009/10 |
| 2009/10 |
| 2009/10 |
| 2009/10 |
| 2008/09 |
| 2008/09 |
| 2008/09 |
| 2008/09 |
| 2008/09 |
| 2008/09 |
| 2008/09 |
| 2008/09 |
| 2008/09 |
| 2008/09 |

| Cyf | Eiddo | Math o adeilad | Adran/ Gwasanaeth | Arwynebedd m2 |
|---|---|---|---|---|
| | **Abermaw** | | | |
| 6443 | Canolfan Hamdden y Pafiliwn | Canolfan Hamdden | Economi a Chymuned | 2617.00 |
| 2181 | Ysgol y Traeth | Ysgol Gynradd | Addysg | 1308.90 |
| 1350 | Hafod Mawddach | Cartref Preswyl - Henoed | Oedolion, iechyd a llesiant | 1296.00 |
| B813 | Depo Bwrdeistrefol Bermo | Depo | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 241.00 |
| L0231 | Canolfan Twristiaeth Gorsaf Abermaw | Canolfan Groeso | Economi a Chymuned | 165.00 |
| 4670 | Llyfrgell Abermaw | Llyfrgell | Economi a Chymuned | 161.00 |
| 5847 | S.S Dora | Adeilad Harbwr/Morwrol | Economi a Chymuned | 149.00 |
| 5872 | Swyddfa'r Harbwrfeister Abermaw | Adeilad Harbwr/Morwrol | Economi a Chymuned | 140.00 |
| A034 | Borthwen - Ty Tolldy Bermo | Ty | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 100.00 |
| 6203 | Adeiladau Parc Abermaw | Parc | Economi a Chymuned | 87.00 |
| 6999/2 | Storfa Tunnel Gardens | Storfa | Economi a Chymuned | 25.00 |
| A016 | Bridgefield | Ty | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 20.00 |
| 5622 | Marwdy Llanaber | Storfa | Rheoleiddio | 16.00 |
| | **Bala** | | | |
| 4033 | Ysgol y Berwyn | Ysgol Uwchradd | Addysg | 5241.50 |
| 6442 | Canolfan Hamdden Penllyn | Canolfan Hamdden | Economi a Chymuned | 2721.00 |
| 2180 | Ysgol Bro Tegid | Ysgol Gynradd | Addysg | 815.10 |
| L3305 | Ysgol Beuno Sant | Ysgol Gynradd | Addysg | 622.10 |
| B522 | Beudy Halen Bala | Beudy Halen | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 594.00 |
| 4952 | Neuadd Buddug | Theatr/Sinema | Economi a Chymuned | 510.00 |
| 0486 | Swyddfa Ardal Bala | Swyddfa | Cyllid | 383.00 |
| B812 | Depo Priffyrdd Bala | Depo | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 332.00 |
| 5508 | Canolfan Bro Tegid | Canolfan Gymuned | Economi a Chymuned | 224.70 |
| 0230 | Canolfan Groeso Bala | Canolfan Groeso | Economi a Chymuned | 137.00 |
| 4851 | Capel Plase | Amgueddfa | Economi a Chymuned | 90.00 |
| 5621 | Marwdy Bala | Storfa | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 25.00 |
| | **Bangor** | | | |
| 4036 | Ysgol Friars Eithinog | Ysgol Uwchradd | Addysg | 10395.00 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4037 | Ysgol Tryfan | Ysgol Uwchradd | Addysg | 5278.00 |
| L0416 | Intec | Canolfan Fenter | Economi a Chymuned | 2109.00 |
| 3030 | Ysgol Cae Top | Ysgol Gynradd | Addysg | 2092.30 |
| 6404 | Pwll Nofio Bangor | Pwll Nofio | Economi a Chymuned | 1955.00 |
| 2116 | Ysgol Glan Cegin | Ysgol Gynradd | Addysg | 1638.90 |
| 1345 | Plas Hedd | Cartref Preswyl - Henoed | Oedolion, iechyd a llesiant | 1629.20 |
| 2123 | Ysgol y Garnedd | Ysgol Gynradd | Addysg | 1316.40 |
| 4808 | Storiel | Amgueddfa | Economi a Chymuned | 1177.00 |
| L3009 | Ysgol Faenol | Ysgol Gynradd | Addysg | 1087.50 |
| 2227 | Ysgol Hirael | Ysgol Gynradd | Addysg | 1075.30 |
| L0411 | Mentec | Canolfan Fenter | Economi a Chymuned | 841.00 |
| 5637 | Bangor Crematorium | Amlosgfa | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 793.70 |
| L3301 | Ysgol Ein Harglwyddes | Ysgol Gynradd | Addysg | 776.50 |
| 2118 | Ysgol Babanod Coed Mawr | Ysgol Gynradd | Addysg | 695.80 |
| 4607 | Llyfrgell Bangor | Llyfrgell | Economi a Chymuned | 650.80 |
| B811 | Depo Bwrdeistrefol Llandegai | Depo | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 609.00 |
| 2051 | Ysgol Glanadda | Ysgol Gynradd | Addysg | 605.20 |
| 4280 | Canolfan Ieuenctid Maesgeirchen | Canolfan Ieuenctid | Economi a Chymuned | 585.00 |
| LC20 | 6B, 6C a 7, Llys Onnen | Swyddfa | Rheoleiddio | 462.00 |
| 3849 | Ty Cegin | Swyddfa | Addysg | 368.00 |
| 5443 | Canolfan Gymunedol Coed Mawr | Canolfan Gymuned | Economi a Chymuned | 250.00 |
| 5505 | Canolfan Gymunedol Penrhosgarnedd | Canolfan Gymuned | Economi a Chymuned | 250.00 |
| 5514 | Clwb Hirael | Canolfan Gymuned | Economi a Chymuned | 250.00 |
| 5515 | Canolfan Gymunedol Garth Hill | Canolfan Gymuned | Economi a Chymuned | 250.00 |
| 1451 | Canolfan Lôn Abaty | Swyddfa | Oedolion, iechyd a llesiant | 190.00 |
| L5027 | Swyddfeydd Llys Gwynedd | Cyngor Gwynedd | Economi a Chymuned | 180.00 |
| 6008 | Pafiliwn Bowlio Bangor | Cyfleusterau Hamdden | Economi a Chymuned | 94.00 |
| 6005 | Pafiliwn Chwaraeon Beach Road | Cyfleusterau Hamdden | Economi a Chymuned | 58.00 |
| 6007 | Ystafelloedd Newid Tan y Bryn | Cyfleusterau Hamdden | Economi a Chymuned | 44.00 |
| 6783 | Swyddfa Tan y Fynwent | Swyddfa | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 30.00 |
| | **Blaenau Ffestiniog** | | | |
| 4031 | Ysgol y Moelwyn | Ysgol Uwchradd | Addysg | 6736.00 |
| 2221 | Ysgol Maenofferen | Ysgol Gynradd | Addysg | 1315.40 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| L6444 | Neuadd Chwaraeon Blaenau Ffestiniog | Neuadd Chwaraeon | Economi a Chymuned | 1023.00 |
| 0201 | Gweithdai Glan y Pwll | Canolfan Fenter | Economi a Chymuned | 885.00 |
| 6445 | Pwll Nofio Ysgol y Moelwyn | Pwll Nofio | Addysg | 663.00 |
| 4672 | Canolfan Maenofferen | Llyfrgell | Economi a Chymuned | 654.00 |
| L1416 | Canolfan Ddydd Blaenau Ffestiniog | Canolfan Ddydd - Henoed | Oedolion, iechyd a llesiant | 367.00 |
| 1666 | Uned Stiniog (Coach House) | Canolfan Ddydd - Anableddau Dy | Oedolion, iechyd a llesiant | 245.00 |
| 5502 | Neuadd Bentref Llan Ffestiniog | Canolfan Gymuned | Rheoleiddio | 190.00 |
| B816 | Depo Bwrdeistrefol Blaenau Ffestiniog | Depo | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 78.00 |
| 6204 | Adeiladau Parc Blaenau Ffestiniog | Parc | Economi a Chymuned | 59.80 |
| 1355 | Bryn Blodau | Cartref Preswyl - Henoed | Oedolion, iechyd a llesiant | 1882.30 |
| LA01B | Depo Halen Rhiwbryfdir | Depo | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 2100.00 |
| | **Caernarfon** | | | |
| LA013 | Stuart House, Cibyn | Storfa | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 202.50 |
| 4039 | Ysgol Syr Hugh Owen | Ysgol Uwchradd | Addysg | 9673.90 |
| 5002 | Bloc B Pencadlys | Swyddfa | Rheoleiddio | 8910.00 |
| A054 | Multi Storey Car Park, Caernarfon | Maes Parcio Aml Lawr | Rheoleiddio | 8187.50 |
| 5018 | Multi Storey Car Park Doc Fictoria | Maes Parcio Aml Lawr | Rheoleiddio | 7185.00 |
| 5465 | Multi Storey Car Park Penrallt | Maes Parcio Aml Lawr | Rheoleiddio | 5781.10 |
| 5051 | Swyddfa Penrallt | Swyddfa | Rheoleiddio | 5467.70 |
| L3005 | Ysgol Maesincla | Ysgol Gynradd | Addysg | 3977.30 |
| 6401 | Canolfan Hamdden Arfon | Canolfan Hamdden | Economi a Chymuned | 3785.70 |
| 2119 | Ysgol Newydd yr Hendre | Ysgol Gynradd | Addysg | 3446.50 |
| B810 | Depo Bwrdeistrefol Cibyn | Depo | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 3425.00 |
| 6402 | Canolfan Tenis Arfon | Canolfan Tenis | Economi a Chymuned | 3008.00 |
| 3502 | Ysgol Newydd Pendalar | Ysgol Arbennig | Addysg | 2689.20 |
| 5001 | Bloc J Pencadlys | Swyddfa | Rheoleiddio | 2591.50 |
| 0134 | Gweithdai Cibyn | Unedau Diwydiannol | Economi a Chymuned | 1438.00 |
| 4604 | Llyfrgell Caernarfon | Llyfrgell | Economi a Chymuned | 1400.00 |
| 5025 | Bloc A Pencadlys | Swyddfa | Rheoleiddio | 1368.20 |
| 4881 | Archifdy | Archifdy | Economi a Chymuned | 1349.00 |
| 1333 | Plas Maesincla | Cartref Preswyl - Henoed | Oedolion, iechyd a llesiant | 1321.80 |
| 1367 | Fron Deg | Cartref Preswyl - Anableddau Dys | Oedolion, iechyd a llesiant | 1113.00 |
| B506 | Swyddfeydd Depo Cibyn | Swyddfa | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 1067.00 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2026 | Ysgol y Gelli | Ysgol Gynradd | Addysg | 976.30 |
| 4281 | Canolfan Ieuenctid Penrallt | Canolfan Ieuenctid | Economi a Chymuned | 676.60 |
| 6176 | Caergylchu | Safle Gwaredu Gwastraff | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 660.00 |
| L3300 | Ysgol Santes Helen | Ysgol Gynradd | Addysg | 583.90 |
| B507 | Depo Priffyrdd Cibyn | Depo | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 556.00 |
| 1406 | Canolfan Dydd Maesincla | Canolfan Ddydd - Henoed | Oedolion, iechyd a llesiant | 520.00 |
| 5004 | Gwesty Mona | Swyddfa | Rheoleiddio | 516.30 |
| 1461 | Canolfan Noddfa | Canolfan Gymuned | Gwasanaethau Cymdeithasol | 444.00 |
| B662 | Gweithdy Cibyn | Depo | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 427.00 |
| 5005 | Oriel Pendeitsh | Swyddfa | Rheoleiddio | 379.00 |
| L1465 | Manton | Canolfan Ddydd - Anableddau Dy | Oedolion, iechyd a llesiant | 358.00 |
| 1301 | Drws y Nant | Cartref Plant | Gwasanaethau Cymdeithasol | 304.10 |
| 5462 | Bron Hendre, Caernarfon | Cyfleusterau Iechyd | Oedolion, iechyd a llesiant | 300.00 |
| 6003 | Ystafelloedd Newid Coed Helen | Cyfleusterau Hamdden | Economi a Chymuned | 206.00 |
| 6180 | Safle Gwastraff Cilgwyn | Safle Gwaredu Gwastraff | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 200.00 |
| 0102 | Gweithdai Maesincla | Unedau Diwydiannol | Economi a Chymuned | 188.00 |
| 5711 | Hen Ffreutur Ysgol Syr Hugh Owen | Cyfleusterau Hamdden | Economi a Chymuned | 172.10 |
| L6185 | Swyddfeydd Bwrdeistrefol | Swyddfa | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 100.00 |
| A492 | Eryri Park Lodge | Ty | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 90.00 |
| A031 | Pont Aber Cottage | Ty | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 66.00 |
| 5876 | Doc Fictoria a Swyddfa'r Harbwrfeistr | Adeilad Harbwr/Morwrol | Economi a Chymuned | 33.90 |
| | **Dolgellau** | | | |
| 4030 | Ysgol y Gader | Ysgol Uwchradd | Addysg | 4977.30 |
| 5151 | Cae Penarlag | Swyddfa | Rheoleiddio | 3896.90 |
| 6446 | Canolfan Hamdden Glan Wnion | Canolfan Hamdden | Economi a Chymuned | 2548.00 |
| B527 | Depo Priffyrdd Dolgellau | Depo | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 1196.00 |
| 1356 | Cefn Rodyn | Cartref Preswyl - Henoed | Oedolion, iechyd a llesiant | 1004.00 |
| 5504 | Neuadd Idris | Canolfan Gymuned | Rheoleiddio | 1000.00 |
| 3041 | Ysgol Gynradd Dolgellau (Iau) | Ysgol Gynradd | Addysg | 925.90 |
| 1439 | Dolfeurig | Canolfan Ddydd - Anableddau Dysgu | Oedolion, iechyd a llesiant | 743.00 |
| L3041 | Ysgol Gynradd Dolgellau (Babanod) | Ysgol Gynradd | Addysg | 697.80 |
| B526 | Beudy Halen Dolgellau | Beudy Halen | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 594.00 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4676 | Llyfrgell Dolgellau | Llyfrgell | Economi a Chymuned | 519.50 |
| 4883 | Archifdy Meirionnydd | Archifdy | Economi a Chymuned | 438.00 |
| 4259 | Drill Hall, Dolgellau | Canolfan Ieuenctid | Economi a Chymuned | 337.00 |
| 2197 | Ysgol Llanelltyd | Ysgol Gynradd | Addysg | 252.30 |
| 2182 | Ysgol y Clogau | Ysgol Gynradd | Addysg | 246.10 |
| 2215 | Ysgol Ieuan Gwynedd | Ysgol Gynradd | Addysg | 241.90 |
| 3037 | Ty'r Ysgol Machreth | Ysgol Gynradd | Addysg | 205.20 |
| 2191 | Ysgol Ganllwyd | Ysgol Gynradd | Addysg | 202.10 |
| L3037 | Ysgol Machreth | Ysgol Gynradd | Addysg | 195.80 |
| 2183 | Ysgol Brithdir | Ysgol Gynradd | Addysg | 179.20 |
| 4304 | Uned Glanwnion | Ysgol Arbennig | Addysg | 175.00 |
| 6205 | Hen Doiledau'r Parc Dolgellau | Parc | Economi a Chymuned | 100.00 |
| | **Harlech** | | | |
| 4034 | Ysgol Ardudwy Harlech | Ysgol Uwchradd | Addysg | 6204.00 |
| 0203 | Gweithdai Tanycastell | Unedau Diwydiannol | Economi a Chymuned | 1256.00 |
| 6153 | Ffridd Rasus | Safle Gwaredu Gwastraff | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 975.00 |
| 2219 | Ysgol Tan y Castell | Ysgol Gynradd | Addysg | 959.10 |
| 4253 | Canolfan Ieuenctid Harlech | Canolfan Gymuned | Economi a Chymuned | 343.00 |
| 4675 | Llyfrgell Harlech | Llyfrgell | Economi a Chymuned | 337.00 |
| 4806 | Las Ynys Fawr | Amgueddfa | Economi a Chymuned | 300.00 |
| | **Penrhyndeudraeth** | | | |
| L3505 | Ysgol Arbennig Meirion Dwyfor | Ysgol Arbennig | Addysg | 3807.90 |
| 2208 | Ysgol Cefn Coch | Ysgol Gynradd | Addysg | 1380.80 |
| L5170 | Galw Gwynedd - Canolfan Alwadau | Swyddfa | Cefnogaeth Gorfforaethol | 983.20 |
| 0208 | Gweithdai Safle Cookes | Unedau Diwydiannol | Economi a Chymuned | 395.00 |
| 2198 | Ysgol y Garreg | Ysgol Gynradd | Addysg | 244.80 |
| L4679 | Llyfrgell Penrhyndeudraeth | Llyfrgell | Economi a Chymuned | 220.00 |
| | **Penygroes** | | | |
| 4007 | Ysgol Dyffryn Nantlle | Ysgol Uwchradd | Addysg | 5023.59 |
| 6405 | Canolfan Hamdden Plas Silyn | Canolfan Hamdden | Economi a Chymuned | 1850.00 |
| 1344 | Plas Gwilym | Cartref Preswyl - Henoed | Oedolion, iechyd a llesiant | 1199.00 |
| 2089 | Ysgol Bro Lleu | Ysgol Gynradd | Addysg | 983.70 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5023 | Drill Hall, Penygroes | Swyddfa | Rheoleiddio | 441.00 |
| 0132 | Gweithdai Penygroes | Unedau Diwydiannol | Economi a Chymuned | 382.00 |
| 4282 | Canolfan Ieuenctid Penygroes | Canolfan Ieuenctid | Economi a Chymuned | 182.27 |
| L4605 | Llyfrgell Penygroes | Llyfrgell | Economi a Chymuned | 181.00 |

**ADRODDIAD I'R CABINET**
13.12.2016

**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

**Pwnc: Prydlesu cyn Ysgol Bron y Foel, Y Fron**

**Swyddog cyswllt: Dafydd Gibbard – Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol**

---

## Y penderfyniad a geisir

Defnyddio pwerau Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 i brydlesu cyn safle Ysgol Bron y Foel, Y Fron yn uniongyrchol i Canofan y Fron am lai na rhent y farchnad, er mwyn sicrhau buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

---

## Barn yr aelod lleol

**Y Cynghorydd Dilwyn Lloyd:**

"Dim gwrthwynebiad"

---

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Fel rhan o'r broses Ad-drefnu Ysgolion, bu i Ysgol Bron y Foel gau ym mis Gorffennaf 2015, ac mae plant ardal y Fron bellach yn mynychu Ysgol Ardal newydd Bro Llifon yn Y Groeslon. O ganlyniad, mae safle Ysgol Bron y Foel yn wag, ac yn weddill i angenion y Cyngor.

1.2 Mae cais mewn llaw gan Canolfan Y Fron (grwp cymunedol) i gymryd prydles o Ysgol Bron y Foel am swm enwol er mwyn creu adnodd cymunedol. Mae'r grwp wedi bod yn llwyddianus wrth sicrhau arian grant, ac maent yn awyddus i symud ymlaen i wireddu'r cynllun.

## 2.0 Rhesymau dros argymell y penderfyniad

2.1 Yn ei gyfarfod ar y 15.09.2009 mabwysiadodd Bwrdd y Cyngor Bolisi Ôl-ddefnydd Adeiladau Ysgolion yn dilyn cynlluniau Trefniadaeth Ysgolion.

2.2 Cydnabydda'r Polisi fod cynlluniau ad-drefnu yn debygol o arwain at sefyllfaoedd ble bydd safleoedd ysgolion yn cael eu gwaredu yn unol a'r

egwyddorion, polisiau gwaredu a'r gofynion statudol arferol. Fodd bynnag, mae'r Polisi Ôl-ddefnydd hefyd yn rhoi cyfle teg i'r cymunedau sy'n cael eu heffeithio pan fo ysgol yn cau, i ystyried llunio cynllun busnes i gefnogi cymryd trosglwyddiad o'r eiddo.

2.3 Bu i'r Cyngor dderbyn cynllun busnes gan Canolfan y Fron, ynghyd a chais i brydlesu Ysgol Bron y Foel am gyfnod o 99 mlynedd, a hyny ar gyfer datblygu adnodd cymunedol a byncws. Roedd eu cais yn amodol ar lwyddiant y Grwp wrth ddenu arian grant o gronfa CAT 2 Y Loteri Genedlaethol.

2.4 Derbynwyd cadarnhad ddechrau mis Hydref fod y Grwp wedi bod yn llwyddianus yn eu cais am £945,000 o'r gronfa CAT 2, a hyny er mwyn adnewyddu'r adeilad, ac ar gyfer ariannu costau rhedeg cychwynol y fenter.

2.5 Amod creiddiol ynghlwm i'r arian CAT 2 yw na cheir ei ddefnyddio i i ariannu prynu/prydlesu'r adeilad. Mae'r cais wedi llwyddo ar y sail y bydd y Cyngor yn fodlon cefnogi'r cynllun trwy ddarparu'r adeilad ar ei gyfer.

2.6 Mae hawl gyfreithiol gan y Cyngor yn unol â phwerau Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 i waredu am lai na rhent y farchnad mewn achosion lle mae buddion economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yn cael eu darparu.

2.7 Ystyrir y byddai gwaredu yn uniongyrchol i Grwp Datblygu Y Fron yn hwyluso'r buddiannau canlynol:-

- Sicrhau buddsoddiad sylweddol yn adeilad Ysgol Bron y Foel er creu adnodd cymunedol gwerthfawr.
- Darparu gwasanaethau newydd i drigolion ardal y Fron.
- Potensial i greu swyddi.
- Potensial i anog twristiaid i ymweld a'r ardal.
- Potensial i gefnogi datblygiad busnesau bychain.

2.8 Byddai derbyn yr argymhelliad a defnyddio pwerau Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 er mwyn amrywio oddi wrth y Polisi Gwaredu Cyffredinol ac Adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Lleol 1972, yn golygu hepgor y cyfle i werthu'r eiddo a chynhyrchu derbyneb gyfalaf.

2.9 Pe bai'r eiddo yn cael ei werthu ar y farchnad agored, rydym o'r farn fod y gwerth marchnad agored oddeutu £70,000.

2.10 Felly mae angen i aelodau'r Cabinet gloriannu'n ofalus y buddiannau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yn erbyn y giolled ariannol posib.

2.11 Dylid nodi mai prydlesu'r eiddo ydi'r bwriad. Mae Canolfan y Fron yn bwriadu buddsoddi'n sylweddol yn yr eiddo, a phe bai'r cynllun yn methu am unrhyw reswm, bydd yr eiddo yn parhau ym mherchnogaeth y Cyngor. Bryd hynny byddai modd i'r Cyngor gymryd penderfyniad i waredu ar y farchnad agored pe bai'n dymuno gwneud hynny.

## 3.0 Camau nesaf ac amserlen

3.1 Bydd y Gwasanaeth Eiddo yn cyfarwyddo'r Gwasanaeth Cyfreithiol i roi prydles mewn lle rhag blaen. Bydd hyn yn galluogi'r Loteri Genedlaethol i ryddhau'r arian grant i Canolfan y Fron, er eu galluogi i addasu'r Ysgol a gwireddu'r cynllun yn ystod 2017/18.

---

## Barn y swyddogion statudol

### Y Prif Weithredwr:

"Mae'n dda gweld grwp cymunedol yn mentro i ddatblygu adnodd yn sgil penderfyniad y Cyngor i gau'r ysgol. Yn amlwg, byddai hyn yn golygu colled incwm posib i'r Cyngor o unrhyw werthiant ond rwyf yn amlwg yn dymuno pob llwyddiant iddynt yn y fenter hon ac yn falch o gefnogi drwy'r argymhelliad yn yr adroddiad hwn."

### Y Swyddog Monitro:

"Mae Adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gosod gofyn statudol ar y Cyngor i sicyrhau y pris gorau y gellir yn rhesymol ei dderbyn wrth osod les hir. Mae Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 yn caniatiau gosod les o'r fath heb gydymffurfio a'r gofyn yma os yw'r Cabinet o'r farn fod yr amodau y Gorchymyn wedi eu bodlonni. Rhaid felly i'r Cabinet os am genfnogi'r argymhelliad ddod i gasgliad y bydd pwrpas y bwriad yn debygol o gyfranu at gyrraedd un neu fwy o'r amcanion canlynol sef hyrwyddo neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ardal y Cyngor neu ran ohonni. Mae'r adroddiad yn adnabod y buddiannau a ddisgwylir o ganiatau yr argymhelliad ac mae'r rhain yn disgyn o fewn y criteria."

### Y Pennaeth Cyllid:

"Mae'r Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 yn caniatáu i'r Cyngor waredu eiddo am lai na'r gydnabyddiaeth orau dan amgylchiadau penodol. Os yw'r Cabinet yn dymuno gwaredu'r adnodd yma am lai na'r gydnabyddiaeth orau (h.y. am bris sy'n llai na'r gorau sydd ar gael), mae angen iddo fodloni ei hun fod methodoleg gadarn wedi ei ddefnyddio i ddod i'r

casgliad fod manteision economaidd, amgylcheddol a/neu gymdeithasol yr opsiwn hwn yn gorbwyso'r lleihad mewn incwm.

Yn yr achos yma, rwyf yn fodlon fod manteision clir i symud ymlaen i sefydlu prydles am llai na'r gydnabyddiaeth orau ar y farchnad agored."

**Atodiadau**

Cynllun lleoliad




Ysgol Gynradd Bron y Foel, Y Fron



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023387 – Cyngor Gwynedd Council

**ADRODDIAD I'R CABINET**
13 Rhagfyr 2016

**Aelodau Cabinet:** Cynghorydd Dyfed Edwards a'r Cynghorydd Gareth Thomas

**Pwnc:** Blaenoriaethau Cyllidebol a Chyllidebau Ysgolion Uwchradd

**Swyddog cyswllt:** Dilwyn Williams, Prif Weithredwr

---

**Y penderfyniad a geisir –**

i. Fod y Cabinet yn comisiynu cynllun i'w osod yn ein Cynllun Strategol ar gyfer 2017/18 i asesu ble ddylai'r llinell warchodaeth fod ar gyfer y Sector Uwchradd er mwyn defnyddio'r wybodaeth hwnnw wrth sefydlu cyllideb 2018/19;

ii. Gan dderbyn fod yna drafodaethau wedi cychwyn gyda rhanddeiliaid ar asesu'r broblem, y dylid tanlinellu'r angen i'r Cyngor newydd ystyried canlyniadau'r trafodaethau hynny yn fuan yn oes y Cyngor er mwyn sefydlu datrysiad hir dymor cynaliadwy ar gyfer y sector Uwchradd;

iii. Er mwyn prynu amser i hynny ddigwydd, ein bod yn gofyn i'r Aelod Cabinet dros Adnoddau geisio pontio am ddwy flynedd y £298,990 y mae disgwyl i'r sector Uwchradd ei ddarganfod i'w ariannu o falansau;

iv. Er mwyn osgoi gwastraffu adnoddau drwy ddiswyddo ac ail gyflogi, fod gofyn i'r Aelod cabinet dros Adnoddau hefyd ystyried cynnwys yn ei gyllideb ar gyfer 2017/18 arian pontio i'r ysgolion hynny fyddai'n colli arian oherwydd lleihad yn y niferoedd plant gan ystyried hefyd y defnydd o falansau ysgolion unigol mewn unrhyw gynllun a gynigir.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn fater lleol

---

**Cefndir**

1. Yn ôl yn nechrau 2014, fel rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer dygymod gyda'r bwlch ariannol anferthol yr oeddem yn ei ragweld am y cyfnod i ddod, fe benderfynodd y Cyngor osod targed arbedion o £4.3m i'r ysgolion dros gyfnod y 4 blynedd fel eu cyfraniad nhw tuag at y bwlch yr oeddem am ei wynebu.

2. Y syniad oedd y byddai gweddill gwasanaethau'r Cyngor yn ysgwyddo gweddill y baich.

3. Bob blwyddyn 'rydym yn cymharu ein gwariant ni ar ysgolion fesul disgybl gyda chynghorau eraill yng Nghymru a bryd hynny, 'roedd y sector gynradd yn y safle 4ydd uchaf yng Nghymru tra bod y sector Uwchradd hefyd yn y safle 4ydd uchaf trwy Gymru.

4. Fe ofynnwyd i'r Fforwm Cyllido ysgolion gynghori ni ar sut orau i rannu'r £4.3m yma rhwng y Cynradd a'r Uwchradd.

5. 'Roedd gennym bryderon ar y pryd ynglŷn â gallu'r Sector Uwchradd i ddygymod gyda'r gostyngiad tra'n ceisio gwella safonau, ac fe nodwyd gennym y byddai'n ddymuniad gan y Cyngor weld unrhyw raniad rhwng y Cynradd a'r Uwchradd yn cael ei wneud ar sail yr ardrawiad lleiaf ar gyraeddiadau addysgol disgyblion.

6. Wedi cryn dipyn o drafod, teg yw dweud fod y Fforwm Cyllido ysgolion wedi ei chael yn anodd gwahaniaethu rhwng y Cynradd a'r Uwchradd ac felly fe benderfynodd y Cyngor fabwysiadu fformiwla fyddai'n lleihau'r adnodd 2.3 yn y cynradd am bob 1 yn yr Uwchradd ar gyfer unrhyw ostyngiad fyddai'n rhaid ei wneud tua allan i'r arbedion amlwg di-boen yr oedd modd eu gwneud .

7. Goblygiadau hyn oedd y byddai'r Cynradd yn wynebu £3.0m o'r arbedion tra byddai'r Uwchradd yn wynebu £1.3m ohono. Yn y tair blynedd sydd wedi bod hyd yma hefyd fodd bynnag, gwyddom bellach fod y Cynradd wedi elwa £937,270 oherwydd cynnydd yn y niferoedd plant oed cynradd tra bod yr Uwchradd wedi colli £1.78m oherwydd lleihad yn y niferoedd plant.

8. Ar yr un pryd, 'roeddem yn gwybod fod yna un ysgol uwchradd benodol yn fregus iawn bryd hynny ac fe ofynnwyd i'r Pennaeth Addysg ar y pryd i nodi beth oedd yr isafswm cyllideb fyddai ei angen i gynnal y cwricwlwm. Cafwyd ffigwr ganddo ac ers hynny 'rydym wedi bod yn gweithredu ar gynllun gwarchodaeth yn yr Uwchradd.

9. Bellach mae yna ddwy ysgol wedi taro'r hicyn hwnnw.

**Cyd-destun ariannol**

10. Gwyr pawb erbyn hyn beth sydd wedi digwydd gyda'r sefyllfa ariannol ers 2014/15.

11. Y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf fydd y flwyddyn olaf ar gyfer y cynllun 4 blynedd wreiddiol. Gan edrych ar beth sydd wedi digwydd dros y 3 blynedd sydd wedi bod, a rhagdybio beth fydd angen ei wneud y flwyddyn nesaf, fe geir y darlun canlynol -

- Oherwydd chwyddiant a galwadau ychwanegol ar ein gwasanaethau bydd ein costau anorfod wedi cynyddu **£25m** dros y 4 blynedd, ac ar ben hynny fe fydd y grant yr ydym yn ei dderbyn oddi wrth y Llywodraeth wedi gostwng **£15m**.

- 'Rydym wedi medru cyfarch rhywfaint o'r broblem drwy gynyddu'r Dreth Gyngor **(£10m),** ond byddwn wedi gorfod darganfod y gweddill (£30m) drwy'r targed a roddwyd i ysgolion **(£4m**); arbedion effeithlonrwydd gwasanaethau eraill y Cyngor **(£21m**) a thoriadau i wasanaethau **(£5m**).

12. Wrth edrych yn ôl, yr unig ffordd y byddem wedi medru osgoi rhoi targed i'r ysgolion fyddai cynyddu'r toriadau, ond fe wyddom o'r broses Her Gwynedd y byddai hynny wedi golygu gweithredu pair 4,5, a 6 o'r rhestr toriadau y bu i'r Cyngor eu hystyried yn eu cyfarfod ar 3 Mawrth y flwyddyn ddiwethaf. (Gellir gweld manylion y cynlluniau hynny yn <https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/g284/Pecyn%20adroddiadau%20cyhoeddus%2003ydd-Maw-2016%2013.00%20Y%20Cyngor.pdf?T=10&LLL=1>

13. Gwyddom fod gwneud y toriadau y bu'n rhaid i ni eu gwneud ddigon anodd a byddai yna oblygiadau sylweddol o fod wedi gwneud mwy na hynny a wnaed.

14. Mae'r £4.3m yn cynrychioli tua 5.6% o'r gyllideb ysgolion tra bod yr arbedion effeithlonrwydd a'r toriadau y mae gweddill adrannau'r Cyngor wedi gorfod ysgwyddo yn cynrychioli cyfartaledd o 20% o'r gyllideb.

15. Ar y cyfan felly wrth edrych yn ôl, ymddengys fod y strategaeth y bu i ni weithredu wedi bod yn un cytbwys.

**Cyllidebau Ysgolion Uwchradd**

16. Mae'r cymariaethau o wariant ar ysgolion ar gyfer 2016/17 bellach yn dangos fod y sector gynradd wedi gwella i fod yr ail uchaf yng Nghymru (sy'n awgrymu fod rhai cynghorau eraill yn sicr wedi bod yn cymryd camau llymach na ni ar gyfer y sector), ond mae'r sector Uwchradd bellach wedi llithro i'r 7fed uchaf.

17. Mae hyn yn achosi rhywfaint o bryder, ac yn codi'r cwestiwn a oedd y rhaniad gwreiddiol rhwng y cynradd a'r uwchradd yn briodol.

18. Bydd gweithredu trydydd cam y gostyngiad o £4.3m yn golygu gostyngiad o £298,990 i'r sector Uwchradd yn 2017/18.

19. Ar ben hyn gwyddom fod y sector hefyd yn wynebu gostyngiad cyllidebol o £383,000 pellach y flwyddyn nesaf oherwydd gostyngiad yn y niferoedd plant (gydag 8 ysgol yn colli cyfanswm o £544,000 a 6 ysgol yn elwa £166,000).

20. Dengys ein tafluniadau fodd bynnag y bydd y niferoedd hynny yn cynyddu o ffigwr tebyg yn 2018/19 ac eto wedyn yn 2019/20.

21. Mewn cyfarfod diweddar o'r Fforwm Cyllido Ysgolion, gwnaed cais i ni ystyried pontio'r lleihad cyllidebol oherwydd y gostyngiad plant yma yn wyneb y cynnydd sydd am fod yn 2018/19 a 2019/20. Nodwyd hefyd mai teg fyddai cynnwys ystyriaeth o falensau ysgolion mewn unrhyw gynllun pontio.

22. Tra bod yr effaith yn wahanol o ysgol i ysgol, mae yna synnwyr yn y cais yma, gan fod unrhyw ostyngiad ariannol yn aml yn cael ei weithredu drwy leihad staffio ac ni fyddai'n gwneud synnwyr diswyddo athrawon dim ond efallai i fod angen ail gyflogi'r flwyddyn ganlynol.

23. Yn amlwg, mae hyn oll yn tanlinellu'r angen i gael datrysiad hir dymor cynaliadwy ar gyfer y sector Uwchradd a gwyddom fod yna ddeialog yn mynd ymlaen ar hynny ar hyn o bryd gyda'r holl rhanddeiliaid fydd yn galluogi'r Cyngor newydd i ystyried beth ddylid ei wneud am y sefyllfa.

24. Yn wyneb y wybodaeth ddiweddaraf yma ar wariant cymharol, efallai fod yna le hefyd i rewi rhywfaint o'r arbedion £4.3m y bydd disgwyl i'r sector Uwchradd ei wynebu'r flwyddyn nesaf er mwyn rhoi amser i ni ddatblygu ateb mwy cynaliadwy (gan dderbyn na fydd gennym ddewis ond ei weithredu os na ellir cytuno ar ddatrysiad).

25. Yn y tymor byr, mae yna gwestiwn hefyd a yw'r llinell warchodaeth yn y lle cywir a dylid ail ymweld â hwn cyn sefydlu cyllideb 2018/19.

**Argymhellion**

26. Yn wyneb hyn oll, argymhellir –

i. Fod y Cabinet yn comisiynu cynllun i'w osod yn ein Cynllun Strategol ar gyfer 2017/18 i asesu ble ddylai'r llinell warchodaeth fod ar gyfer y Sector Uwchradd er mwyn defnyddio'r wybodaeth hwnnw wrth sefydlu cyllideb 2018/19;

ii. Gan dderbyn fod yna drafodaethau wedi cychwyn gyda rhanddeiliaid ar asesu'r broblem, y dylid tanlinellu'r angen i'r Cyngor newydd ystyried canlyniadau'r trafodaethau hynny yn fuan yn oes y Cyngor er mwyn sefydlu datrysiad hir dymor cynaliadwy ar gyfer y sector Uwchradd;

iii. Er mwyn prynu amser i hynny ddigwydd, ein bod yn gofyn i'r Aelod Cabinet dros Adnoddau geisio pontio am ddwy flynedd y £298,990 y mae disgwyl i'r sector Uwchradd ei ddarganfod i'w ariannu o falansau;

iv. Er mwyn osgoi gwastraffu adnoddau drwy ddiswyddo ac ail gyflogi, fod gofyn i'r Aelod cabinet dros Adnoddau hefyd ystyried cynnwys yn ei gyllideb ar gyfer 2017/18 arian pontio i'r ysgolion hynny fyddai'n colli arian oherwydd lleihad yn y niferoedd plant gan ystyried hefyd y defnydd o falansau ysgolion unigol mewn unrhyw gynllun a gynigir.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
*Awdur yr adroddiad*

**Y Swyddog Monitro:**
*Mae'r adroddiad yn amlygu datblygu cynllun rhesymol i gyfarch sefyllfa tymor byr gyda chyfeiriad tymor hir yn seiliedig ar y Cynllun Strategol. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb.*

**Y Swyddog Cyllid:**
*Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi cynnwys ariannol yr adroddiad yma ac rwy'n cadarnhau cywirdeb y ffigyrau.*

*Rhagwelir bydd gan y Cyngor falansau cyffredinol o £5.5m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon (erbyn 31/03/2017), sy'n cynrychioli tua 1.5% o wariant refeniw gros y Cyngor. Yng nghyllideb 2016/17, argymhellais gadw isafswm o £4.4m o falansau cyffredinol. Byddai'r argymhellion yma ddim yn peryglu'r lefel hynny, er wrth gwrs byddai'n lleihau'r balansau ar ôl i'r Cyngor ystyried defnyddio i unrhyw bwrpas arall.*

*Felly, dylai'r Cabinet fod yn argyhoeddedig o flaenoriaeth yr anghenion yn yr ysgolion uwchradd perthnasol - rheiny fyddai'n wynebu gostyngiad mewn niferoedd disgyblion, a lleihad cyfatebol mewn dyraniadau cyllideb yn 2017/18, yn ogystal ag effaith yr arbedion. Os yw'r Cabinet yn cefnogi'r argymhellion, yna byddwn yn cydweithio gyda'r Aelod Cabinet dros Adnoddau i gynnwys darpariaeth briodol wrth lunio'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2017/18.*

*Yn gyffredinol, ni fyddwn yn cynllunio i gyllido gwariant rheolaidd parhaol allan o falansau'r Cyngor. Fodd bynnag, nid dyna'r bwriad yn yr argymhellion yma. Byddai'r defnydd un-tro o gyfran o'r balansau, er mwyn pontio sefyllfa unigryw i'r sector uwchradd yn 2017/18, yn arfer dda er mwyn osgoi costau diswyddo diangen, gan roi cyfle i'r sector uwchradd gyrraedd cyflwr cynaliadwy yn y tymor canolig.*

---

# CYNGOR GWYNEDD

## ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 13 Rhagfyr, 2016 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Mair Rowlands<br>Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden |
| **Swyddog Cyswllt:** | Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679468 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Plant Pobl Ifanc a Hamdden |

**1. CYFLWYNIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yn y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion.

1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r timau rheoli perthnasol, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r pwyllgor craffu.

1.3 Ar y cyfan, rwy'n fodlon gyda pherfformiad y mwyafrif o'r prosiectau a'r mesurau rwy'n gyfrifol amdanynt. Er hyn mae nifer o'r mesuryddion perfformiad y maes plant yn cynrychioli cynnydd cyffredinol mewn pwysau gwaith o ganlyniad i niferoedd uchel o blant mewn gofal.



**Cyswllt:**
01286 679729 • 01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

2.2. Gofynir i'r Cabinet gymeradwyo ail broffilio gwireddu rhan o gynllun arbedion effeithlonrwydd 'HAM4 - Rhedeg cyfleusterau yn fwy effeithiol' (cyfanswm o £256,500), o'r flwyddyn ariannol 2017/18 i 2018/19. (Gwybodaeth pellach yn rhan 6.1 o'r adroddiad hwn).

| 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 40,000 | 267,500 | 75,758 | 256,500 | 639,758 |

## 3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol ac ein bod yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd yn unol â'r strategaeth ariannol.

## 4. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL

4.1. P8 - Ymyrraeth Gynnar ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus Gwynedd.

4.1.1. Pwrpas y prosiect hwn yma yw gosod cyfeiriad a sefydlu blaenoriaethau ar gyfer agenda ataliol yng Ngwynedd, gan weithio yn aml asiantaethol er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion yn gwneud y pethau cywir yn y llefydd cywir. Bydd y prosiect yn sicrhau ymyrraeth gynnar ac yn pwysleisio bod y gefnogaeth briodol yn cael ei rhoi ar yr adeg gywir. Y bwriad yma yw sicrhau bod rhaglen glir o wasanaethau ataliol ar gael i bobl ifanc Gwynedd, a bod ohono yn raglen sydd â pherchnogaeth traws -sector, yn cynnwys y trydydd sector.

4.1.2 Ers i mi adrodd i chi tro diwethaf, mae'r adran wedi bod yn gweithio ar gadarnhau cynllun gweithredu ataliol gan ganolbwyntio ar:

-Oediad Iaith a Llefaredd
-Rhiantu
-Pobl ifanc yn eu harddegau
-Mynediad i wasanaethau iechyd meddwl

4.1.3 Mae'r gwaith wedi'i wneud ar y cyd gydag asiantaethau allanol yn cynnwys Iechyd, CAHMS (Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Plant a Phobl Ifanc) a'r trydydd sector. Credaf fod rôl bendant i'r asiantaethau hyn wrth roi'r cynllun ar waith er mwyn sicrhau perchnogaeth traws-sector i'r hyn sydd angen ei gyflawni. Y bwriad yw cyflwyno'r cynllun terfynol i Fwrdd Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc ym mis Rhagfyr. Bydd hwn wedyn yn sail bendant ar gyfer comisiynu blaenoriaethau ac adnoddau arian Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer 2017/18.

4.1.4 Erbyn hyn rydym hefyd wedi deall na fydd y gyllideb Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei dorri ar gyfer 2017/18 ac rydym yn disgwyl llythyr cadarnhad grant yn yr wythnosau nesaf.

4.1.5 Yn ogystal, derbyniwyd gohebiaeth ddiweddar gan Adran Plant a Theuluoedd Llywodraeth Cymru yn gwahodd Awdurdodau sydd â diddordeb yn peilota

hyblygrwydd rhwng gwahanol botiau arian fel rhan o'r agenda ataliol/ ymyrraeth gynnar. Yn ogystal , cafwyd gwybodaeth ynglŷn â gweledigaeth Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer Plant a Chymunedau i ddatblygu 'Children's zones' mewn cymunedau penodol fydd yn ymateb i anghenion plant bregus drwy gael sefydliadau i weithio hefo'i gilydd. Rwyf yn awyddus ein bod yn datgan diddordeb yn y ddau beilot yma.

**PWYNT GWEITHREDU O'R CYLCH DIWETHAF:**
**Cytunwyd y byddai'r Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden yn crynhoi ar fyrder ble rydym arni gyda Chynlluniau tra byddai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn ceisio gweld beth ydy sefyllfa y llywodraeth gyda hyn.**
Erbyn hyn rydym wedi derbyn cadarnhad na fydd grant Teuluoedd yn Gyntaf yn lleihau ar gyfer flwyddyn nesaf. Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol wedi cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a disgwylir llythyr cadarnhad o'r grant yn yr wythnosau nesaf. Rydym yn anelu i gomisiynu gwaith erbyn Hydref 2017.

## 5. MESUR PERFFORMIAD

5.1 O ran mesurau gwasanaeth ieuenctid, rwy'n falch o weld cynnydd eto yn y **nifer o bobl ifanc sy'n derbyn achrediadau trwy'r gwasanaeth.** Mae 135 o bobl ifanc yn gweithio tuag at gwblhau Gwobr Dug Caeredin. Hyd yma mae 21 wedi cwblhau efydd, 3 arian a 2 aur, sy'n ganlyniad da iawn. Mae'r gwasanaeth wedi datgan pryder o ran capasiti staff i gynnal yr achrediadau i'r dyfodol, gan nodi bod yna risg bod ffigwr achrediadau yn lleihau yn ystod y flwyddyn. Rwyf wedi gofyn i'r gwasanaeth ystyried opsiynau i oresgyn y sefyllfa.

5.2 Mae'r gwasanaeth yn mynd trwy'r broses o ail-fodelu ar hyn o bryd, ac mae'r rhaglen ymgysylltu gyda phobl ifanc wedi cychwyn. Beth sy'n dod i'r amlwg yw bod angen rheoli disgwyliadau pobl Gwynedd o ran beth fydd y gwasanaeth yn gallu ei ddarparu i'r dyfodol. Mae'r amserlen yn mynd rhagddo, gyda'r ymgynghoriad i gychwyn yn fuan yn y flwyddyn newydd.

5.3 Mae **lefelau defnydd o ganolfannau hamdden** wedi cynyddu ers yr adroddiad diwethaf. Hynny er waethaf y tywydd braf sydd yn aml yn arwain at leihad yn y defnydd. Mae gwella'r cynnig o safbwynt dosbarthiadau ffitrwydd a hefyd mewnosod offer ffitrwydd newydd wedi cael dylanwad positif ar y perfformiad yn amlwg. Tanlinellir hynny hefyd wrth i'r agweddau hynny sgorio'n dda yn yr arolwg bodlonrwydd cwsmer. Yn ychwanegol i hyn, Mae'r Gwasanaeth wedi datblygu trefn newydd ar gyfer **mesur bodlonrwydd cwsmer**. Mae'r ffigwr o 89% yn datgan eu bod yn fodlon yn galonogol iawn fel man cychwyn gyda 354 o ymatebion wedi eu derbyn. Wrth ddadansoddi'r data, nodwyd bod angen gwella agweddau glendid, ansawdd cyfleusterau megis loceri a gofod parcio mewn rhai cyfleusterau os am gyrraedd disgwyliadau'r defnyddwyr yn llawn.

5.4 Mae'r **Uned Dechrau'n Deg** wedi bod yn tynnu sylw'n genedlaethol at y ffaith nad ydi'r mesurau perfformiad o reidrwydd y ffordd fwyaf effeithiol o fesur datblygiad plant. Yn benodol y mesurau isod:

**BC01** - Asesiad SOGS (Schedule of Growing Skills) 2 oed canran plant Dechrau'n Deg yn cyrraedd eu norm neu yn uwch nai norm datblygiadol
**BC02** - Asesiad SOGS 3 oed Canran Plant Dechrau'n Deg yn cyrraedd eu norm neu yn uwch nai norm datblygiadol
**BC03** - Canran presenoldeb plant sy'n 2 oed yn Dechrau'n Deg
**BC04** - Nifer o'r pecynnau cymorth uwch rhiantu sy'n arwain at deithio pellter cadarnhaol

Enghraifft o hyn yw, er bod **BC01** yn cael ei gwblhau pan mae plant yn 2 oed a **BC02** yn cael ei gwblhau pan mae plant yn 3 oed, nid oes ystyriaeth yn cael ei roi i ddatblygiad y plentyn rhwng y ddau asesiad sy'n cael ei wneud gan yr ymwelydd iechyd. Er bellach fod cydnabyddiaeth yn genedlaethol i hyn a bod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu mesurau newydd, bydd yr Uned yn ystyried datblygu mesurau lleol sy'n addas ar gyfer mesur eu pwrpas - boed hynny ar sail ardal gyfyngedig trwy beilot i ddechrau.

5.5 Gallaf gadarnhau fod y tuedd yn parhau o ran y cynnydd o blant mewn gofal (217 plentyn). O gymharu â'r un cyfod flwyddyn ddiwethaf mae hynny'n gynnydd o 17%. Mae cynnydd diweddar wedi bod yn nifer y plant sydd wedi cael eu lleoli am y tro cyntaf sy'n llai na 1 oed - ar hyn o bryd mae 26% o'r plant mewn gofal o dan 1 oed a 48% o dan 5 oed. Mae gwaith ataliol y Tîm Trothwy Gofal yn parhau a rhagwelir y byddai'r niferoedd mewn gofal yn sylweddol uwch heb y buddsoddiad hwn. Er y cynnydd sylweddol mewn niferoedd nid ydym eto wedi gweld hynny'n cael ei adlewyrchu'n llawn o ran gorwariant yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd gan fod nifer o'r plant wedi eu lleoli hefo'u teuluoedd.

5.6 O ran y mesurau hynny sy'n mesur 'Diogelu' yn benodol rwy'n falch o adrodd fod **cyfradd y plant a gafodd eu trafod mewn goruchwyliaeth, lle rhoddwyd ystyriaeth i niwed arwyddocaol** yn 100%. Hoffwn dynnu sylw at y ffaith fod **canran o gynadleddau achos lle bu glywed llais/barn y plentyn** wedi lleihau o 85% yn 2015/16 i 75% hyd yma yn 2016/17. Cytunwyd y byddai rheolwyr y timau yn ymchwilio i hyn ac yn atgoffa Gweithwyr Cymdeithasol yr angen i nodi barn y plentyn yn glir mewn unrhyw ddogfennaeth. Er bod barn neu lais y plentyn yn allweddol, dylid nodi mai prif ffocws y cyfarfodydd hyn yw'r angen i ddiogelu'r plentyn.

5.7 Mesur lleol arall sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer yr elfen diogelu plant hwn yw **canran yr asesiadau risg yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau**. Cadeirydd y gynhadledd sy'n gwneud y penderfyniad o ran hyn ac mae perfformiad hyd yma eleni yn 91% o gymharu â 97% blwyddyn diwethaf. Cytunwyd yn y cyfarfod Tîm Rheoli Adrannol diwethaf y byddai'n ddefnyddiol i'r farn y cadeirydd o ran hyn gael ei rannu'n syth gyda Rheolwyr Timau a Gweithwyr Cymdeithasol perthnasol fel bod modd dysgu erbyn y troeon nesaf.

5.8 Yn benodol o ran mesur 'Lles Plant' mae 100% o blant gyda **chynllun llwybr wedi ei gytuno ar gyfer plant mewn gofal.** Er y perffomiad, ystyrir archwilio ymhellach i'r cynlluniau llwybr er mwyn gweld os yw ansawdd y cynlluniau yn ateb y gofynion yn dda.

5.9 Mae rhywfaint o ddirywiad wedi bod yn ddiweddar ers y tro diwethaf i mi adrodd i chi (73% i 67%) o ran **canran y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a chanddynt Gynllun Addysg Bersonol o fewn 20 diwrnod i dderbyn gofal neu ymuno ag ysgol newydd yn ystod y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth.** Mae'r trefniadau rhwng yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Addysg yn parhau'n gadarn o ran rhannu gwybodaeth, ond credir fod gwaith pellach i'w wneud gyda rhai ysgolion er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o bwysigrwydd y Cynllun Addysg Bersonol.

5.10 Mae'r mesurau hynny sy'n mesur yr adolygiadau statudol **(SCC021)** a'r ymweliadau statudol **(SCC025)** sydd wedi eu cynnal ar amser yn cynrychioli'r pwysau cynyddol sydd wedi bod ar y gwasanaeth yn ddiweddar e.e. nifer y plant mewn gofal (rhan 4.5 o'r adroddiad). Mae cynnydd o 27% wedi bod yn

nifer yr ymweliadau statudol eleni yn ystod yr un cyfnod yn 2015/16. Yn benodol o ran y mesur **SCC025** adroddwyd yn y Tîm Rheoli Adrannol fod 12 ymweliad heb ei gofnodi, ond gallaf gadarnhau fod y Gwasanaeth yn hyderus fod yr ymweliadau hyn wedi digwydd ac mai mater ydyw o ddiffyg cofnodi'r wybodaeth. Gallaf gadarnhau fod gwaith yn mynd rhagddo o ran trafod opsiynau i gyfarch hyn e.e. ystyried mynediad at system dechnoleg gwybodaeth perthnasol y tu allan i brif swyddfeydd y Cyngor.

**6. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL**

6.1 **Ieuenctid a Hamdden -** Mae'r oll o gynlluniau arbedion perthnasol 2016/17 yr adran Economi a Chymuned wedi eu gwireddu, a'r Adran hefyd yn gwneud cynnydd derbyniol iawn tuag at wireddu cynlluniau 2017-18. Fodd bynnag, mae un cynllun sef "Rhedeg cyfleusterau yn fwy effeithiol" yn gynllun sylweddol, gyda datrysiad eithaf heriol. Mae'n debygol iawn bydd y Gwasanaeth Hamdden wedi cyflawni £796,652 o arbedion erbyn 1 Ebrill 2017, hyn dros gyfnod o dair blynedd, gan gynnwys £307,500 o arbedion y cynllun yma. Mae angen arbed £332,258 pellach er mwyn gwireddu'r cynllun yn llawn ac oni bai bydd posib ymestyn y cyfnod gwireddu yn unol â'r penderfyniad a gesir yn rhan 2.2 o'r Adroddiad hwn, bydd yr Adran Economi a Chymuned yn gorfod pontio'r diffyg ac o ganlyniad, yn gorwario o £256,500 yn 2017/18.

Proffil Presennol:

| **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| **40,000** | **267,500** | **332,258** | | **639,758** |

Proffil Amgen:

| **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| **40,000** | **267,500** | **75,758** | **256,500** | **639,758** |

6.2 **Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd** - Mae cynlluniau arbedion mewn dau faes yn cael eu cyflawni yn unol â'r disgwyl ond, o ganlyniad i gynnydd yn y galw am wasanaeth ac felly hefyd gorwariant yn y meysydd hyn yn benodol, ni ellir cadarnhau'r arbedion ariannol ragwelwyd. Mae dadansoddiad diwedd Chwarter 2 yn awgrymu gorwariant o £168,000 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**6. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

**6.1.** Dim i'w nodi.

**7. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

**7.1. Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Prif Weithredwr:**

Yn amlwg, mae'r Cyngor â chryn brofiad mewn gweithredu ar raglenni ataliol a rwy'n falch o weld posibilrwydd o fanteisio ar adnoddau cenedlaethol i beilota mentrau newydd yn y maes. Yr hyn sydd yn bwysig yn hyn o beth yw ein bod â

llygad ar oblygiadau dod â'r gwaith ataliol hyn, os yn llwyddiannus, i fewn i brif lif gwaith y Cyngor.

O ran y mesurau perfformiad, mae'n dda gweld bod yr Uned Dechrau'n Deg yn edrych am fesurau mwy ystyrlon na'r rhai hanesyddol. Mae'r mesurau ar y cyfan yn rhoi darlun cadarnhaol ond mae'n deg nodi yr angen am waith ar Gynlluniau Addysg Personol i blant sy'n derbyn gofal a hefyd y pryder am bwysau am adolygiadau ac ymweliadau statudol.

Yn olaf, o ran gwireddu arbedion, mae'r proffil tebygol ar weithredu arbedion Hamdden a Plant a Theuluoedd yn amlwg yn feysydd sydd yn achosi pryder a rhaid dod i benderfyniad ar hyn yn fuan dros y misoedd nesaf.

**ii. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**iii. Y Pennaeth Cyllid:**

Yn rhan 6.1 o'r adroddiad mae eglurhad o lithriad amserlen gweithredu rhan o gynllun "Rhedeg cyfleusterau yn fwy effeithiol" - llithriad sy'n gysylltiedig gyda chynllun i gyflawni £500,000 o arbedion yn ychwanegol i'r £640,000 a gynlluniwyd yn wreiddiol. Mae rhan 6.1 o'r adroddiad yn nodi'r angen am broffil diwygiedig (wedi 2017/18) ar gyfer cynhaeafu £256,000 o'r arbedion gynlluniwyd yn wreiddiol.

Cymeraf bydd y Cabinet yn derbyn yr eglurhad am y llithriad, gyda'r cynllun estynedig, a bydd yn gofyn i mi a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau adlewyrchu'r proffil arbedion diwygiedig yn strategaeth ariannol y Cyngor ar gyfer 2017/18. Fodd bynnag, diau y bydd aelodau'n awyddus i'r Aelod Cabinet a'r Pennaeth Economi a Chymuned sicrhau'r arbedion £256,000 + £500,000 yma ar eu cyfle cyntaf.

**7.2. Barn yr Aelod Lleol:**

7.2.1 Ddim yn fater lleol.

**7.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

7.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau:**

**Atodiad 1** Mesurau Perfformiad

## ATODIAD 1 – Mesurau Plant a Chefnogi Teuluoedd, Ieuenctid a Hamdden

| Cyf. | Mesur Cyflawni | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Ieuenctid** | | | | | |
| **IEU05** | Nifer o achrediadau mae pobl ifanc yn eu derbyn trwy'r gwasanaeth Ieuenctid | 2323 | 2049 | 2807 | 703 |
| | **Sylwadau:**<br>**2016/2017** – Ebrill 2016 ymlaen - Ar hyn o bryd yn gallu cadarnhau 703 achrediadau. Allan o hyn, mae 135 yn gweithio tuag at Gowbr Dug Caeredin efydd, 3 arian ac 1 aur. | | | | |
| **Gwasanaeth Hamdden** | | | | | |
| LCS/002b | Nifer o ymweliadau i ganolfannau hamdden fesul 1000 y pen o'r boblogaeth | 1206 | 13,790 | 10,278 | 5,784 |
| DADH.42 | Canran o blant sy'n 11 oed ac wedi cyrraedd safon y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer nofio | 79% | 82% | 78% | Dim gwybodaeth ar gael cyn Chwarter 3 2016/17 pryd bydd y Gwasanaeth yn cynnal profion nofio am y flwyddyn |
| Ifanc02 | Canran o blant Ysgolion Uwchradd Gwynedd sydd wedi mynychu unrhyw weithgaredd wedi ei drefnu gan Swyddogion Pobl Ifanc Egnïol o leiaf ugain gwaith yn ystod y flwyddyn fel rhan o gynllun 5x60 | 22.57% | 19.16% | Disgwyl canlyniadau gan Chwaraeon Cymru | Targedau'r flwyddyn yn 20% |
| | Arolwg Bodlonrwydd Cwsmer | - | - | - | 89% |
| | **Sylwadau:**<br>**LCS/002b**: Mae lefelau defnydd o ganolfannau hamdden wedi cynyddu ers yr adroddiad diwethaf. Hynny er waethaf y tywydd braf sydd yn aml yn arwain at leihad yn y defnydd. Mae gwella'r cynnig o safbwynt dosbarthiadau ffitrwydd a hefyd mewnosod offer ffitrwydd newydd wedi cael dylanwad bositif ar y perfformiad yn amlwg. Tanlinellir hynny hefyd wrth i'r agweddau hynny sgorio'n dda yn yr arolwg bodlonrwydd cwsmer.<br><br>**DADH.42:** Bu gostyngiad yn y perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn academaidd 2015/2016. Hynny yn bennaf oherwydd bod y prawf nofio wedi newid ar draws | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gymru. Rhagwelwyd y byddai hynny yn digwydd gan fod y prawf bellach yn fwy heriol i blant ond mae'r gostyngiad yn llai na ragwelwyd. Prif rwystrau ar gyfer gwella'r perfformiad ydi i) diffyg cyllid gan ysgolion er mwyn danfon plant yn gyson i'r gwersi yn ystod y flwyddyn ysgol a ii) lleihad yn y grant nofio am ddim sydd wedi golygu bod llai o athrawon yn cael eu hyfforddi er mwyn dysgu nofio i'r safon angenrheidiol.<br><br>**Ifanc02:** Mae'r gyllideb ar gyfer cynnal gweithgareddau chwaraeon wedi ei leihau unwaith eto eleni gan Chwaraeon Cymru. Bydd cynnal yr un lefel o berfformiad felly yn her ac o ganlyniad nid oes targed rhy uchelgeisiol wedi ei osod. Bydd cynnal yr un lefel o berfformiad yn ganlyniad da o dan yr amgylchiadau.<br><br>**Arolwg Bodlonrwydd Cwsmer:** Mae'r Gwasanaeth wedi datblygu trefn newydd ar gyfer mesur bodlonrwydd cwsmer. Mae'r ffigwr yma yn galonogol iawn fel man cychwyn gyda 354 o ymatebion wedi eu derbyn. Wrth ddadansoddi'r data, nodwyd bod angen gwella agweddau glendid, ansawdd cyfleusterau megis loceri a gofod parcio mewn rhai cyfleusterau os am gyrraedd disgwyliadau'r defnyddwyr yn llawn. | | | | |
| **Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | | | | |
| Diogelu 7 | Canran o gynadleddau achos lle bu glywed llais/ barn y plenty (ac eithrio plant o dan 7 oed) | 81% | 83% | 85% | 75% |
| LLes PMG1 | Cynllun Trosiannol wedi ei gytuno ar gyfer plant anabl yn 16 oed | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Lles PMG 2 | Cynllun llwybr clir wedi ei gytuno ar gyfer plant mewn gofal | 100% | 100% | 100% | 100% |
| PMC33/SCC004 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn | 4.9% | 6.2% | 7.7% | 1% |
| SCC/041(b) | Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd wedi cael cynghorydd personol wedi'i ddyrannu iddynt | 100% | 100% | 100% | 100% |
| SCC/024 | Canran y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a chanddynt Gynllun Addysg Bersonol o fewn 20 diwrnod ysgol i dderbyn gofal neu ymuno ag ysgol newydd yn ystod y flwyddyn | 86.5% | 82.1% | 37.9% | 66.7% |
| SCC/025 | Canran yr ymweliadau statudol a phlant sy'n derbyn gofal oedd yn fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | 83.7% | 89% | 86.9% | 88.5% |
| SCC/041 (a) | Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol, a chanddynt gynlluniau llwybr yn ôl yr angen | 91.2% | 100% | 100% | 100% |
| Diogelu 1 | Cyfradd y plant a gafodd eu trafod mewn goruchwyliaeth, lle rhoddwyd ystyriaeth i niwed arwyddocaol | 100% | 100% | 100% | 100% |
| BC01 | Asesiad SOGS (Schedule of Growing Skills) 2 oed canran plant Dechrau'n Deg yn cyrraedd eu norm neu yn uwch nai norm datblygiadol | - | - | 56% | Adrodd yn dymhorol |
| BC02 | Asesiad SOGS 3 oed Canran Plant Dechrau'n Deg yn cyrraedd eu norm neu yn uwch nai norm datblygiadol | - | - | 51% | Adrodd yn dymhorol |
| BC03 | Canran presenoldeb plant sy'n 2 oed yn Dechrau'n Deg | - | - | 83% | 86% |
| BC04 | Nifer o'r pecynnau cymorth uwch rhiantu sy'n arwain at deithio pellter cadarnhaol | - | - | 48% | 83% |
| Diogelu 2 | Cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno I Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau | - | 98% | 97% | 91% |
| CPS3 | Canran o gynnydd a waned gan deuluoedd yn dilyn ymyrraeth y Tîm o Amgylch y Teulu (ar gyfartaledd) | - | - | 25.3% | 22% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| CSP - lleol | Canran o deuluoedd sydd wedi adrodd 'cynnydd' yn dilyn derbyn gwasanaeth gan TAT (Tîm o Amgylch y Teulu) | | | | 91.4% |
| SCC021 | Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn | - | 93.8% | 90.8% | 90.4% |
| PMC32 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd â phrofiad o symud ysgol unwaith neu fwy yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth | 22.8% | 16.10% | 18.1% | 12.6% |
| | **Sylwadau:**<br>**Diogelu 7 -** 198 o blant wedi eu trafod mewn cynadleddau achos (13 cyn-geni). O'r rhain roedd 77 yn 7 oed neu drosodd. 58/77 o blant wedi rhoi barn mewn cynhadledd achos rhwng Ebrill a Medi 2016.<br><br>**LlesPMG1** – Cohort yn 0 yn y cyfnod (dim plentyn anabl mewn gofal ac yn 16 oed)<br><br>**PMC33 (SCC004)** – Tri o blant wedi bod mewn o leiaf 3 lleoliad yn y cyfnod. 217 o blant mewn gofal ar ddiwedd Medi 2016.<br><br>**SCC024** - Yn ystod yr ail chwarter roedd 9 o blant heb gael cynllun addysg ar o fewn 20 diwrnod. O'r rhain roedd 5 o'r plant yn mynychu ysgolion all-sirol. Ym Medi 2016 roedd 10 o blant wedi trosglwyddo o ysgolion cynradd i uwchradd - roedd 7 o'r rhain gyda chynllun addysg wedi ei gwblhau ar amser.<br><br>**SCC025 -** 1091 o ymweliadau statudol wedi eu cwblhau ers Ebrill 2016 gyda 966 wedi eu gwneud o fewn yr amserlen statudol. Cafodd 54% o'r ymweliadau hwyr eu gwneud rhwng 1 a 10 diwrnod o'r targed.<br><br>**SCC021 -** 301 o adolygiadau statudol wedi eu gwneud ers Ebrill 2016. Cafodd 39% o'r adolygiadau hwyr eu gwneud rhwng 1 a 10 diwrnod o'r targed.<br><br>**PMC32 (SCC002) -** 17 o blant wedi symud ysgol ers Ebrill 2016. Roedd 56% o blant wedi symud ysgol am resymau positif i'r plentyn. | | | | |

# CYNGOR GWYNEDD

## ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 13 Rhagfyr, 2016 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Gareth Thomas,<br>Aelod Cabinet Addysg |
| **Swyddog Cyswllt:** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679685 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Addysg |

### 1. CYFLWYNIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Addysg. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yn y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau yn yr Adran.

1.2. Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r timau rheoli oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r pwyllgor craffu.

1.3. Ar y cyfan, rwy'n gyfforddus gyda'r perfformiad prosiectau cynllun Strategol, gyda chynnydd da ar ran fwyaf ohonynt. Yn ogystal, mae'r perfformiad yn gyffredinol dda ar draws y cyfnodau allweddol, ond mae yna feysydd sydd angen sylw pellach er mwyn sicrhau gwelliant:

- **Sector Cynradd** - Rwyf wedi gofyn i'r Adran rhoi chwydd wydr ar berfformiad Cyfnod Sylfaen gan fod canlyniadau yn statig dros y blynyddoedd diwethaf. Wrth fynd i'r afael a'r rhwystrau sy'n atal ni rhag gwella, mae'r adran yn canolbwyntio ar 3 maes penodol. Rwyf hefyd wedi gofyn am ystyriaeth bellach ar sut i godi'r canran presenoldeb yn ein hysgolion cynradd.
- **Perfformiad mewn pynciau penodol** - Yr angen i gysoni perfformiad ym mhynciau penodol megis Mathemateg a Saesneg ac mae'r Awdurdod yn gweithio gydag ysgolion i gynnig cefnogaeth bellach iddynt. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud gyda'r Brifysgol er mwyn targedu'r broblem o recriwtio athrawon lleol gyda'r sgiliau a chymwysterau perthnasol yn y pynciau hyn.



**Cyswllt:**
01286 679729 • 01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

2.2 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r ffigyrau proffil amgen isod ar gyfer Cynllun P7 Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol:

| **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| 26,238 | 98,356 | 436,004 | 247,863 | 808,461 |

Gweler gwybodaeth bellach yn 6.1 o'r adroddiad yma.

## 3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a'n bod yn ymateb yn rhagweithiol i'r angen i fod yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd yn unol â'r disgwyl.

## 4. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL

### 4.1. P1 Gwella a Chysoni Safonau Addysg

4.1.1 Pwrpas y prosiect yma yw gwella a chysoni safonau addysg ar draws Gwynedd er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni'r safonau uchaf i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau.

4.1.2 Mae trefn newydd wedi'i sefydlu ar gyfer monitro perfformiad ac ansawdd ar bob lefel yn ysgolion Gwynedd drwy'r Bwrdd Ansawdd Sirol (BAS). Mae'r BAS yn caniatáu i'r Awdurdod a GwE gael darlun cyflawn o berfformiad ac ansawdd yr ysgolion, er mwyn targedu'r ysgolion sydd yn tanberfformio.

4.1.3 Mae gweithredu'r model newydd o gefnogi'r ysgolion er mwyn gweld gwelliannau cyfnod allweddol yn parhau. Gellir gweld tystiolaeth o'r effaith mae'r prosiect yma wrth edrych ar restr categoreiddio ysgolion ar gyfer 2016-17 a gafodd ei gyhoeddi yn ddiweddar **(Atodiad 1).** Mae'r rhestr yma yn amlygu gwelliannau yn y sector uwchradd a chynradd. Eleni, mae 11 allan o'r 14 ysgol uwchradd wedi derbyn y dyfarniad uchaf (A neu B). Yn y cynradd mae'r proffil yn dangos bod 89.2% o'r ysgolion wedi derbyn y dyfarniadau uchaf. Mae rhestr yma yn dangos gwelliant ers blwyddyn ddiwethaf.

### 4.2. P2 Gwella Arweinyddiaeth a Rheolaeth

4.2.1 Pwrpas y prosiect yma yw gwella amodau arweinyddiaeth er mwyn codi safonau. Byddwn yn gweithredu ar gynigion fydd yn gwella arweinyddiaeth a rheolaeth, gyda'r bwriad o symud tuag at y nod bod penaethiaid ysgolion yn ddigyswllt, hynny yw, nad ydynt yn dysgu plant.

4.2.2 Mae Cabinet Cyngor Gwynedd eisoes wedi cefnogi argymhelliad i ymgynghori gydag ysgolion a llywodraethwyr ar yr egwyddorion craidd a fydd yn gosod sylfeini ar gyfer sefydlu cyfundrefn '*Addysg i Bwrpas i Wynedd*'. Ers i mi adrodd i chi tro diwethaf, mae'r prosiect wedi bod yn canolbwyntio ar ddylunio strwythur arweinyddiaeth newydd, a'r cysyniad o '*Ysgol Gwynedd*'.

4.2.3 Mae'r Cyngor yn awyddus i ddatblygu'r egwyddorion ar y cyd gyda'r proffesiwn, llywodraethwyr a rhieni. O ganlyniad, mae cyfres o sesiynau galw heibio yn cael

eu cynnal ar draws Gwynedd dros yr wythnosau nesaf ar gyfer llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned ehangach. Bydd yr un olaf yn cael ei gynnal cyn y Nadolig. Bydd cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn parhau hyd dymor Gwanwyn 2017 ac yn bwydo maes o law i'r weledigaeth newydd ar gyfer y gyfundrefn addysg.

4.2.4 Mae'r gwaith o ddatblygu arweinyddiaeth yn mynd rhagddo ar gyflymder da, gyda gwaith wedi cychwyn ar gynllunio rhaglen i gefnogi arweinwyr y dyfodol ac adnabod unigolion addas. Yn ogystal, mae rhaglen datblygu ychwanegol wedi'i chyflwyno ar gyfer Arweinwyr canol ble mae elfen o bryder am eu gweithredu.

4.2.5 Rwyf yn grediniol bod statws yn arolygiadau diweddar yn dangos bod y gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu arweinyddiaeth wedi cymryd gafael a gwneud gwahaniaeth yn ein hysgolion. Mae'r proffil arolygiadau yn gadarnhaol - gweler **Atodiad 2**. Bellach, nid oes yr un ysgol mewn categori statudol a dim ond dwy ysgol sydd mewn categori Monitro Estyn. Yn Nhachwedd 2015 roedd 14.8% o ysgolion mewn categori dilyniant. Bellach, erbyn Tachwedd eleni, mae'r ffigwr wedi gostwng i 3.6%.

**4.3. Rhaglen Rhwydwaith o Ysgolion Hyfyw i'r Dyfodol**

**4.3.1 P3 Ysgol Hafod Lon**

Pwrpas y prosiect yma yw darparu ysgol arbennig i ddisgyblion Meirionnydd a Dwyfor yn dilyn y penderfyniad i gau'r adeilad Ysgol Hafod Lon bresennol.

Mae'r ysgol newydd bellach wedi'i agor. Bydd yr Uned Breswyl yn agor yn y fuan yn y flwyddyn newydd.

**4.3.2 P4 Ysgol Bro Idris**

Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu un Ysgol Ddilynol Ddalgylchol cyfrwng Cymraeg 3-16 oed yn nalgylch y Gader.

Mae'r gwaith adeiladu yn mynd yn ei flaen yn unol â'r amserol a osodwyd. Mae aelodau corff cysgodol Ysgol Bro Idris yn parhau i ystyried y strwythur staffio priodol ar gyfer y sefydliad a'r trefniadau amrywiol ynghlwm a sefydlu'r ysgol newydd.

Mae'r Corff Cysgodol wedi bod yn ystyried y posibilrwydd o leoli disgyblion Blynyddoedd 5,6,7 ac 8 ar yr un safle er mwyn sicrhau'r cydweithio gorau posib, a galluogi dilyniant effeithiol o addysg gynradd i uwchradd. Fel rhan o'r broses, mae'r Corff Cysgodol wedi bod yn ymgysylltu gyda rhieni ac athrawon ar sut i wireddu'r cynllun trwy sesiynau galw mewn, un i un, yn ddiweddar. Yn sgil derbyn yr adborth o'r sesiynau hyn, penderfynwyd yng nghyfarfod diwethaf y Corff y bydd disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn derbyn eu haddysg ar y safleoedd cynradd pan fydd yr ysgol newydd yn agor ym Medi 2017.

Bydd trafodaethau yn parhau o ran ymchwilio i'r dulliau gorau o addysgu a dysgu'r disgyblion.

### 4.3.3 P5 Ysgol Glancegin

Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau buddsoddiad i ddarparu adeilad newydd i Ysgol Glancegin sydd wedi ei lleoli ym Maesgeirchen, Bangor.

Mae'r gwaith adeiladu yn mynd yn ei flaen yn unol â'r amserlen a nodwyd. Bu ymweliad gweinidogol ar y safle ar 11 Tachwedd. Mae trafodaethau yn parhau gyda'r partneriaid allweddol ar gyfer y posibilrwydd o sefydlu Canolfan Deulu Integredig ar y safle.

### 4.3.4 P6 Dalgylch y Berwyn

Agorwyd cae 3G newydd y Bala ar 8fed o Hydref, a byddwn yn gweithio'n agos gydag ysgolion y dalgylch dros y misoedd nesaf i sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o'r adnodd. Gweler adroddiad ar ' Campws Dysgu y Bala' am wybodaeth pellach.

### 4.4 P7 Trawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

Yn dilyn derbyn cymeradwyaeth i'r Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Medi 2016, mae'r broses o ymgynghori yn ffurfiol wedi cychwyn efo'r gweithlu. Mae'r broses o addasu'r strategaeth a'r strwythurau wedi cychwyn gyda'r bwriad o adrodd i'r gweithlu ar y strwythur terfynol dechrau mis Rhagfyr.

Mae'n deg nodi bod amserlen y cynllun wedi llithro o'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol, a hynny oherwydd bod trafodaethau i ymuno mewn partneriaeth ffurfiol hefo Cyngor Ynys Môn i weithredu'r strategaeth wedi cymryd yn hirach na'r hyn yr oeddem wedi'i ddisgwyl yn wreiddiol. Mae hyn wedi effeithio ar y proffil arbedion sydd ynghlwm a'r cynllun yma, ond byddaf yn manylu ar hynny yn rhan 6 - Arbedion.

## 5. MESUR PERFFORMIAD

### 5.1. Mesurau Perfformiad Addysg (yn cynnwys canlyniadau Haf 2016)

**Pwynt Gweithredu o'r cylch diwethaf**
**Gofynnwyd am adroddiad yn nodi canlyniadau Lefel A Gwynedd i gyd (gan gynnwys canlyniadau Grŵp Llandrillo Menai - Safle Meirion Dwyfor)**
Mae'r dadansoddiad canlyniadau Lefel A Ysgolion Uwchradd y Sir wedi'i gwblhau ond mae'r adran yn disgwyl am wybodaeth bellach am ganlyniadau'r Sector Addysg Bellach.

5.1.1 Rwy'n atodi copi o fesurau'r adran yn ***Atodiad 3***.

5.1.2 Mae'r mesurau yn dangos bod perfformiad Gwynedd yn gyffredinol dda ar draws y cyfnodau allweddol. Bydd y ffigyrau yma yn cael eu cadarnhau'n derfynol ym mis Rhagfyr, ond dyma'r prif negeseuon:

- **Sector Cynradd**: Fel mae'r ffigyrau yn awgrymu, mae'r perfformiad yn y **Cyfnod Sylfaen** wedi bod yn static dros y tair blynedd diwethaf. Er mwyn ceisio ymateb i'r sefyllfa a gwella'r canlyniadau, mae'r adran wedi comisiynu Ymgynghorydd Her Cyfnod Sylfaen i roi sylw i dri maes sef

***gwella ansawdd arweinyddiaeth a'r dysgu; tracio perfformiad a chynnydd*** er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn cyflwyno targedau heriol a chyraeddadwy ar gyfer y Cyfnod Sylfaen; ***a sefydlu grwpiau o ymarferwyr arweiniol i'r Cyfnod Sylfaen*** a chynhyrchu arweiniad pellach i'r ysgolion.

- **Sector Uwchradd**: Mae canran ***Cyfnod Allweddol 3*** yn llwyddiannus eto eleni (92%), gyda'r perfformiad wedi bod yn sylweddol uwch na'r ffigwr Cenedlaethol am y pum mlynedd diwethaf. Mae Gwynedd wedi perfformio orau o holl awdurdodau Cymru am bedair blynedd.
- Mae'r awdurdod hefyd wedi gweld gwelliant ym mherfformiad ***Cyfnod Allweddol 4,*** gyda'r cynnydd sylweddol yng nghanran sy'n llwyddo i gyrraedd trothwy lefel 2+ (cyfwerth a phump TGAU graddau A i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg).
- **Cysoni perfformiad mewn pynciau penodol:** Ceir cydnabyddiaeth bod angen cysoni a gwella perfformiad ym mhynciau Mathemateg a Saesneg. Mae cefnogaeth bellach ac arweiniad yn cael ei gynnig i'r ysgolion hynny sydd yn dangos gwendid yn y pynciau hyn.

**5.2. Presenoldeb**

5.2.1 Adroddais dro diwethaf ar y cynnydd rhagorol yng nghanran presenoldeb ein hysgolion uwchradd gyda Gwynedd yr awdurdod cyntaf i gyrraedd presenoldeb uwch na 95% ar gyfer ysgolion uwchradd ac arbennig.

5.2.2 Rydym bellach wedi cael cadarnhad o ffigyrau presenoldeb ysgolion cynradd, sydd yn 95.4% ar gyfer Haf 2016. Mae hwn yn gynnydd o'r ffigwr flwyddyn ddiwethaf, ond mae'r angen yn parhau i geisio sicrhau ein bod yn gwella'r perfformiad. Mae pob ysgol gyda chanran yn is na 94% bellach wedi derbyn ymweliad her presenoldeb ym mis Medi ac wedi derbyn cyngor ac awgrymiadau ar sut i wella'r perfformiad.

**6. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL**

6.1. Ers i mi adrodd i chi tro diwethaf, fe welir bod rhywfaint o gynnydd o ran cynllun Ffordd Gwynedd - Uned Gyflogau a Chontractau yn 2016-17 gyda'r amserlen o sefydlu'r system newydd i ddechrau ym mis Ebrill 2017 a gweithredu'r arbediad yn llawn ym mlwyddyn 2017-18. Fel rwyf eisoes wedi'i nodi, mae'r amserlen arbedion sydd ynghlwm a chynllun P7 Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi llithro o ganlyniad i'w ehangu i gydweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn. Mae hyn wedi arwain at yr angen i'r Adran gyflwyno proffil amgen o ran gwireddu'r arbedion fel y nodir isod. Mae'n bwysig nodi bod y ffigyrau yma yn parhau i ddatblygu:

**Proffil presennol**:

| 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 26,238 | 445,364 | 336,859 | | 808,461 |

**Proffil Amgen**:

| 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 26,238 | 98,356 | 436,004 | 247,863 | 808,461 |

6.2 Mae gwaith yn parhau i gyflenwi'r £4.3m o arbedion ysgolion oedd yn rhan o'r strategaeth ariannol a gymeradwywyd ym mis Chwefror 2016. Bydd angen trafodaeth a chytundeb ar yr union fodd i wireddu rhai o'r arbedion yn 2018-19.

**7. MATERION ERAILL**

7.1 Mae sefyllfa wedi codi yn ddiweddar lle mae Huw Foster Evans, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE wedi derbyn swydd gyda Llywodraeth Cymru. Yn sgil hyn, roedd awdurdodau Gogledd Cymru yn dymuno cael adroddiad ar gryfderau a gwendidau'r trefniadau presennol er mwyn cymryd y cyfle i sicrhau trefniadau hyfyw a chynaliadwy i'r dyfodol.

7.2 Gofynnwyd i Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg Gwynedd ymgymryd a'r dasg o wneud hynny gan hefyd ymarfer swyddogaethau'r Rheolwr Gyfarwyddwr, yn rhan amser, tan fydd yr adroddiad yn barod a chyfeiriad y dyfodol wedi'i osod. Mater i'r Prif Weithredwr oedd penderfynu a oedd am gytuno i hynny neu beidio ac 'roedd yntau a minnau wedi ein bodloni nad ydi hyn yn mynd i lesteirio ein gallu i yrru ymlaen a'r rhaglen heriol sydd gennym yma yng Ngwynedd . Mae Arwyn Thomas eisoes wedi cychwyn ar y gwaith ers hanner tymor yr Hydref a'r gobaith yw y bydd yna adroddiad ar gael yn fuan yn y flwyddyn newydd .

7.3 Credaf ei fod yn arwydd o'r parch sydd gan awdurdodau eraill at drefniadau addysgol Gwynedd eu bod wedi gwnedu cais o'r fath.

**8. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

8.1. Dim i'w nodi.

**9. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

**9.1. Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Prif Weithredwr:**

"Mae'r adroddiad i'w groesawu nid yn unig am ei fod yn nodi cynnydd da yn gyffredinol ond ei fod hefyd yn agored am feysydd sydd angen sylw:-

- Y Cyfnod Sylfaen, lle na welwyd gwella ers tair mlynedd ac mae angen gwaith i ddadansoddi pam bod hynny a beth y gellir ei wneud i newid y sefyllfa
- Cysoni Perfformiad mewn pynciau penodol (Mathemateg a Saesneg), problem sydd wedi bod yn hysbys ers peth amser ond mae'n ymddangos bod camau ar waith nawr allai helpu gyda'r sefyllfa yn y tymor byr a hwy
- Lefel A, lle y gwnaed cais am ddadansoddiad o ganlyniadau sir gyfan

Mae'n amlwg, at y dyfodol, y bydd rôl allweddol i'r Bwrdd Ansawdd Sirol newydd ac mae'r ffocws ar ansawdd a godwyd dro yn ôl yn yr Ymchwiliad Craffu Ansawdd Addysg, i'w groesawu. Diau y bydd yr Aelod Cabinet yn medru adrodd eto ar effaith gwaith y Bwrdd hwnnw maes o law."

**ii. Y Swyddog Monitro:**

"Dim sylwadau o ran priodoldeb."

**iii. Y Pennaeth Cyllid:**

"Yn rhan 4.4 o'r adroddiad mae eglurhad o lithriad amserlen gweithredu cynllun Trawsffurfio'r Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad - llithriad sy'n

gysylltiedig gyda thrafodaethau i ymuno mewn partneriaeth ffurfiol gyda Chyngor Môn. Ymhellach, mae rhan 6.1 o'r adroddiad yn gosod allan proffil diwygiedig ar gyfer gwireddu'r arbedion £808,460 ac erbyn hyn byddwn yn cynhaeafu £347,000 yn llai o arbedion na'r hyn gynlluniwyd yn wreiddiol yn 2017/18.
Cymeraf, os bydd y Cabinet yn derbyn yr eglurhad am y llithriad, bydd yn gofyn i mi a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau adlewyrchu'r proffil arbedion diwygiedig yn strategaeth ariannol y Cyngor, a gellid dygymod gyda hynny ar gyfer 2017/18.
Fodd bynnag, bydd aelodau'n cofio y bu cryn fuddsoddiad (£1.38m o'r Gronfa Trawsffurfio) er mwyn sicrhau'r arbedion £808,460 yma, felly mae'n rhesymol i ddisgwyl i'r Aelod Cabinet a'r Pennaeth Addysg gadw'r prosiect Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad ar yr amserlen ddiwygiedig o hyn ymlaen, ac i ystyried os dylai'r bartneriaeth gyda Chyngor Môn gynhaeafu mwy o arbedion na'r hyn roedd cynllun Gwynedd yn unig yn ei chynnig."

**9.2. Barn yr Aelod Lleol:**

9.2.1 Ddim yn fater lleol.

**9.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

9.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Rhestr Categoreiddio Ysgolion 2016 |
| **Atodiad 2** | Data Arolygiadau Ysgolion |
| **Atodiad 3** | Mesurau Adran Addysg |

**Dogfennau Cefndirol:** Dim.

## ATODIAD 1 – RHESTR CATEGOREIDDIO YSGOLION GWYNEDD 2016

| | Gwynedd : Cynradd | Cat: Estyn | Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyffryn Ogwen | | | | | |
| 1 | Bodfeurig | | 2 | A | |
| 2 | Penybryn, Bethesda | | 1 | A | |
| 3 | Llanllechid | | 2 | A | |
| 4 | Rhiwlas, Bangor | | 2 | B | |
| 5 | Abercaseg, Bethesda | | 1 | A | |
| 6 | Tregarth | | 1 | A | |
| Brynrefail | | | | | |
| 1 | Gwaun Gynfi | | 2 | B | * |
| 2 | Llanrug | | 2 | B | * |
| 3 | Bethel | | 2 | A | |
| 4 | Cwm y Glo | | 2 | B | |
| 5 | Dolbadarn | | 2 | B | * |
| 6 | Penisarwaun | | 3 | B | * |
| 7 | Waunfawr | | 3 | B | * |
| Dyffryn Nantlle | | | | | |
| 1 | Bro Llifon | | 3 [D/B] | B | * |
| 2 | Brynaerau | | 2 | A | |
| 3 | Llanllyfni | | 2 | B | |
| 4 | Baladeulyn | | 1 | C | |
| 5 | Nebo | | 2 | B | |
| 6 | Bro Lleu | | 1 | A | |
| 7 | Talysarn | | 1 | A | |
| Friars/Tryfan | | | | | |
| 1 | Glanadda | | 2 | D | |
| 2 | Glancegin | | 1 | B | * |
| 3 | Babanod Coedmawr | | 2 | C | |
| 4 | Garnedd | | 2 | A | * |
| 5 | Felinheli | | 2 | B | |
| 6 | Hirael | | 3 | B | |
| 7 | Faenol | | 1 | A | |
| 8 | Llandygai | | 1 | B | * |
| 9 | Cae Top | | 1 | A | |
| 10 | Ein Harglwyddes | | 4 | B | ? ? |
| Syr Hugh Owen | | | | | |
| 1 | Gelli | | 1 | B | |
| 2 | Felinwnda | | 2 | B | * |
| 3 | Rhosgadfan | | 3 | D | |
| 4 | Rhostryfan | | 3 | B | |
| 5 | Hendre | | 2 | B | |
| 6 | Bontnewydd | | 3 | A | * |
| 7 | Maesincla | | 1 | B | * |
| 8 | Llandwrog | | 3 | B | * |
| 9 | Santes Helen | | 4 | C | |
| Tywyn | | | | | |
| 1 | Craig y Deryn | MA | 4 | B | |
| 2 | Dyffryn Dulas | | 2 | B | |
| 3 | Penybryn | | 3 | B | * |
| 4 | Pennal | | 3 | B | |
| Gader | | | | | |
| 1 | Brithdir | | 2 | A | |
| 2 | Dinas Mawddwy | | 1 | B | * |
| 3 | Ganllwyd | | 4 | B | ? ? |
| 4 | Llanelltyd | | 3 | B | |
| 5 | Ieuan Gwynedd | | 3 | B | |
| 6 | Friog | | 3 | A | * |
| 7 | Dolgellau | | 2 | B | |
| Moelwyn | | | | | |
| 1 | Bro Cynfal | ME | 3 | C | |
| 2 | Edmwnd Prys | | 3 | B | |
| 3 | Manod | | 1 | B | * |
| 4 | Tanygrisiau | | 2 | B | |
| 5 | Bro Hedd Wyn | | 4 | B | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 6 | Maenofferen | | 2 | A | |
| Berwyn | | | | | |
| 1 | Bro Tegid | | 3 | B | * |
| 2 | O.M.Edwards | | 1 | A | |
| 3 | Bro Tryweryn | | 1 | A | |
| 4 | Ffridd y Llyn | | 2 | A | |
| 5 | Beuno Sant | | 3 | A | * |
| Ardudwy | | | | | |
| 1 | Traeth | | 3 | B | * |
| 2 | Dyffryn Ardudwy | | 4 | B | |
| 3 | Llanbedr | ME | 3 | C | |
| 4 | Garreg | | 3 | B | * |
| 5 | Cefn Coch | | 1 | A | |
| 6 | Talsarnau | | 2 | B | # |
| 7 | Tan y Castell | | 2 | B | * |
| Glan y Mor | | | | | |
| 1 | Abererch | | 2 | A | |
| 2 | Chwilog | | 1 | B | |
| 3 | Bro Plenydd | | 2 | B | * |
| 4 | Llanaelhaearn | | 2 | C | |
| 5 | Llanbedrog | | 3 | B | * |
| 6 | Llangybi | | 2 | C | |
| 7 | Pentreuchaf | | 3 | A | * |
| 8 | Eifl | | 2 | C | |
| 9 | Cymerau | MA | 1 | B | * |
| Botwnnog | | | | | |
| 1 | Nefyn | | 2 | A | * |
| 2 | Abersoch | | 3 | B | |
| 3 | Crud y Werin | | 3 | B | |
| 4 | Edern | | 2 | B | * |
| 5 | Babanod Morfa Nefyn | | 2 | A | |
| 6 | Sarn Bach | | 2 | A | * |
| 7 | Tudweiliog | | 1 | B | * |
| 8 | Pont y Gof | | 2 | B | * |
| 9 | Foelgron | | 2 | B | |
| Eifionydd | | | | | |
| 1 | Beddgelert | | 1 | B | * |
| 2 | Borth y Gest | | 2 | B | * |
| 3 | Treferthyr | | 3 | B | |
| 4 | Garndolbenmaen | | 1 | B | * |
| 5 | Eifion Wyn | | 1 | A | |
| 6 | Gorlan | | 3 | B | |
| 7 | Llanystumdwy | | 3 | B | * |
| Ysgolion Arbennig | | | | | |
| 1 | Pendalar | | - | B | * |
| 2 | Hafod Lon | | - | A | |

| | Gwynedd : Uwchradd | Cat: Estyn | Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Ardudwy | | 2 | B | |
| 2 | Berwyn | | 2>3 | B | |
| 3 | Botwnnog | | 2 | B | |
| 4 | Brynrefail | | 1 | B | * |
| 5 | Dyffryn Nantlle | | 3 | C | |
| 6 | Dyffryn Ogwen | | 1 | A | |
| 7 | Eifionydd | | 2>3 | C | |
| 8 | Friars | | 1 | B | * |
| 9 | Gader | | 1 | C | |
| 10 | Glan y Mor | | 1 | B | |
| 11 | Moelwyn | | 2>3 | B | * |
| 12 | Syr Hugh Owen | | 1>3 | B | |
| 13 | Tryfan | | 1 | B | * |
| 14 | Tywyn | | 1 | B | |

## ATOODIAD 2 – DATA AROLYGIADAU YSGOLION GWYNEDD (ERS IONAWR 2015)

| Ysgol | Sector | Dyddiad Arolygiad | Cwestiwn Allweddol 1 | Cwestiwn Allweddol 2 | Cwestiwn Allweddol 3 | Perfformiad Presennol | Rhagolygon Gwella | Dilyniant>Sefyllfa gyfredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Coedmawr | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn>allan o gategori |
| Dolgellau | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Digonol | Digonol | Anfoddhaol | Digonol | Anfoddhaol | Mesurau Arbennig>allan o gategori |
| Bro Plenydd | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Tanygrisiau | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Ffridd y Llyn | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Traeth | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> allan o gategori |
| Llanaelhaearn | Cynradd | Haf 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn>allan o gategori |
| Llanrug | Cynradd | Haf 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> allan o gategori |
| Llanelltyd | Cynradd | Haf 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> allan o gategori |
| Beddgelert | Cynradd | Haf 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> Allan o gategori |
| Hirael | Cynradd | Haf 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn>allan o gategori |
| Morfa Nefyn | Cynradd | Hydref 2015 | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Monitro Awdurdod> allan o gategori |
| Foelgron | Cynradd | Hydref 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Garndolbenmaen | Cynradd | Hydref 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Pont y Gof | Cynradd | Hydref 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Cymerau | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> |
| Nefyn | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Manod | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Llanllechid | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Dim dilyniant |
| Craig y Deryn | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> |
| Waunfawr | Cynradd | Haf 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Bro Cynfal | Cynradd | Haf 2016 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn > |
| Cae Top | Cynradd | Haf 2016 | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Dim dilyniant |
| Bodfeurig | Cynradd | Hydref 2016 | Da | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Dim dilyniant |
| Llanbedr | Cynradd | Hydref 2016 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn> |
| Maenofferen | Cynradd | Hydref 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Rhiwlas | Cynradd | Hydref 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Borth y Gest | Cynradd | Hydref 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Penybryn, Tywyn | Cynradd | Hydref 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Dyffryn Nantlle | Uwchradd | Gwanwyn 2015 | Anfoddhaol | Digonol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Mesurau Arbennig>allan o gategori |
| Gader | Uwchradd | Gwanwyn 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Gwelliant Sylweddol> allan o gategori |
| Syr Hugh Owen | Uwchradd | Gwanwyn 2016 | Digonol | Da | Da | Digonol | Da | Monitro Estyn>allan o gategori |

## ATODIAD 3 – MESURAU ADRAN ADDYSG

| | | | | 2013-2014 | 2014-15 | 2015-16 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfeirnod | | | Mesur perfformiad | Perfformiad Haf 2014 | Perfformiad Haf 2015 | Perfformiad Haf 2016 | Cyfeiriad uchelgais |
| CB | CS Estyn | Cenedlaethol | | | | | |
| 1 | P1 A2 | EDU/017 | Canran y disgyblion 15 oed (ar y 31ain Awst blaenorol), mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sydd yn ennill pum gradd TGAU A*-C, yn cynnwys Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg – Trothwy Lefel 2+. | 61.1% | 63.3% | 68.6% | Gwelliant |
| 1 | P1 A2 | DANS08 | Canran disgyblion 16 oed sydd yn ennill 5 gradd TGAU graddau A* i C - Trothwy Lefel 2. | 87.7% | 88.9% | 88.6% | Gwelliant |
| 1 | P1 A2 | DANS07 | Canran disgyblion 16 oed sydd yn ennill 5 gradd TGAU graddau D i G - Trothwy Lefel 1. | 97.2% | 97.9% | 98.7% | Gwelliant |
| 1 | P1 A2 | DANS06 | Canran disgyblion 16 oed sydd yn ennill y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC), Gradd C neu uwch, mewn Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. | 60.5% | 62.4% | 67.4% | Gwelliant |
| 1 | P1 A2 | EDU/011 | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol. | 615.8 | 617.2 | 590.0 | Gwelliant |
| 1 | P1 A2 | | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau wedi gapio ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol. | 362.2 | 362.0 | 355.8 | Gwelliant |
| | P1 | DGD17 | Canran y bobl ifanc 16 - 18 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant. | 1.7% | 1.8% | I'w gadarnhau | Gwelliant |
| 1 | P1 | EDU/004 | Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd blwyddyn 9 (CA3), ac sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth (DPC). | 89.11% | 91.3% | 92.0% | Gwelliant |
| 5 | P1 | EDU/006ii | Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd | 81.20% | 83.2% | 83.7% | Gwelliant |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | CA3. | | | | |
| 5 | 13 | GY06 | Canran disgyblion enillodd lefel 3 da neu uwch yn CA2 a gafodd asesiad athro yn y Gymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd CA3. | 87.4% | 89.5% | 88.7% | Gwelliant |
| 1 | P1 | - | Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd blwyddyn 6 (CA2), ac sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig, mewn Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth (DPC). | 86.0% | 89.5% | 89.8% | Gwelliant |
| 2 | P1 | - | Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (CS), ac sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (DCS). | 85.2% | 86.8% | 86.8% | Gwelliant |
| 6 | P7 | EDU/008a | Nifer o waharddiadau parhaol yn yr ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd. | 0 | 3 | 0 | Cynnal |
| 6 | P7 | EDU/008b | Nifer o waharddiadau parhaol yn yr ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academaidd. | 4 | 3 | 3 | Gwelliant |
| 4 | P1 | EDU/016a | Canran presenoldeb disggyblion yn yr ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd. | 95.10% | 95.19%% | 95.45% | Gwelliant |
| 4 | P1 | EDU/016b | Canran presenoldeb disgyblion yn yr ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academaidd. | 94.20% | 94.6% | 95.16% | Gwelliant |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 13eg Rhagfyr 2016 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Adnoddau |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Peredur Jenkins |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Adnoddau. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Timau Rheoli perthnasol (oedd hefyd ar gyfer y cylch yma fel arbrawf yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Craffu).

1.3 Ar y cyfan, rwy'n gyfforddus gyda pherfformiad prosiectau'r Cynllun Strategol a mesurau perfformiad yr wyf yn gyfrifol amdanynt neu fod camau priodol wedi eu cymryd er mwyn gwella perfformiad.

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

2. **Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

2.2 Gofynnir i'r Cabinet gytuno i yrru llythyr i Lywodraeth Cymru yn gofyn iddynt sicrhau fod unrhyw daliadau Lefi Prentisiaeth a wneir yn dod yn ôl i'r Cyngor ar gyfer cyflogi prentisiaid. Gweler gwybodaeth bellach yn 5.7, 5.8 a 5.9 o'r adroddiad yma.

3. **Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

4. **PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL**

***Cyngor Effeithiol ac Effeithlon***

4.1. **C1 Rhoi Ffordd Gwynedd ar waith - Pwrpas y prosiect hwn yw arwain timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, i herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac i ystyried a oes lle i wella.**

**Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi cwblhau 12 adolygiad gwasanaeth a hyrwyddo egwyddorion Ffordd Gwynedd ymysg rheolwyr y Cyngor.**

4.1.1 Fel yr adroddwyd y tro diwethaf mae'r gwaith yn parhau i fynd yn ei flaen o fewn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac erbyn hyn mae'r adolygiad yma wedi cyrraedd cam 3 sef y cam lle mae'r Tim Adolygu yn adrodd yn ôl ar eu canfyddiadau. Bydd adroddiad llawn ar wahân yn cael ei gyflwyno ar hyn maes o law.

4.1.2 Mae gweddill yr adolygiadau sydd ar y gweill (Cynnal a chadw ymatebol, Digartrefedd, Gwasanaethau Cefnogol, Gofal Cymdeithasol (Alltwen), Cynnal a Chadw wedi ei raglennu, Addysg a Phriffyrdd a Bwrdeistrefol) unai ar y cam lle y maent yn adrodd ar ganlyniad y cam arbrofi i dîm rheoli'r Uned/Unedau a'r Aelod Cabinet perthnasol neu wedi cyrraedd y cam gweithredu lle mae gweddill y gweithlu yn cael eu trosglwyddo i mewn i'r ffordd newydd o weithio.

4.1.3 Mae hyfforddi a newid diwylliant yr Aelodau a'r staff yn rhan allweddol o'r prosiect ac erbyn hyn mae'r cylch cyntaf o sesiynau hyfforddiant i Benaethiaid Adran ac Uwch Reolwyr gyda Vanguard wedi eu cwblhau ac mae'r adborth cychwynnol yn gadarnhaol.

4.1.4 Yn ogystal, mae sesiynau wedi eu cynnal dros yr wythnosau diwethaf ar gyfer Rheolwyr ar draws y Cyngor er mwyn canfod eu dealltwriaeth o Ffordd Gwynedd ac asesu'r cynnydd. Bydd y gwaith hwn yn parhau dros yr wythnosau nesaf a byddaf yn adrodd ar y materion a godwyd yn yr adroddiad nesaf. Mae nifer o bwyntiau wedi eu codi eisoes ac mewn ymateb rwyf wedi gofyn i'r tîm edrych ar sut y gallwn gynnal sesiynau dysgu trwy wneud i'r holl reolwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr egwyddorion.

**4.2 C2 Rhaglen datblygu arweinwyr - Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau fod arweinwyr o fewn Cyngor Gwynedd yn deall egwyddorion Ffordd Gwynedd, eu bod yn ymwybodol o beth sydd angen iddynt hwy ei wneud er mwyn atgyfnerthu**

**egwyddorion Ffordd Gwynedd drwy holl haenau'r sefydliad, a bod yna gyfundrefn yn ei le i sicrhau bod hynny'n digwydd yn gyson.**

**Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi cynnal rhaglen o ddatblygiad personol ar gyfer pob aelod o Grŵp Rheoli'r Cyngor a'r Cabinet fydd yn eu harfogi i arwain ac atgyfnerthu'r diwylliant gwaith o fewn y Cyngor.**

4.2.1 Mae'r gwaith o ddatblygu arweinyddiaeth hefo'r uwch swyddogion yn parhau i fynd yn ei flaen. Fel yr ydych yn ymwybodol mae'r pwyslais o fewn y drefn werthuso newydd yn seiliedig ar drafodaeth barhaus gydag unigolion yn ystod y flwyddyn yn hytrach na "digwyddiad blynyddol". Nid ydym wedi llwyddo i gyfarch yr elfen hon eto ac o ganlyniad rwyf wedi bod yn cydweithio hefo'r Grŵp Rheoli er mwyn mabwysiadu fframwaith.

4.2.2 Bydd y fframwaith yn golygu bod gwerthuso parhaus yn digwydd rhwng y Pennaeth Adran a'r aelod o'r Tim Rheoli gydol y flwyddyn (Cyfarwyddwyr Corfforaethol gyda'r Prif Weithredwr) tra bo'r ddau Aelod Cabinet perthnasol yn mynychu un o'r cyfarfodydd gwerthuso yn flynyddol yn unig i'r dyfodol.

4.2.3 Er mwyn ceisio asesu os ydym wedi gwella arweinyddiaeth o fewn y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf rwyf wedi gofyn i'r Arweinydd Prosiect drefnu sesiwn ar gyfer y Tîm Arweinyddiaeth yn fuan er mwyn asesu os yw'r arweinyddiaeth wedi gwella. Bydd hyn yn ein galluogi i gymryd cam yn ôl ac asesu lle'r ydym wedi ei gyrraedd ac os yw wedi gwella i adnabod pa gamau a gymerwyd er mwyn cyrraedd lle'r ydym ar hyn o bryd.

4.2.4 Rwyf hefyd wedi gofyn i'r Arweinydd ystyried diffinio'r hyn y mae Arweinyddiaeth yn ei olygu i ni fel Cyngor fel ein bod yn gallu mesur cynnydd a gosod cyfeiriad ar gyfer y dyfodol.

4.3 **C6 Strategaeth Technoleg Gwybodaeth (TG) – Pwrpas y prosiect hwn yw gweithredu'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a luniwyd yn 2016.**

4.3.1 Ers i mi adrodd diwethaf mae cynnydd pellach wedi digwydd yng ngwaith y Strategaeth. Ar ddiwedd mis Hydref lansiwyd y gallu i drigolion Gwynedd wneud cais i dalu am y gwasanaeth bin gardd trwy'r sianel ddigidol ac yn ystod y 3 diwrnod cyntaf gwnaed 391 o geisiadau .

4.3.2 Yn ogystal mae gwaith wedi ei wneud i hwyluso gallu'r cyhoedd i gysylltu hefo'r Cyngor ac erbyn hyn mae gennym y gallu i gyfathrebu hefo'r trigolion trwy negeseuon testun. Mae'r gwaharddiad ar y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i swyddogion wedi ei godi hefyd.

4.3.3 Rydym hefyd wedi ymestyn y gefnogaeth wyneb yn wyneb sydd ar gael i'r defnyddwyr mewnol gydag aelod o'r Tim Desg Gymorth yn bresennol yn swyddfeydd Dolgellau a Phwllheli i ddarparu cefnogaeth unwaith yr wythnos. Yn amlwg mae'r gefnogaeth dros y ffon yn parhau gweddill yr amser.

**4.4 C7 System rheoli dogfennau a chofnodion electronig (EDRMS) - Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu system EDRMS fydd yn sicrhau bod trefniadau rhannu gwybodaeth y Cyngor yn llawer haws ac effeithiol.**

**Erbyn diwedd 2017, bydd o leiaf pump o adrannau'r Cyngor yn defnyddio system EDRMS.**

4.4.1 Ers i mi adrodd diwethaf mae 75% o'r Adran Addysg wedi trosglwyddo i ddefnyddio'r system a gwaith paratoi wedi cychwyn hefo'r Adran Cyllid gyda'r bwriad i ddechrau trosglwyddo ddiwedd Tachwedd/dechrau Rhagfyr.

4.4.2 Mae rhywfaint o bryder mai'r oll sy'n digwydd hefo'r system yw trosglwyddo gwybodaeth o un lle i'r llall gan atgynhyrchu ffeiliau sy'n bodoli eisoes yn hytrach na chlirio a chwynnu'r ffeiliau a ffolderi presennol a gosod strwythur corfforaethol. Bydd y Tim Rheoli Corfforaethol yn edrych ar hyn er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cyflawni'r hyn a ddylai a byddaf yn adrodd ar y canfyddiadau yn yr adroddiad nesaf.

### Cynllunio Ariannol

**4.5 CA4 Effeithlonrwydd pellach a modelau darparu gwasanaeth - Pwrpas y prosiect yma yw darganfod cynlluniau effeithlonrwydd pellach er mwyn lleihau maint y toriadau fydd eu hangen yn ogystal ag ymchwilio i feysydd lle mae'n bosib newid y model presennol o ddarparu gwasanaeth gan felly wneud arbedion.**

**Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi darganfod cynlluniau effeithlonrwydd pellach i'w gwireddu.**

4.5.1 Mae'r sefyllfa yn parhau i fod yn gymharol i'r hyn ag yr oedd pan yr adroddwyd diwethaf gyda gwerth £7.6 o gynlluniau effeithlonrwydd yn cael sylw a'u miniogi er mwyn cyfarch y targed o £7.25m o effeithlonrwydd pellach sydd wedi ei osod fel rhan o'r Strategaeth Ariannol 2016/17 i 2019/20.

4.5.2 Mae posibilrwydd y bydd rhywfaint o lithriad cyn dechrau gweithredu cynlluniau 2017/18 ond rhagwelir y bydd yr arbedion effeithlonrwydd yn ddigonol i gwrdd â gofynion y Strategaeth Ariannol.

4.5.3 Bu rhywfaint o lithriad yn y gwaith i edrych ar **Fodel Amgen Gofal Oedolion** oherwydd penderfyniad y Tim Arweinyddiaeth i ohirio penderfyniad nes gweld manylion ar sut mae'r Adran am gyflawni eu harbedion.

4.5.4 Yn achos y **Model Amgen Hamdden** fe gofiwch i ni ystyried yr achos dros dro a chymeradwyo buddsoddiad i wneud gwaith pellach gyda'r bwriad o gyflwyno drafft o achos busnes ym mis Mawrth 2017.

**5 PERFFORMIAD**

5.1 Mae ***Atodiad 1*** yn adrodd yn llawn ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio.

5.2 **ADRAN CYLLID**

5.2.1 Ceir 11 o Wasanaethau o fewn yr Adran Cyllid. Rwyf wedi herio mesurau'r **Gwasanaeth Risg ac Yswiriant, Archwilio Mewnol, Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys, Incwm, Trethi a Budd-daliadau** ac mae'r perfformiad yn dderbyniol ar hyn o bryd.

5.2.2 Mae'r **Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg** yn darparu gwasanaeth ac yn cynorthwyo a chefnogi gwasanaethau i fod yn effeithiol ac effeithlon. Yn y cyfarfod herio perfformiad diwethaf rwyf wedi gofyn iddynt ystyried os oes modd mesur **CD5.01 Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb** (sy'n cael ei fesur yn flynyddol ar hyn o bryd) yn amlach (megis bob chwarter) fel bod modd darogan y sefyllfa ar gyfer

gweddill y flwyddyn a chymharu hefo blynyddoedd blaenorol.'Rydym yn gwneud hyn drwy'r adolygiadau rheolaidd beth bynnag ac felly dim ond mater o'i gynnwys yn y mesurau ydyw.

5.2.3 Fel Cyngor mae gennym rôl i sicrhau ein bod yn talu ein credydwyr yn gywir ac yn amserol a'r **Gwasanaeth Taliadau Credydwyr** sy'n gyfrifol am wneud hyn. Gwelir fod y perffromiad ar gyfer y mesur **Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor) (CD6.01)** wedi parhau yn weddol sefydlog ar gyfer y cyfnod o Ebrill i Medi o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol (89% o'i gymharu â 89% yn 15/16 a 91% yn 14/15 a 13/14.

5.2.4 Fel y byddwch yn ymwybodol o fy adroddiadau blaenorol mae ffigyrau'r Adran Addysg wedi bod yn effeithio ar berfformiad y Cyngor yn erbyn y mesur hwn ac fel y gwelir o'r graff isod mae hyn yn parhau i fod yn wir. Nodir bod gwyliau'r haf o fewn ysgolion yn tueddu i effeithio ar y ffigyrau ar gyfer chwarter 2.

5.2.5 Erbyn hyn mae camau wedi eu rhoi yn eu lle i gofnodi perfformiad fesul ysgol er mwyn adnabod y rhai sy'n tanberfformio a'u targedu ond nid oes tystiolaeth fod hyn yn gwneud gwahaniaeth eto. Gobeithir hefyd yw y bydd y gefnogaeth ychwanegol fydd ar gael i ysgolion yn sgil sefydlu'r Swyddfeydd Ardal yn gwella perfformiad y mesur dros amser a byddaf yn parhau i gadw golwg ar y sefyllfa.

5.2.6 Rwyf hefyd ychydig yn bryderus o weld bod perfformiad yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i weld yn gwaethygu ac wedi gofyn i'r Uned gysylltu â'r Adran er mwyn sefydlu pam a rhoi camau yn eu lle os oes angen.




5.2.7 Pwrpas y **Gwasanaeth Cyflogau** yw talu staff yn gywir ac ar amser, gan hefyd gadw cyfrifon priodol ar gyfer talu cyrff allanol fel Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC). Gwelir bod rhywfaint o gynnydd yn y **Nifer achosion sydd yn arwain at addasiad pellach yn y cyflog (CD8.07)** gyda 147 o achosion yn ystod y cyfnod dan sylw o'i gymharu â 100 yn ystod yr un cyfnod yn 2015/16.

5.2.8 Er yn nodi bod y ffigwr hwn yn isel o ystyried nifer y taliadau a wneir (19,854 taliad) rwyf wedi gofyn i'r Gwasanaeth am ddadansoddiad o'r achosion dan sylw er mwyn ceisio sefydlu os oes rhywbeth y gellir ei wneud ac os oes unrhyw gamau y gellir eu cymryd er mwyn ymateb.

5.2.9 Mae'r **Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth** yn cefnogi a rhoi'r gallu i holl wasanaethau'r Cyngor wasanaethu dinasyddion Gwynedd mewn ffordd effeithiol, hyblyg a diogel. Gwelir bod **Canran yr argaeledd rhwydwaith (TG01)** wedi parhau yn gymharol sefydlog gyda'r perfformiad yn ystod y cyfnod dan sylw yn 99.93% o'i gymharu â 100% yn 15/16, 99.87% yn 14/15 a 99.9 yn 13/14.

5.2.10 Yn yr un modd mae **Canran yr argaeledd Safle We Cyhoeddus (TG02)** yn 99.64% o'i gymharu â 99.98% ar gyfer yr un cyfnod yn 15/16 a 99.94% yn 14/15 a 13/14.

5.2.11 Fodd bynnag, nid wyf o'r farn fod y set bresennol o fesurau yn cyfarch yr holl feysydd gwaith o fewn y Gwasanaeth. Rwyf wedi gofyn iddynt edrych ar ffyrdd o fesur yr elfennau gwaith hynny sydd ddim yn cael eu mesur ar hyn o bryd a byddaf yn eich diweddaru ar unrhyw ddatblygiadau.

5.3 **ADRAN CEFNOGAETH GORFFORAETHOL**

5.4 Mae gennyf gyfrifoldeb am feysydd gwaith 5 o Unedau o fewn **Adran Cefnogaeth Gorfforaethol** ac yn dilyn herio perfformiad y mesurau ar gyfer y Gwasanaeth **Datblygu'r Gyfundrefn, Dysgu a Datblygu a Cefnogol** rwy'n hapus gyda pherfformiad y mesurau perthnasol.

5.5 Mae'n bwysig ein bod yn rheoli absenoldebau o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau i bobl Gwynedd. Y **Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol** sy'n gyfrifol am gasglu'r wybodaeth hyn ac rwyf ychydig yn bryderus fod y ffigwr ar gyfer y mesur **Nifer o ddyddiau o absenoldeb (CHR/002)** wedi cynyddu i 4.00 ar gyfer y 2 chwarter cyntaf yn 2016/17 o'i gymharu â 3.73 ar gyfer yr un cyfnod yn 15/16, 3.63 yn 14/15 a 3.76 yn 13/14.

5.6 Er mwyn sefydlu'r gwir sefyllfa rwyf wedi gofyn i'r Gwasanaeth rannu'r salwch tymor hir a thymor byr wrth adrodd ar y mesur yn y dyfodol er mwyn ein galluogi i edrych ar sut y gellir lleihau'r salwch tymor byr. Rwyf hefyd wedi gofyn iddynt edrych ar y posibilrwydd o ail fframio'r hyn sy'n ddisgwyliedig o swyddogion yng nghyd destun salwch a'r awyrgylch o ymddiriedaeth yr ydym yn ceisio ei greu ond gan bwysleisio goblygiadau bradychu'r ymddiriedaeth hwnnw a byddaf yn adrodd yn ôl ar unrhyw ddatblygiadau.

5.7 Rhywbeth arall y mae'r Gwasanaeth wedi bod yn edrych arno yn ddiweddar yw'r **Lefi Prentisiaeth** fydd yn cael ei gyflwyno gan Lywodraeth y DU ar y 6ed o Ebrill 2016. Amcangyfrifir y bydd angen i Gyngor Gwynedd dalu lefi blynyddol o tua £600,000.

5.8 Er bod prentisiaethau yn fater sydd wedi ei ddatganoli bydd angen i gyflogwyr dalu'r lefi i goffrau Llywodraeth San Steffan. Nid yw'n glir pa gyfran o'r arian hyn fydd yn dod yn ôl i Lywodraeth Cymru ond deallir mai'r bwriad fydd rhannu hwn trwy drefniadau cyllido Barnett.

5.9 O ystyried ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno 100,000 o brentisiaethau newydd cyn diwedd y Cynulliad presennol **awgrymaf** ein bod yn llythyru hefo'r Llywodraeth yng Nghaerdydd gan ofyn iddynt sicrhau fod yr holl arian a fyddwn yn ei dalu fel lefi prentisiaeth yn dod yn ôl i'r Cyngor ar gyfer ei neilltuo tuag at gyflogi prentisiaethau. Fel arall mae hwn yn mynd i fod yn dreth ar wasanaethau i bobl Gwynedd heb unrhyw fudd yn deillio ohono, a chan gymryd nad yw'r

Llywoodraeth yn dibynnu ar yr adnodd yma, byddai ei roi'n ôl i awdurdodau yn ein galluogi i gael budd ohono.

5.10 Mae'r **Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant** yn gyfrifol am gynghori ar sut i warchod iechyd diogelwch a llesiant staff a phobl Gwynedd a monitro ansawdd. Er bod perfformiad y mesur **Nifer o archwiliadau Iechyd a Diogelwch** yn dangos mai risg isel sy'n bodoli wrth edrych ar y rhestr diffygion nodir nad oedd asesiadau risg yn eu lle neu wedi eu hadolygu mewn rhai achosion. Wrth drafod y mater pwysleisiwyd yr angen i Reolwyr gymryd cyfrifoldeb dros faterion Iechyd a Diogelwch ac rwyf wedi gofyn i'r Gwasanaeth ystyried sut y gellir codi ymwybyddiaeth a sicrhau bod hyn yn digwydd.

6 **SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION**

6.1 Mae 76% o gynlluniau arbedion 2016/17 yr **Adran Gyllid** wedi eu gwireddu a 6% pellach ar y trywydd cywir, sy'n awgrymu mai 82% o'r cynlluniau fydd yn cael eu gwireddu yn amserol. Dim ond dau gynllun, sy'n pontio mwy nag un flwyddyn, sydd ddim ar y trywydd cywir neu'n llithro. Adroddwyd ym mis Medi bod datrysiad parthed y cynllun C27 (Ail gaffael y rhwydwaith PSBA) yn destun sgwrs genedlaethol, ac mae'r rhagolygon diweddaraf yn awgrymu bod tebygrwydd y bydd yr arbedion yn cael eu gwireddu, ond bydd llithriad hyd 2018/19. Gwelwir hefyd llithriad bach mewn gwireddu rhan o gynllun C1 (Ail strwythuro Refeniw). O ran cynlluniau 2017/18, ni ragwelir unrhyw broblem gwireddu.

6.2 Mae'r **Adran Cefnogaeth Gorfforaethol** wedi gwireddu'r oll o gynlluniau effeithlonrwydd a thoriadau 2016/17, ac yn gwneud cynnydd derbyniol iawn tuag at wireddu cynlluniau'r ddwy flwyddyn ganlynol. Dim ond 1 o'r cynlluniau sydd ddim ar y trywydd cywir a rhagwelir o bosibl y bydd angen darganfod modd amgen o wireddu'r arbediad ond mae hyn mewn llaw gan yr Adran.

7 **CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

7.1 Dim i'w nodi.

8 **UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

8.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Prif Weithredwr:**

Fel y noda'r adroddiad, nid oes materion o bryder mawr ond mae'r elfennau a ganlyn yn haeddu sylw:-

- Y Lefi Prentisiaeth – Er nad yw union oblygiadau hwn yn gwbl eglur eto, mae posibilrwydd y gallai ei effaith fod yn arwyddocaol iawn. Mae'n bwysig iawn felly bod yr Aelod Cabinet a'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol yn cadw llygad barcud ar hwn er mwyn ymateb iddo'n briodol.
- Ffordd Gwynedd – Fel y mae'r Aelod Cabinet yn nodi, rydym wedi bod yn cynnal cyfarfodydd diweddar gyda staff i asesu i ba raddau y mae Ffordd Gwynedd yn treiddio go iawn ar draws y Cyngor. Yn ddigon naturiol, mae amrywiaeth i'w weld ar draws y Cyngor ond yn gyffredinol mae'r arwyddion yn galonogol o gofio mai tasg tymor hir yw gwreiddio diwylliant newydd mewn unrhyw sefydliad.
- EDRMS – Fel y mae'r adroddiad yn nodi, mae'r Tim Rheoli wedi ceisio asesiad o ganlyniadau'r prosiect a bydd adroddiad yn ôl ar hwn maes o law.

**ii. Y Swyddog Monitro:**

- Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**iii. Y Pennaeth Cyllid:**

- Cadarnhaf gywirdeb yr elfennau cyllidol o'r adroddiad, a byddaf yn cynorthwyo'r Aelod Cabinet i gyflawni'r amcanion perthnasol.

8.2 **Barn yr Aelod Lleol:**

8.2.1 Ddim yn fater lleol.

8.3 **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

8.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Mesurau Perfformiad

Atoadiad 1 - Mesurau Cyllid

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2016.17**

**Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg - Mesurau Cyflawni**

| Cyf. | Mesur Cyflawni | 16/17 | 15/16 | 14/15 | 13/14 |
|---|---|---|---|---|---|
| CD5.01 | Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb | | -0.0013 | -0.0018 | -0.0014 |
| CD5.2a | Bodlonrwydd Adrannau a Gwasanaethau hefo'r gwasanaeth a chefnogaeth cyllid a chyfrifeg a dderbynnir | | 4.90 | 4.32 | 4.30 |
| CD5.2b | Bodlonrwydd y Tim Rheoli Corfforaethol efo'r gwasanaeth cyllid a chyfrifeg a roddir i'r Cyngor yn gorfforaethol | | 4.50 | 4.00 | 4.10 |



| Cyf. | Mesur Cyflawni | Ch 2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 | Ch2 13/14 |
|---|---|---|---|---|---|
| CD5.3 | Monitro ariannol gan gynnwys cynhyrchu adroddiadau i'r Rheolwyr Cyllidebau, Grŵp Arweinyddiaeth, Arweinyddion Portffolio, Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio yn chwarterol, ynghyd â monitro perfformiad cynlluniau arbedion a thoriadau y Cyngor. | Ia | Ia | Ia | Ia |
| CD5.04 | Llunio a dosbarthu Cyllideb y Cyngor yn flynyddol ac yn unol â'r amserlen benodol a phenodedig i gyrraedd y camau allweddol angenrheidiol | Ia | Ia | Ia | |
| CD5.5 | Cwblhad o'r Cyfrifion Terfynol (Cyfrifon Gwynedd, 3 Cyd-Bwyllgor a'r 4 Harbwr) a'r gofynion perthnasol i gynhyrchu Datganiad o'r Cyfrifon Drafft a sicrhau cymeradwyaeth o'r Datganiad o'r Cyfrifon terfynol. | Do | Do | Do | |

**Gwasanaeth Taliadau Credydwyr - Mesurau Cyflawni**

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Ch2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 | Ch2 13/14 |
|---|---|---|---|---|---|
| CD6.01 | Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor) | 86% | 85% | 94% | 94% |
| CD6.02 | Canran yr anfonebau a dalwyd yn lleol o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor) | 90% | 90% | | |
| CD6.03 | Addasiad i daliadau blaenorol gan y Cyngor | 0 | | | |

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2016.17**

**Gwasanaeth Cyflogau - Mesurau Cyflawni**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Dewi A Morgan
Rheolwr Cyfrifol: Martin Morris

Pwrpas y Gwasanaeth:
I dalu staff yn gywir ac ar amser, ac hefyd cadw cyfrifon priodol ar gyfer talu cyrff allanol fel CThEM (HMRC)



| Cyf. | Mesur Cyflawni | Ch 2 16/17 | Ch2 15/16 |
|---|---|---|---|
| CD8.07 | Nifer achosion sydd yn arwain at addasiad pellach yn y cyflog. | 147 | 100 |
| CD8.08 | Nifer gweithwyr sydd yn cysylltu ynglyn ag unrhyw ddiffyg yn y broses talu cyflogau. | 77 | 67 |
| CD8.09 | Sicrhau taliadau cywir o fewn y gofyniad amser i cyrff allanol (fel CTheM). | 100% | 100% |

| Sylwadau | |
|---|---|
| CD8.07 | 147 o addasiadau allan o 19,854 taliad (0.74%) cynnydd yn y mân addasiadau payroll 1 mis 4 hefyd effaith cyflogres athrawon mis |
| CD8.08 | 77 galwad yn dilyn 19,854 o daliadau sydd yn cyfateb i 0.39% |

**Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth - Mesurau Cyflawni**

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Ch2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 | Ch2 13/14 |
|---|---|---|---|---|---|
| TG01 | Canran yr argaeledd rhwydwaith | 99.93% | 100% | 99.87% | 99.9% |
| TG02 | Canran yr argaeledd Safle We Cyhoeddus | 99.64% | 99.98% | 99.94% | 99.94% |
| TG05 | Cyfartaledd sgor bodlonrwydd defnyddwyr gyda'r Ddesg Gymorth | Heb ei gyfrifo | 4.80 | 4.80 | 4.74 |

**Gwasanaeth Incwm - Mesurau Cyflawni**

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Ch 2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 | Ch2 13/14 |
|---|---|---|---|---|---|
| CD7.02 | Gwerth holl ddyledion amrywiol dros 6 mis oed (ac eithrio taliadau gohiriedig a dyledion a gyfeirwyd am weithrediad pellach i wasanaethau eraill). | 901,156 | 978,668 | 1,020,744 | 923,375 |
| CD7.05 | Cyfradd casglu dyledion amrywiol o fewn y chwarter – Gwerth. | 90.17 | 86.37 | 91.76 | 74.02 |
| CD7.06 | Canran o ddyledion ble daethpwyd i gytundeb talu gyda'r dyledwr. | 13.80% | 12.13% | 10.59% | 2.73% |

**Gwasanaeth Trethi - Mesurau Cyflawni (Chwarterol)**

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Ch2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 | Ch2 13/14 |
|---|---|---|---|---|---|
| CD11.01 | Cyfradd Casglu Treth Cyngor | 58.06% | 58.15% | 58.12% | 57.96% |
| CD11.02 | Cyfradd Casglu Trethi Annomestig | 62.80% | 63.60% | 63.00% | 63.92% |
| CD11.04 | Nifer o drethdalwyr treth cyngor ddaeth i gyswllt â'r tim adfer ac â gyfeirwyd at fudiad y CAB am gyngor dyledion ehangach | 68 | | | |

## Gwasanaeth Budd-daliadau - Mesurau Cyflawni

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Ch2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 | Ch2 13/14 |
|---|---|---|---|---|---|
| CD12.03 | Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dâl newydd (dyddiau) | **17.34** | 16.84 | 22.78 | 24.22 |
| CD12.04 | Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau (budd-dâl) (dyddiau) | **5.78** | 5.22 | 6.94 | 8.79 |
| CD12.05 | Canran yr achosion mewn sampl a ddewiswyd ar hap lle bu rhaid addasu'r cyfrifiad yn dilyn gwiriad mewnol | | | | |

**Sylwadau**

CD12.05 I'w gasglu o chwarter 3 ymlaen.

## Gwasanaeth Risg ac Yswiriant - Mesurau Cyflawni (Chwarterol)

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Ch2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 | Ch2 13/14 |
|---|---|---|---|---|---|
| CD4.01 | Amddiffyn budd ariannol y trethdalwr: canran o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a wadwyd (setlwyd am £0) gan yr Uned | 90.9% | 73.1% | 78.2% | 71.6% |
| CD4.02 | Amddiffyn budd ariannol y trethdalwr:canran o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a wadwyd (setlwyd am £0) gan yr Yswirwyr | 92.3% | 80.8% | 79.1% | 73.4% |

| Sylwadau | |
|---|---|
| CD4.01 | 1 hawliad allan o 11 wedi ei setlo am gost. 10 hawliad wedi ei amddiffyn yn llwyddiannus. |
| CD4.02 | 1 hawliad allan o 13 wedi ei setlo am gost. 12 hawliad wedi ei |

**Gwasanaeth Archwilio Mewnol - Mesurau Cyflawni**

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Ch2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 | Ch2 13/14 |
|---|---|---|---|---|---|
| CD2.02 | Cyfran o’r adroddiadau dilyniant Archwilio Mewnol yn cyrraedd barn “Derbyniol” neu well (mesur corfforaethol) | 100.00 | 100.00 | 71.43 | 80.00 |
| CD2.03 | Canran archwiliadau yn y Cynllun Archwilio sydd unai wedi eu cau neu sydd ag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau. | 32.53 | 28.79 | 26.80 | 28.04 |
| CD2.09a | Canran o’r archwiliadau mewnol sydd yn cyrraedd barn “B” neu well (Cyfanswm cronnus) | 88.5 | 73.68 | 72.73 | 76.67 |
| CD2.09b | Canran o’r archwiliadau mewnol sydd yn cyrraedd barn “B” neu well (Cyfanswm Chwarterol) | 90.9 | 75.00 | | |

**Gwasanaeth Pensiynau - Mesurau Cyflawni**

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Ch 2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 | Ch2 13/14 |
|---|---|---|---|---|---|
| CD9.03 | Cyfartaledd nifer y ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - amcangyfrif. | 9.70 | 11.80 | 11.50 | 7.20 |
| CD9.04 | Cyfartaledd nifer y ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - gwir werth. | 2.20 | 4.20 | 5.80 | 5.80 |
| CD9.05 | Cyfartaledd nifer o ddyddiau gwaith a gymerwyd i gyflawni cyfrifiadau a thaliadau dibynyddion yn dilyn marwolaeth aelod o’r cynllun. | 5.80 | 8.57 | 4.90 | 7.80 |

## Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys - Mesurau Cyflawni

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 2 | Ch2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 | Ch2 13/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD13.05 | Cronfa Bensiwn - Perfformiad buddsoddi’r rheolwyr portffolio o’i gymharu â'r meincnod penodol a osodwyd ar eu cyfer. | Heb derbyn perfformiad y gronfa bensiwn eto. | | -5.50 | 3.50 | 2.30 |
| CD13.06 | Diogelwch arian y Cyngor wrth adnau arian mewn banciau - dadansoddiad chwarterol gan Arlingclose o’r sgôr credyd (1 ydi’r gorau, sef statws credyd AAA, 2 ydi AA+, 3 ydi AA, 4 ydi AA-, 5 ydi A+, 6 ydi A, 7 ydi A-). | Hapus bod y sgor yn sefydlog ar lefel 3 | 3.00 | 3.44 | 3.21 | 4.60 |
| CD13.07 | Incwm llog ar adnau arian mewn banciau i'w mesur yn erbyn cyfradd 7 diwrnod LIBID heb ei compowndio | Canran cyfartaledd yn dechrau lleihau yn dilyn lleihad mewn cyfradd Banc Lloegr o 0.5% i 0.25% | 0.58 | 0.62 | 0.66 | 0.70 |

| Sylwadau | |
|---|---|
| CD13.05 | Heb derbyn perfformiad y gronfa bensiwn eto. |
| CD13.07 | Canran cyfartaledd yn dechrau lleihau yn dilyn lleihad mewn cyfradd Banc Lloegr o 0.5% i 0.25% |

* = Ffigwr is yn welliant

## Atodiad 1- Mesurau

## Mesurau Cefnogaeth Gorfforaethol (meysydd Adnoddau Dynol ac Arbedion)

| **Mesur- diffiniad** | **2013-14** | **2014-15** | **2015/16** | **Cyfeiriad Uchelgais** | **Gwybodaeth Ddiweddaraf** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol** | | | | | |
| 1. **CHR/002 yn y Cynllun Strategol**<br><br>Nifer o ddyddiau o absenoldeb salwch y pen | 3.76 | 3.63 | 3.73 | Cynnal | 4.00 (diwedd Medi) |
| 2. Nifer o achosion cyflogaeth sy'n cael eu cyfeirio i sylw'r Pwyllgor Apelau Cyflogaeth, a'r nifer o apeliadau sy'n cael eu caniatáu gan y Pwyllgor hwnnw (h.y. mynd yn groes i benderfyniad gwreiddiol y cyflogwr). | - | - | 4 achos apêl wedi ei gynnal.<br><br>3 apêl wedi ei ganiatáu gan y Pwyllgor. | Gwelliant | 2 achos apêl wedi ei gynnal ers diwedd Awst; cafodd y ddwy apêl eu gwrthod gan y Pwyllgor. |
| 3. Barn sampl o reolwyr y Cyngor sydd yn dweud fod y Gwasanaeth yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu gallu i gyflawni. (Sgôr allan o 10) | | | | | 9 |
| **Sylwadau**<br>2. Ers Ebrill 2016, mae 4 apêl wedi ei chyflwyno, pob un ohonynt wedi eu gwrthod. | | | | | |
| **Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant Adnoddau Dynol** | | | | | |
| 1. Nifer o ddigwyddiadau RIDDOR (ffigyrau ar gyfer y chwarter mewn cromfachau) | 76(24) | 63(19) | 44(12) | - | 11<br>(Chwarter 2) |
| 2. Nifer o archwiliadau I&D (ac yn deillio o hynny, nifer yr achosion diffyg cydymffurfiaeth) | - | - | - | - | Risg Isel |
| 3. Holiaduron bodlonrwydd (sgôr allan o 10) | - | - | - | - | 9 |
| 4. Nifer o ymyraethau Iechyd Galwedigaethol sydd wedi eu targedu ar sail ffigyrau absenoldebau (maes o law beth yw effaith yr ymyraethau hynny) | - | - | - | - | 4 clinig wedi eu cynnal |
| 5. Nifer o ymyraethau AGID a nifer o ddiffygion materol | - | - | - | - | Dim ymyraethau yn Chwarter 2. |

* = Ffigwr is yn welliant

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sylwadau**<br><br>2.Nifer o enghreifftiau o ymarfer da wedi eu canfod a rhai diffygion a sylw wedi eu rhoi i'r diffygion hynny.<br>3. Sylw wedi ei roi i'r awgrymiadau ar gyfer gwella. | | | | | |
| **Uned Gefnogol** | | | | | |
| CG15 Canran bodlonrwydd ymgeiswyr ynghylch y profiad o ymgeisio am swydd gyda'r Cyngor ac adnabod os oes rhwystrau sydd wedi creu problemau di-angen (ac felly os oes modd ei diddymu) | - | - | - | Gwelliant | 100% |
| CG16 Canran bodlonrwydd Rheolwyr a staff perthnasol o fewn y Cyngor i ynghylch y gwasanaeth ac adnabod y rhwystrau maent yn ei gael sydd yn creu problemau iddynt pan yn gwasanaethu pobl Gwynedd (ac felly os oes modd ei diddymu) | - | - | - | Gwelliant | 90% |
| **Sylwadau**<br>Camau wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ymateb i'r achosion o ddiffyg bodlonrwydd lle mae gennym ddylanwad dros y sefyllfa. | | | | | |
| **Gwasanaeth Datblygu'r Gyfundrefn** | | | | | |
| CG06 Canran o staff ar sail sampl sy'n teimlo bod y buddiannau y maent yn gallu manteisio arnynt gydag effaith positif ar eu bodlonrwydd gyda'r Cyngor fel cyflogwr | - | 62% | 64% | Cynnydd | 73% |
| **Dysgu a Datblygu** | | | | | |
| CG01 Bodlonrwydd staff gyda'r ddarpariaeth dysgu yn eu helpu i roi Gwasanaeth gwell i Bobl Gwynedd. (Sgôr/10) | - | | 7.8 | - | 8.4 |
| CG02 Bodlonrwydd Rheolwyr gyda'r ddarpariaeth dysgu yn helpu eu staff i roi Gwasanaeth gwell i Bobl Gwynedd. (Sgôr/10) | - | | 7.6 | - | 8.1 |
| CG03 Bodlonrwydd Aelodau sy'n teimlo bod y ddarpariaeth dysgu yn eu helpu i gyflawni eu rôl yn effeithiol i roi Gwasanaeth gwell i Bobl Gwynedd (Sgôr/10). | - | - | - | Gosod Gwaelodlin | 9.8 |
| **Sylwadau**<br>Camau wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ymateb i'r achosion o ddiffyg bodlonrwydd lle mae gennym ddylanwad dros y sefyllfa. | | | | | |
| **Tîm Arbedion** | | | | | |
| Arb01 Swm arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd fel canran o'r holl arbedion | - | - | - | Gwelliant | 84% |
| DT3.1b Swm arbedion a gyflawnwyd | - | - | - | - | £7,733,442 |